**Rhif: WG53900**

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion ac ymateb y Llywodraeth

# Adolygiad 2025 o Ran L o'r Rheoliadau Adeiladu, Newidiadau i Ran L (arbed tanwydd ac ynni), a Rhan F (awyru) o'r Rheoliadau Adeiladu ar gyfer anheddau ac adeiladau annomestig (heb gynnwys newidiadau i Ran O – gorgynhesu)

Dyddiad: Chwefror 2026

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

OGL © Hawlfraint y Goron 2026
ISBN Digidol 978-1-83745-180-7

## Trosolwg

Crynodeb o'r ymatebion a gafwyd ac ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad ar Adolygiad 2025 o Ran L o'r Rheoliadau Adeiladu, Newidiadau i Ran L (arbed tanwydd ac ynni), Rhan O (gorgynhesu) a Rhan F (awyru) o'r Rheoliadau Adeiladu ar gyfer anheddau ac adeiladau annomestig a gynhaliwyd rhwng 26 Awst 2025 a 17 Tachwedd 2025.

Caiff yr ymatebion i gwestiynau 44 i 47 (ym mhennod 3 yr ymgynghoriad) a oedd yn cynnwys cynigion ar gyfer y newidiadau i Ran O (gorgynhesu) er mwyn cwmpasu rhai mathau o waith adeiladu risg uchel ar anheddau presennol eu cyhoeddi ar wahân yn nes ymlaen eleni.

## Camau Gweithredu Gofynnol

Er gwybodaeth yn unig y mae'r ddogfen hon.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill ar gael ar gais.

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Rheoliadau Adeiladu
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: enquiries.brconstruction@llyw.cymru

## Copïau ychwanegol

Ar ffurf electronig yn unig y cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymatebion a'r copïau o holl ddogfennau'r ymgynghoriad, ac maent ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i ddogfennaeth yr ymgynghoriad: Adolygiad 2025 o Ran L o'r Rheoliadau Adeiladu

## Cynnwys


1. Cyflwyniad ........ 1

2. Safonau Rhan L a Rhan F ar gyfer Anheddau Newydd yn 2025 (Cwestiynau 1 i 27) ........ 3

3. Safonau Rhan L, Rhan F a Rhan O ar gyfer Anheddau Presennol yn 2025 (Cwestiynau 28 i 47) ........ 48

4. Safonau Rhan L ar gyfer Adeiladau Annomestig Newydd yn 2025 ........ 77

5. Safonau Rhan L ar gyfer Adeiladau Annomestig Presennol yn 2025 ........ 98

6. Newidiadau deddfwriaethol i'r gofynion effeithlonrwydd ynni ........ 105

7. Adborth ar yr Asesiad Effaith ........ 109

8. Trefniadau Trosiannol ........ 112

9. Y Gymraeg ........ 121

10. Y Camau Nesaf ........ 122

# 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad “Adolygiad 2025 o Ran L o'r Rheoliadau Adeiladu, Newidiadau i Ran L (arbed tanwydd ac ynni), Rhan O (gorgynhesu) a Rhan F (awyru) o'r Rheoliadau Adeiladu ar gyfer anheddau ac adeiladau annomestig” (a agorodd ar 26 Awst 2025 ac a gaeodd ar 17 Tachwedd 2025) ac mae wedi'i strwythuro ar sail y cwestiynau a nodwyd yn yr ymgynghoriad.

Noder y bydd yr ymatebion i gwestiynau 44 i 47 (ym mhennod 3 yr ymgynghoriad) a oedd yn cynnwys cynigion ar gyfer y newidiadau i Ran O (gorgynhesu) er mwyn cwmpasu rhai mathau o waith adeiladu risg uchel ar anheddau presennol yn cael eu cyhoeddi ar wahân yn nes ymlaen eleni.

1.2 Y safbwyntiau a nodir yn y crynodeb hwn yw'r rhai a fynegwyd gan yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad ac nid ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu safbwyntiau Llywodraeth Cymru.

**Rheoliadau Adeiladu**

1.3 Mae Rheoliadau Adeiladu yn rheoli mathau penodol o waith adeiladu, yn bennaf codi ac ymestyn adeiladau a darparu neu ymestyn gwasanaethau neu ffitiadau penodol, yn bennaf er mwyn sicrhau bod adeiladau yn cyrraedd safonau penodol o ran iechyd, diogelwch, llesiant, cyfleustra a chynaliadwyedd.

1.4 Y sawl sy'n gwneud y gwaith sy'n gyfrifol am gydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu ac mae'r system rheoli adeiladu yn helpu i sicrhau bod y lefel ofynnol o berfformiad wedi'i sicrhau. Rôl corff rheoli adeiladu, naill ai'r awdurdodau lleol neu cymeradwywr cofrestredig rheolaeth adeiladu yn y sector preifat, yw gweithredu fel corff archwilio trydydd parti annibynnol er mwyn helpu i sicrhau cydymffurfiaeth. Fel opsiwn amgen i broses archwilio trydydd parti gan gorff rheoli adeiladu, gall gosodwyr sydd wedi'u cofrestru fel aelod o gynllun hunanardystio personau cymwys ac yr aseswyd eu bod yn gymwys i wneud hynny, hunanardystio bod rhai mathau o waith yn cydymffurfio â'r rheoliadau.

1.5 Mae Rheoliadau Adeiladu yn dylanwadu'n fawr ar y ffordd y caiff ein hadeiladau eu codi a'u defnyddio. Felly, maent yn helpu i sicrhau manteision sylweddol i gymdeithas. Gall fod costau i fusnesau ac unigolion yn gysylltiedig â gweithgarwch rheoleiddio hefyd. Mae natur “swyddogaethol” y Rheoliadau Adeiladu, drwy ddarparu bod rheoliadau yn pennu'r gofynion cyffredinol yn hytrach na rhagnodi sut mae'n rhaid ei gyflawni, yn ceisio cynnig hyblygrwydd a sicrhau nad yw arloesi yn cael ei rwystro. Wedyn, mae canllawiau yn y Dogfennau Cymeradwy sy'n ategu'r Rheoliadau yn nodi rhai o'r ffyrdd y gellir bodloni'r gofynion hyn er nad oes rhaid eu dilyn os gellir dangos bod y lefel ofynnol o berfformiad wedi'i sicrhau mewn ffordd wahanol. Mae'r dull hwn o weithredu yn rhoi eglurder i gyrff rheoli adeiladu a'r diwydiant fel ei gilydd.

## Trosolwg o'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad

1.6 Cafwyd 88 o ymatebion i'r ymgynghoriad ac rydym yn ddiolchgar i bawb a ymatebodd. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad wedi cael eu darllen a'u hystyried fel rhan o'r dadansoddiad hwn. Darparwyd ffurflen ymateb safonol er hwylustod.

1.7 Gofynnwyd i'r ymatebwyr a lenwodd y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ddewis un o 15 o fathau o sefydliadau a oedd wedi'u nodi ar y ffurflen (gan gynnwys opsiwn 'heb ei nodi' lle y gallent ychwanegu eu hateb eu hunain) i ddisgrifio eu sefydliad. Dengys y tabl isod nifer yr ymatebion a gafwyd gan bob sector.

1.8 Ar gyfer llawer o'r cwestiynau, roedd modd i'r ymatebwyr ddewis opsiwn "Ddim yn siŵr" os oeddent yn ansicr p'un a oeddent yn cytuno â'r cynnig ai peidio. Ar gyfer rhai o'r cwestiynau, dewisodd cyfran fawr o'r ymatebwyr yr opsiwn "Ddim yn siŵr". Yn yr adborth a roddodd yr ymatebwyr hyn, yr hyn a ddywedodd llawer ohonynt oedd naill nai nad oedd ganddynt y wybodaeth arbenigol i ymateb i'r cwestiwn hwnnw neu nad oedd ganddynt farn benodol. Dim ond lle y gwnaethant nodi rheswm penodol dros eu hansicrwydd ynglŷn â'r cynnig rydym wedi cynnwys adborth gan yr ymatebwyr hyn.

1.9 Mewn ambell achos, penderfynwyd bod y sylwadau a wnaed yn fwy addas ar gyfer cwestiwn arall. Cafodd y sylwadau hyn eu trosglwyddo i'r cwestiynau perthnasol.

| **Sector** | **Ymatebion** | **%** |
|---|---|---|
| Pensaer | 9 | 10% |
| Adeiladwr/Datblygwr | 3 | 3% |
| Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | 1 | 1% |
| Gweithiwr Proffesiynol ym maes Adeiladu | 5 | 6% |
| Dylunydd/Peiriannydd/Syrfëwr | 7 | 8% |
| Asesydd Ynni | 2 | 2% |
| Sector ynni | 1 | 1% |
| Awdurdod Lleol | 8 | 9% |
| Gwneuthurwr/cadwyn gyflenwi | 15 | 17% |
| Parti Arall â Diddordeb (rhowch fanylion) | 28 | 32% |
| Rheolwr Eiddo/Cymdeithas Tai/Landlord | 3 | 3% |
| Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu | 1 | 1% |
| Adeiladwr bach/canolig | 1 | 1% |
| Heb ei nodi | 3 | 3% |
| Adeiladwr tai mawr | 1 | 1% |
| **CYFANSWM** | **88** | **100%** |

# 2. Safonau Rhan L a Rhan F ar gyfer Anheddau Newydd yn 2025 (Cwestiynau 1 i 27)

2.1 Roedd pennod 2 yr ymgynghoriad yn cynnwys ein cynigion ar gyfer newidiadau i'r safonau effeithlonrwydd ynni ac awyru ar gyfer anheddau newydd. Gwnaethom gynnig y newidiadau canlynol:

- Codiad mewn safonau effeithlonrwydd ynni. Yn benodol, gwnaethom gynnig bod system wresogi carbon isel yn rhan hanfodol o'r fanyleb adeilad.
- Newid i'r metrigau perfformiad presennol. Cynigiwyd tynnu'r metrig blaenorol, sef Cyfradd Effeithlonrwydd Ynni Annedd (DEER), yn ôl a'i ddisodli â Dwysedd Defnydd Ynni er mwyn amddiffyn y rhai sy'n byw mewn anheddau rhag biliau tanwydd rheoleiddiedig blynyddol uchel.
- Diwygiadau i Ddogfennau Cymeradwy L a F er mwyn gwella'r broses o gomisiynu ac archwilio gwasanaethau adeiladau sefydlog mewn anheddau newydd.

**Crynodeb o'r ymatebion:**

**Cwestiwn 1: Pa lefel o welliant i'r safonau effeithlonrwydd ynni (h.y. gwelliannau i'r targedau ar gyfer metrigau perfformiad (gweler paragraff 2.42 ar gyfer metrigau arfaethedig) yn y Rheoliadau Adeiladu y dylid ei chyflwyno ar gyfer safon Rhan L 2025?**

**Cwestiwn 1: Pa lefel o welliant i'r safonau effeithlonrwydd ynni (h.y. gwelliannau i'r targedau ar gyfer metrigau perfformiad (gweler paragraff 2.42 ar gyfer metrigau arfaethedig) yn y Rheoliadau Adeiladu y dylid ei chyflwyno ar gyfer safon Rhan L 2025?**

| | Pawb a ymatebodd | Pensaer | Adeiladwr/Datblygwr | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Gweithiwr Proffesiynol ym maes Adeiladu | Dylunydd/Peiriannydd/Syrfëwr | Asesydd Ynni | Sector ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/cadwyn gyflenwi | Parti Arall â Diddordeb (rhowch fanylion) | Rheolwr Eiddo/Cymdeithas Tai/Landlord | Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu | Adeiladwr bach/canolig | Heb ei nodi | Adeiladwr tai mawr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **75** | **9** | **3** | **1** | **4** | **7** | **2** | **1** | **8** | **12** | **23** | **3** | **0** | **1** | **0** | **1** |
| a. Opsiwn 1 | 37% | 0% | 33% | 0% | 25% | 14% | 50% | 100% | 75% | 25% | 48% | 67% | 0% | 0% | 0% | 100% |
| b. Opsiwn 2 | 44% | 100% | 67% | 100% | 75% | 71% | 50% | 0% | 0% | 33% | 30% | 0% | 0% | 100% | 0% | 0% |
| c. Arall | 19% | 0% | 0% | 0% | 0% | 14% | 0% | 0% | 25% | 42% | 22% | 33% | 0% | 0% | 0% | 0% |

2.2 O'r 75 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, roedd ychydig mwy o ymatebion yn ffafrio opsiwn 2 (44%) nag opsiwn 1 (37%). Dywedodd 19% fod ganddynt

safbwyntiau gwahanol. Tynnir sylw at y rhesymau allweddol a roddwyd dros y safbwyntiau hyn isod.

**Rhesymau dros gefnogi Opsiwn 1**

- **Mae'n gwella hyfywedd:** Mae Opsiwn 1 yn cynnig ateb sy'n taro cydbwysedd rhwng perfformiad da a chostau cyfalaf. Byddai hyn yn creu safon sy'n fwy cyraeddadwy a chosteffeithiol i adeiladwyr tai yn yr hinsawdd bresennol.
- **Mae'n lleihau cymhlethdod:** Gall y lefel uchel o gymhlethdod sy'n gysylltiedig â systemau awyru mecanyddol sy'n adfer gwres (MVHR) a'r hydreiddedd aer is yn Opsiwn 2 arafu'r gwaith o adeiladu cartrefi. Hefyd, dywedodd rhai na fyddai targed Opsiwn 2 o 1.5 $m^3/(h \cdot m^2)$ ar 50 Pa yn gyraeddadwy heb fod angen uwchsgilio.
- **Mae'n cyd-fynd â Safon Cartrefi'r Dyfodol:** Disgwylir i Opsiwn 1 gyd-fynd yn agosach â Safon Cartrefi'r Dyfodol y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol nag Opsiwn 2. Dyma'r hyn roedd sefydliadau sy'n gweithredu yng Nghymru ac yn Lloegr yn ei ffafrio.
- **Mae'n cynnwys adfer gwres o ddŵr gwastraff (WWHR):** Dywedodd rhai mai'r ffaith bod WWHR wedi'i gynnwys yn Opsiwn 1 oedd y rheswm dros eu dewis, oherwydd arbedion sylweddol y gellir eu gwneud ar ddŵr poeth domestig.

**Rhesymau dros gefnogi Opsiwn 2**

- **Mwy uchelgeisiol:** Roedd Opsiwn 2 yn cael ei ffafrio oherwydd yr angen i leihau allyriadau a biliau tanwydd.
- **Mwy o gysondeb â safonau a thargedau adeiladu cydnabyddedig:** Mae'n cyd-fynd yn agosach â'r perfformiad adeiladau a gyflawnir gan brosiectau ardystiedig AECB CarbonLite a Passivhaus. Caiff y rhain eu hystyried yn enghreifftiau o safonau datgarboneiddio profedig a chadarn sydd hefyd yn cynnwys MVHR a hydreiddedd aer isel. Cyfeiriodd llawer at gysondeb â Pholisi Adeiladu Cymru 12 fel rheswm dros eu cefnogaeth hefyd.
- **Adeiladwaith yn gyntaf:** Ystyriwyd y byddai'r safonau adeiladwaith uwch yn Opsiwn 2 yn cael mwy o effaith ar ansawdd y stoc dai. Ystyriwyd bod hyn yn bwysicach er mwyn cyflawni sero net nag ychwanegu technolegau.
- **Iechyd a chysur preswylwyr**: Credid y byddai Opsiwn 2 yn fwy buddiol o ran ansawdd aer dan do, gan arwain at well cysur thermol ac adeiladau iachach a mwy diogel.

**Rhesymau dros ddewis "Arall" fel yr opsiwn a ffefrir**

- **Angen gwelliant pellach:** Nid oedd lefelau'r gwelliannau i adeiladwaith elfennau adeiladau fel y gwerthoedd U ar gyfer ffenestri a drysau gwydrog yn ddigon o gymharu â'r targedau blaenorol ar gyfer y naill opsiwn na'r

llall.

- **Dylid darparu manylebau pellach ar gyfer pympiau gwres:** Dylid cynnig mwy o amrywiaeth o ran y pympiau gwres tybiannol, megis pympiau gwres hydronig, systemau aer i aer, pympiau gwres o'r ddaear a phympiau gwres o ddŵr. Hefyd, cododd rhai bryderon fod silindrau ErP Dosbarth A yn gam yn rhy bell i'r farchnad.
- **Ystyriwyd bod Opsiwn 1 yn waeth na'r safonau presennol:** Ystyriwyd bod Opsiwn 1 yn gam yn ôl o Ran L 2022. Er enghraifft, tybiwyd na fyddai llacio'r gwerth U ar gyfer waliau allanol i 0.15 W/m²/k yn y fanyleb adeilad dybiannol newydd yn briodol am fod y diwydiant wedi arfer â'r gwerth presennol, sef 0.13 W/m²/k.

### Pwyntiau ychwanegol

2.3 Codwyd y pwynt ychwanegol canlynol yn yr ymatebion.

- **Mae dibyniaeth ar systemau ffotofoltäig yn her o ran cydymffurfiaeth:** Roedd pryder y gall y targed uchel yn Rhan L olygu y bydd angen gosod systemau ffotofoltäig er mwyn cydymffurfio. Mae'n bosibl na fydd modd gwneud hyn ym mhob senario. Codwyd ffactorau fel cyfeiriadaeth, siâp y to, cysgod a diogelwch tân fel materion sy'n benodol i safleoedd a allai fod yn rhwystr rhag cyflawni'r lefel a nodir yn y fanyleb adeilad dybiannol o ran systemau ffotofoltäig.

**Cwestiwn 2: A ydych yn cytuno â'r pryderon a godwyd ym mharagraff 2.7 ynghylch systemau MVHR ar yr adeg hon?**

| Cwestiwn 2: A ydych yn cytuno â'r pryderon a godwyd ym mharagraff 2.7 ynghylch systemau MVHR ar yr adeg hon? | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Pawb a ymatebodd | Pensaer | Adeiladwr/Datblygwr | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Gweithiwr Proffesiynol ym maes Adeiladu | Dylunydd/Peiriannydd/Syrfëwr | Asesydd Ynni | Sector ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/cadwyn gyflenwi | Parti Arall â Diddordeb (rhowch fanylion) | Rheolwr Eiddo/Cymdeithas Tai/Landlord | Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu | Adeiladwr bach/canolig | Heb ei nodi | Adeiladwr tai mawr |
| **Cyfanswm** | **64** | **9** | **3** | **1** | **3** | **7** | **2** | **1** | **8** | **8** | **17** | **2** | **1** | **1** | **0** | **1** |
| a. Ydw | 31% | 0% | 33% | 0% | 0% | 0% | 50% | 0% | 75% | 38% | 35% | 50% | 100% | 0% | 0% | 100% |
| b. Nac ydw | 52% | 100% | 67% | 100% | 100% | 86% | 50% | 0% | 13% | 38% | 35% | 0% | 0% | 100% | 0% | 0% |
| c. Ddim yn siŵr | 17% | 0% | 0% | 0% | 0% | 14% | 0% | 100% | 13% | 25% | 29% | 50% | 0% | 0% | 0% | 0% |

2.4 O'r 64 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, roedd y mwyafrif yn anghytuno â'r pryderon (52%). O gymharu â hynny, roedd 31% yn cytuno â'r pryderon ac roedd 17% yn ansicr. Nodir bod saith o'r ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r pryderon, sef penseiri yn bennaf, wedi defnyddio rhai ymadroddion cyffredin yn eu hymatebion.

**Rhesymau dros gefnogi'r cynnig**

- **Bwlch sgiliau:** Ceir bwlch sgiliau yn y diwydiant ar gyfer dylunio, gosod a chomisiynu unedau MVHR, sy'n gynhenid gymhleth. Gall hyn arwain at berfformiad gwael. Mae hyn yn cynnwys pryderon ynglŷn â'r gallu i osod pibellwaith mewn ffordd effeithiol sy'n gallu lleihau faint o wasgedd a gollir a faint o bŵer a ddefnyddir gan wyntyllau. Gall gwaith gosod o ansawdd da hefyd helpu i leihau faint o aer a ollyngir.
- **Pryderon ynglŷn â chynnal a chadw:** Mae angen gwaith cynnal a chadw rheolaidd, megis newid hidlenni bob 6 i 12 mis, er mwyn sicrhau dibynadwyedd a pherfformiad da. Gall perfformiad gwael arwain at ansawdd aer gwael dan do.
- **Nid yw'r targed hydreiddedd aer yn gyraeddadwy:** Mae'r targed arfaethedig, sef 1.5 $m^3/(h\cdot m^2)$ ar 50 Pa, yn anodd ei gyrraedd yn ymarferol. Gall safonau hydreiddedd aer is leihau effeithiolrwydd system adfer gwres MVHR, gan negyddu'r manteision posibl.
- **Cost ychwanegol:** Mae'r safonau dylunio, gosod a chomisiynu uwch sy'n ofynnol er mwyn rhoi systemau MVHR effeithlon ar waith yn arwain at gost uwch i ddatblygwyr.

**Rhesymau dros wrthwynebu'r cynnig**

- **Ni fydd awyru drwy ddiferu nac awyru naturiol yn sicrhau'r perfformiad gofynnol:** Ystyrir bod awyru drwy ddiferu ac awyru goddefol yn aneffeithiol o ran cynnal ansawdd aer derbyniol dan do. Maent yn ysbeidiol, yn annibynadwy ac yn creu anghysur thermol.
- **Mae systemau MVHR yn sicrhau cartrefi iach:** Mae systemau MVHR yn sicrhau cartrefi iach. Mae hyn yn helpu i ddiogelu rhag problemau fel llwydni. Nid ystyrir y bydd awyru naturiol yn sicrhau amgylchedd iach dan do. Hefyd, mae systemau MVHR yn cynnig budd ychwanegol drwy adfer gwres, a all leihau biliau.
- **Tystiolaeth o roi systemau MVHR ar waith yn llwyddiannus:** Ceir cryn dipyn o waith ymchwil, gwybodaeth yn y diwydiant a degawdau o brofiad ynghylch y ffyrdd cywir o osod a chomisiynu systemau MVHR drwy gynlluniau ardystiedig fel Passivhaus ac AECB.
- **Gwell gofynion comisiynu a thystiolaeth:** Dylai cynigion Dogfen Gymeradwy F i wella gofynion cymhwysedd, comisiynu a thystiolaeth fod yn ddigon i liniaru'r pryderon a godwyd.

**Rhesymau dros ddewis "Ddim yn siŵr"**

- **Gwerthfawrogi MVHR fel technoleg ond pryderon ynglŷn â dibynadwyedd:** Yn gyffredinol, roedd y rhai a oedd yn ansicr yn cefnogi systemau MVHR mewn egwyddor, ond roedd ganddynt bryderon ynglŷn â'u perfformiad. Codwyd pryderon ynglŷn â chymhlethdod, cost, cynnal a chadw, gosod a chomisiynu.

**Ymateb y Llywodraeth i gwestiynau 1 a 2**

2.5 Ar y cyfan, roedd cryn dipyn o gefnogaeth o blaid cynnydd sylweddol iawn mewn safonau effeithlonrwydd ynni o gymharu â'r lefel sy'n ofynnol ar hyn o bryd. Er bod ymateb cymysg iawn o ran pa opsiwn roedd yr ymatebwyr yn ei ffafrio, roedd mwyafrif bach iawn (7%) yn ffafrio Opsiwn 2. Fodd bynnag, nodwyd hefyd fod rhai o'r ymatebwyr (pedwar ymateb (6% o'r rhai a ymatebodd)) a ddewisodd 'arall' wedi gwneud sylwadau'n dweud bod Opsiwn 1 yn opsiwn a ffefrir ond eu bod yn anghytuno â rhai o'r manylebau penodol (e.e. llacio'r gwerth U ar gyfer waliau allanol) yn yr opsiwn hwn. Felly, ar y cyfan, roedd yr ymatebion wedi'u rhannu i raddau helaeth rhwng y ddau opsiwn yn yr ymgynghoriad.

2.6 Mewn ymateb i gwestiwn 2, roedd 52% o'r ymatebwyr yn anghytuno â'n pryderon a godwyd ynglŷn â systemau MVHR ar yr adeg hon, ac roedd 31% yn cytuno a 17% yn ansicr. Nodwyd bod yr ymatebion yn cyfeirio at safonau Passivhaus yn aml, lle y caiff systemau MVHR eu gosod drwy gynlluniau ardystiedig fel Passivhaus ac AECB. Fodd bynnag, codwyd pryderon hefyd y gallai'r lefel uwch o gymhlethdod sy'n gysylltiedig â systemau MVHR arafu'r gwaith o adeiladu cartrefi, ac na fyddai'r safonau aerglosrwydd is yn gyraeddadwy heb fod angen uwchsgilio. Mae'r sylwadau hyn yn destun pryder arbennig o ystyried yr angen am gyflenwad o dai a'r ffaith bod y rheoliadau adeiladu'n gosod safonau gofynnol a ddylai hefyd fod yn realistig.

2.7 Hefyd, cyfeiriodd un ymateb at adroddiad Hyb Cartrefi'r Dyfodol, 'Ready for zero', a gyhoeddwyd yn 2023, a ddywedodd y byddai angen i adeiladwyr tai newid eu technegau a'u rheolaethau ansawdd yn sylweddol er mwyn lleihau hydreiddedd aer (colledion drwy ymdreiddiad) islaw 4.5m3/m²/hr yn ddibynadwy. Yn gyffredinol, bydd effeithlonrwydd MVHR yn gwella wrth i gyfraddau hydreiddedd aer ostwng, ac felly mae hyn hefyd yn destun pryder. Bydd tai a ardystiwyd drwy gynlluniau fel Passivhaus fel arfer yn cyflawni aerglosrwydd llawer is, a hynny'n aml yn is na 0.6 ach@50Pa ar gyfer tai sengl, sy'n cyfateb yn fras i hydreiddedd aer o 0.6 ($m^3/h \cdot m^2$ ar 50 Pa).

2.8 Bydd cynnwys technoleg MVHR yn y fanyleb dybiannol yn cyfyngu'n eithafol ar yr hyblygrwydd i gyrraedd y targed ynni ac, i bob pwrpas, yn arwain at gyfyngder technolegol (h.y. yr angen i osod system MVHR er mwyn cyrraedd y targedau ynni ar gyfer pob cartref newydd). Hefyd, gan y bydd angen uwchsgilio er mwyn cyrraedd y lefelau hydreiddedd aer mwy ffafriol, nid yw'n dechnoleg rydym yn cynnig ei chynnwys yn y fanyleb dybiannol ar gyfer y codiad hwn ar hyn o bryd. Fodd bynnag, rydym yn deall ac yn cydnabod safbwyntiau ymatebwyr ar y rôl bosibl y gall MVHR ei chyflawni, ac felly byddwn yn cadw'r fanyleb annedd ddewisol amgen sy'n cynnwys MVHR yn Nogfen Gymeradwy L1, y gall dylunwyr a datblygwyr sydd â hyder a/neu brofiad yn y maes hwn ddewis ei defnyddio.

2.9 O ystyried yr holl ymatebion, down i'r casgliad mai'r opsiwn a ffefrir, sef Opsiwn 1 (93%) yw'r cam nesaf priodol er mwyn codi safonau effeithlonrwydd ynni ar gyfer ein safon Rhan L 2025. O gymharu ag Opsiwn 2, credwn o hyd fod Opsiwn 1 yn cynnig ateb gwell sy'n taro cydbwysedd rhwng perfformiad da

a chostau cyfalaf, a'i bod yn dal yn safon ofynnol gyraeddadwy a fydd yn arwain at arbedion sylweddol iawn o ran ynni ac allyriadau carbon.

2.10 Mewn ymateb i'r awgrymiadau a wnaed, rydym wedi gwneud addasiadau bach i fanyleb Opsiwn 1 ar gyfer y fanyleb adeilad dybiannol derfynol, sef:

- Gwerth U Wal Allanol: O werth U arfaethedig o 0.15W/m2.K i werth U well o 0.13W/m2.K.
- O hyn ymlaen, bydd cynhyrchu ynni adnewyddadwy yn ofyniad o fewn atodlen 1 (Rhan L) o'r rheoliadau adeiladu (gweler yr ymateb i gwestiwn 12 isod). Felly, swm yr ynni adnewyddadwy a gynhyrchir yn yr anheddau tybiannol a'r anheddau gwirioneddol fydd yr isafswm a nodir yn Nogfen Gymeradwy L neu swm is os llwyddir i gytuno ar unrhyw esemptiadau gyda'r corff rheoli adeiladu. (Gweler yr ymateb i gwestiwn 12 isod am ragor o wybodaeth).
- Pwmp gwres o'r aer: Er y bydd y fanyleb annedd dybiannol yn dal i gynnwys pwmp gwres o'r aer at ddibenion cyfrifo'r prif dargedau ynni ac allyriadau carbon, caiff testun canllawiau manyleb annedd dybiannol Dogfen Gymeradwy L ei newid i gydnabod y bydd pob technoleg pwmp gwres arall, megis pympiau gwres hydronig, systemau aer i aer, pympiau gwres o'r ddaear a phympiau gwres o ddŵr hefyd yn cynnig arbedion effeithlonrwydd cyfatebol neu well yn gyffredinol.

**Cwestiwn 3: A ydych yn cytuno y dylid caniatáu i anheddau newydd ac adeiladau annomestig newydd gysylltu â rhwydweithiau gwresogi, os gall y rhwydweithiau hynny ddangos bod ganddynt system gynhyrchu carbon isel ddigonol i gyflenwi galw'r adeilad am wres a dŵr poeth ar y lefelau targed o ran $CO_2$ ar gyfer Safon Rhan L 2025?**

| **Cwestiwn 3: A ydych yn cytuno y dylid caniatáu i anheddau newydd ac adeiladau annomestig newydd gysylltu â rhwydweithiau gwresogi, os gall y rhwydweithiau hynny ddangos bod ganddynt system gynhyrchu carbon isel ddigonol i gyflenwi galw'r adeilad am wres a dŵr poeth ar y lefelau targed o ran $CO_2$ ar gyfer Safon Rhan L 2025?** | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Pawb a ymatebodd | Pensaer | Adeiladwr/Datblygwr | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Gweithiwr Proffesiynol ym maes Adeiladu | Dylunydd/Peiriannydd/Syrfëwr | Asesydd Ynni | Sector ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/cadwyn gyflenwi | Parti Arall â Diddordeb (rhowch fanylion) | Rheolwr Eiddo/Cymdeithas Tai/Landlord | Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu | Adeiladwr bach/canolig | Heb ei nodi | Adeiladwr tai mawr |
| **Cyfanswm** | **54** | **4** | **3** | **1** | **1** | **6** | **2** | **1** | **8** | **7** | **16** | **3** | **1** | **0** | **0** | **1** |
| a. Ydw | 69% | 75% | 33% | 0% | 100% | 50% | 50% | 100% | 88% | 57% | 69% | 100% | 100% | 0% | 0% | 100% |
| b. Nac ydw | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| c. Ddim yn siŵr | 31% | 25% | 67% | 100% | 0% | 50% | 50% | 0% | 13% | 43% | 31% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |

2.11 O'r 54 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, roedd mwyafrif (69%) yn cytuno â'r cynnig. Dywedodd 31% eu bod yn ansicr.

**Adborth a roddwyd gan y rhai a oedd yn cefnogi'r cynnig**

2.12 Rhoddodd yr ymatebwyr y rhesymau canlynol dros gefnogi'r cynnig.

- **Mae rhwydweithiau gwresogi'n bwysig ar gyfer ein llwybr datgarboneiddio:** Credwyd y byddai rhwydweithiau gwresogi'n gallu cyflawni rôl strategol bwysig er mwyn galluogi llwybr tuag at sero net a biliau is ar gyfer aelwydydd. Mae hyn yn bwysig ar gyfer tai ar raddfa fwy, blociau o fflatiau a lleoliadau trefol lle y bydd atebion gwresogi unigol yn llai priodol o bosibl.
- **Dull costeffeithiol profedig:** Ceir llawer o enghreifftiau yn y DU lle y gall rhwydweithiau gwresogi wedi'u cyfuno ag adeiladwaith sydd wedi'i ddylunio'n dda gynnig cyflenwad carbon isel, fforddiadwy ac effeithlon o wres.

2.13 Fodd bynnag, cododd yr ymatebwyr hyn rai pryderon ynglŷn â'r cynnig.

- **Ni ddylai rhwydweithiau gwresogi fod yn orfodol:** Codwyd pryderon ynglŷn â gwneud rhwydweithiau gwresogi'n orfodol am eu bod yn cyfyngu ar ddewis datblygwyr a defnyddwyr a chyfleoedd i reoli'r galw'n glyfar. Credir nad yw rhwydweithiau gwresogi'n addas ar gyfer pob lleoliad neu fath o ddatblygiad.
- **Yr angen am waith rheoli a chynnal a chadw:** Mae angen gwaith rheoli a chynnal a chadw da er mwyn sicrhau gwasanaeth dibynadwy a chosteffeithiol i'r defnyddiwr terfynol.

**Rhesymau dros ddewis “Ddim yn siŵr”**

- **Colledion dosbarthu sylweddol:** Gall colledion ar rwydweithiau fod yn sylweddol os na chânt eu dylunio'n briodol. Dylai gwaith modelu ynni gynnwys yr holl golledion dosbarthu disgwyliedig, gan gynnwys ynni trosglwyddo a phwmpio.
- **Galw isel am wresogi gofod:** Pan gaiff adeiladau newydd eu dylunio yn unol â safon Passivhaus, bydd y galw am wresogi gofod mor isel fel na fyddai'n gosteffeithiol cysylltu â rhwydwaith gwresogi cymunedol.

## Cwestiwn 4: A ydych yn cytuno y dylai rhwydweithiau gwresogi ardal newydd a gaiff eu hadeiladu (h.y. y rhai a gaiff eu hadeiladu ar ôl i Safon Rhan L 2025 ddod i rym) hefyd allu cysylltu ag adeiladau newydd gan ddefnyddio'r fethodoleg llawesu?

| **Cwestiwn 4: A ydych yn cytuno y dylai rhwydweithiau gwresogi ardal newydd a gaiff eu hadeiladu (h.y. y rhai a gaiff eu hadeiladu ar ôl i Safon Rhan L 2025 ddod i rym) hefyd allu cysylltu ag adeiladau newydd gan ddefnyddio'r fethodoleg llawesu?** | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Pawb a ymatebodd | Pensaer | Adeiladwr/Datblygwr | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Gweithiwr Proffesiynol ym maes Adeiladu | Dylunydd/Peiriannydd/Syrfëwr | Asesydd Ynni | Sector ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/cadwyn gyflenwi | Parti Arall â Diddordeb (rhowch fanylion) | Rheolwr Eiddo/Cymdeithas Tai/Landlord | Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu | Adeiladwr bach/canolig | Heb ei nodi | Adeiladwr tai mawr |
| **Cyfanswm** | **52** | **3** | **3** | **1** | **2** | **6** | **2** | **1** | **8** | **7** | **14** | **3** | **1** | **0** | **0** | **1** |
| a. Ydw | 40% | 33% | 0% | 0% | 50% | 0% | 50% | 0% | 63% | 29% | 50% | 67% | 100% | 0% | 0% | 100% |
| b. Nac ydw | 4% | 0% | 33% | 0% | 50% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| c. Ddim yn siŵr | 56% | 67% | 67% | 100% | 0% | 100% | 50% | 100% | 38% | 71% | 50% | 33% | 0% | 0% | 0% | 0% |

2.14 O'r 52 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, roedd 40% yn cytuno â'r cynnig a dim ond 4% a oedd yn anghytuno. Roedd mwyafrif o'r ymatebwyr (56%) yn ansicr ynglŷn â'r cynnig.

### Adborth a roddwyd gan y rhai a oedd yn cefnogi'r cynnig

2.15 Roedd y rhesymau dros gefnogi'r cynnig yn cyd-fynd â'r rhai a nodwyd yn y ddogfen ymgynghori. Yn ychwanegol at hynny, gwnaed y pwynt canlynol.

- **Datgarboneiddio'r rhwydwaith ehangach:** Er bod llawer yn cefnogi cynigion llawesu am eu bod o blaid datblygu seilwaith carbon isel, dywedodd y rhan fwyaf y byddai'n rhaid datgarboneiddio'r rhwydwaith gwresogi ehangach i ategu'r llwybr hwn.

### Rhesymau dros wrthwynebu'r cynnig

- **Cloeon mewn seilwaith nwy:** Pryderon ynglŷn â chysylltu â rhwydweithiau presennol sydd â boeleri nwy/peiriannau gwres a phŵer cyfunedig wedi'u ‘cloi i mewn’ am ddegawdau o bosibl. Dim ond fel ffordd o ddatgarboneiddio'r rhwydweithiau presennol y dylid caniatáu cysylltu. Mae hyn yn cyd-fynd â'r sylw uchod.
- **‘Ateb dros dro’:** Ystyriwyd ateb dros dro ar gyfer llwybrau sefydledig a ffefrir er mwyn sbarduno newid mewn rhwydweithiau presennol.
- **Dibyniaeth ar gyfrifiad galw brig:** Gallai'r ddibyniaeth ar ddefnyddio cyfrifiad galw brig arwain at gyfarpar mwy, costau cyfalaf uwch a chynnydd mewn costau rhedeg.

**Rhesymau dros ddewis “Ddim yn siŵr”**

- **Pryderon ynglŷn â rhwydweithiau gwresogi:** Codwyd pwyntiau tebyg i'r rhai a godwyd gan yr ymatebwyr a ddewisodd “Ddim yn siŵr” ar gyfer Cwestiwn 3.

## Cwestiwn 5: A ydych yn cytuno â'r canllawiau arfaethedig ar lawesu a amlinellwyd ar gyfer Rhwydweithiau Gwresogi sydd wedi'u cynnwys yn Nogfen Gymeradwy L, Cyfrol 1: Anheddau a Dogfen Gymeradwy L, Cyfrol 2: Adeiladau heblaw anheddau?

| **Cwestiwn 5: A ydych yn cytuno â'r canllawiau arfaethedig ar lawesu a amlinellwyd ar gyfer Rhwydweithiau Gwresogi sydd wedi'u cynnwys yn Nogfen Gymeradwy L, Cyfrol 1: Anheddau a Dogfen Gymeradwy L, Cyfrol 2: Adeiladau heblaw anheddau?** | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Pawb a ymatebodd | Pensaer | Adeiladwr/Datblygwr | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Gweithiwr Proffesiynol ym maes Adeiladu | Dylunydd/Peiriannydd/Syrfëwr | Asesydd Ynni | Sector ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/cadwyn gyflenwi | Parti Arall â Diddordeb (rhowch fanylion) | Rheolwr Eiddo/Cymdeithas Tai/Landlord | Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu | Adeiladwr bach/canolig | Heb ei nodi | Adeiladwr tai mawr |
| **Cyfanswm** | **49** | **3** | **3** | **1** | **2** | **5** | **2** | **0** | **8** | **7** | **13** | **3** | **1** | **0** | **0** | **1** |
| a. Ydw | 35% | 33% | 0% | 0% | 50% | 0% | 50% | 0% | 63% | 14% | 31% | 67% | 100% | 0% | 0% | 100% |
| b. Nac ydw | 2% | 0% | 0% | 0% | 50% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| c. Ddim yn siŵr | 63% | 67% | 100% | 100% | 0% | 100% | 50% | 0% | 38% | 86% | 69% | 33% | 0% | 0% | 0% | 0% |

2.16 O'r 49 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, roedd 35% yn cytuno â'r cynnig a dim ond 2% a oedd yn anghytuno. Roedd mwyafrif o'r ymatebwyr (63%) yn ansicr ynglŷn â'r cynnig.

**Adborth a roddwyd gan y rhai a oedd yn cefnogi'r cynnig**

2.17 Roedd y rhesymau dros gefnogi'r cynnig yn cyd-fynd â'r rhai a nodwyd yn y ddogfen ymgynghori. Yn ychwanegol at hynny, codwyd y pryderon canlynol.

- **Cymhlethdod:** Roedd rhai o'r farn bod y cynigion yn gymhleth ac roeddent yn pryderu ynglŷn â'r diffyg arweiniad mewn cofnodion ar gyfer SAP 10.3, HEM a PCDB ar sut y caiff hyn ei gyflawni.
- **Gallai arwain at oedi mewn gwaith adeiladu:** Gall adeiladu rhwydweithiau gwresogi arwain at oedi o ganlyniad i adeiladu seilwaith a phwyntiau cysylltu yn araf. Mae'n bosibl y gallai'r angen am gydgysylltu rhwng gwahanol bartïon, fel darparwyr ynni ac awdurdodau lleol, arwain at oedi pellach ar gamau cynnar prosiectau.

**Rhesymau dros ddewis "Ddim yn siŵr"**

- **Heb eu hargyhoeddi ynglŷn â'r broses lawesu:** Pryderon cyffredinol ei bod yn bosibl na fydd y broses lawesu'n arwain at y cynnydd a ragwelir yn y defnydd o offer gwresogi carbon isel.

### Cwestiwn 6: A oes trefniadau amgen ar gyfer rhwydweithiau gwresogi o dan Safon RHAN L 2025 yr ydych o'r farn y byddent yn cefnogi'r camau i ehangu a datgarboneiddio rhwydweithiau gwresogi yn well?

2.18 Cwestiwn testun rhydd oedd hwn. Mynegwyd y safbwyntiau canlynol.

- **Pryderon ynglŷn â rhwydweithiau gwresogi:** Roedd y rhain yn cynnwys materion a godwyd mewn ymateb i gwestiynau blaenorol: colledion dosbarthu uchel, galw isel am wresogi gofod mewn datblygiadau Passivhaus yn lleihau hyfywedd, dileu dewis i ddefnyddwyr ac atal y defnyddiwr terfynol rhag defnyddio ynni'n glyfar.
- **Annog rhwydweithiau gwresogi lleol:** Dylid hyrwyddo rhwydweithiau gwresogi annibynnol oddi ar y grid mewn ardaloedd â chyfyngiadau grid.
- **Systemau amgen:** Dylai atebion hybrid, dolen amgylchynol (80% o ffynhonnell ynni adnewyddadwy) a rhwydweithiau hydrogen gael eu hystyried.
- **Dull Llywodraeth yr Alban:** Dylid ystyried allyriadau carbon "ar adeg y defnydd terfynol", a cheisio deddfu ar gyfer allyriadau oddi wrth y cwsmer (ymhellach i ffwrdd o gwrtil yr annedd) drwy ddulliau polisi ar wahân eraill.

### Cwestiwn 7: A ydych yn cytuno y dylai adeiladau preswyl newydd a wasanaethir gan systemau gwresogi cymunedol gael eu cymharu â safon dybiannol arfaethedig Rhan L 2025 â phwmp gwres ffynhonnell aer unigol?

| Cwestiwn 7: A ydych yn cytuno y dylai adeiladau preswyl newydd a wasanaethir gan systemau gwresogi cymunedol gael eu cymharu â safon dybiannol arfaethedig Rhan L 2025 â phwmp gwres ffynhonnell aer unigol? | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Pawb a ymatebodd | Pensaer | Adeiladwr/Datblygwr | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Gweithiwr Proffesiynol ym maes Adeiladu | Dylunydd/Peiriannydd/Syrfëwr | Asesydd Ynni | Sector ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/cadwyn gyflenwi | Parti Arall â Diddordeb (rhowch fanylion) | Rheolwr Eiddo/Cymdeithas Tai/Landlord | Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu | Adeiladwr bach/canolig | Heb ei nodi | Adeiladwr tai mawr |
| **Cyfanswm** | **47** | **3** | **3** | **1** | **1** | **4** | **2** | **1** | **8** | **6** | **14** | **3** | **0** | **0** | **0** | **1** |
| a. Ydw | 43% | 33% | 67% | 0% | 100% | 50% | 50% | 0% | 63% | 33% | 29% | 67% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| b. Nac ydw | 6% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 7% | 33% | 0% | 0% | 0% | 100% |
| c. Ddim yn siŵr | 51% | 67% | 33% | 100% | 0% | 50% | 50% | 100% | 38% | 67% | 64% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |

2.19 O'r 49 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, roedd 43% yn cytuno â'r cynnig a dim ond 6% a oedd yn anghytuno. Roedd mwyafrif o'r ymatebwyr (51%) yn ansicr ynglŷn â'r cynnig.

**Adborth a roddwyd gan y rhai a oedd yn cefnogi'r cynnig**

2.20 Rhesymau dros gefnogi'r cynnig.

- **Meincnod rhesymol:** Pympiau gwres unigol fydd yr ateb mwyaf cyffredin ledled Cymru ar gyfer cydymffurfio. Felly, mae hyn yn creu llinell sylfaen syml, resymol a chymaradwy.

2.21 Fodd bynnag, cododd yr ymatebwyr hyn rai pryderon ynglŷn â'r cynnig.

- **Model Ynni Cartrefi (HEM):** Pryderon ynglŷn â sut y byddai systemau gwresogi cymunedol yn cael eu trin o fewn HEM.
- **Cynnwys yr holl golledion:** Rhaid ystyried yr holl golledion yn y system, gan gynnwys ynni pwmpio, dosbarthu, a gorgynhesu ardaloedd cymunedol.

**Rhesymau dros wrthwynebu'r cynnig**

- **Cymharu â'r un dechnoleg wresogi:** Ni ddylid cymharu adeiladau a wasanaethir gan rwydwaith gwresogi cymunedol ag adeiladau sydd â phwmp gwres unigol, yn enwedig gan nad yw dull HEM o ymdrin â rhwydweithiau gwresogi cymunedol wedi'i bennu'n derfynol eto. Byddai cymharu ag annedd a wasanaethir gan yr un math o ateb gwresogi yn fwy priodol.

**Rhesymau dros ddewis "Ddim yn siŵr"**

- **Nid yw systemau annibynnol mor effeithlon:** Nid yw systemau unigol mor effeithlon â systemau cymunedol ac felly nid yw'r gymhariaeth yn un deg.
- **Nid yw pympiau gwres o'r aer yn gymharydd addas ar gyfer blociau cymunedol:** Nid yw pwmp gwres o'r aer unigol tybiannol fesul annedd yn ateb addas nac ymarferol ar gyfer fflatiau.

**Ymateb y Llywodraeth i gwestiynau 3, 4, 5, 6 a 7**

2.22 Fel y disgrifiwyd yn yr ymgynghoriad, rydym yn disgwyl y bydd gan rwydweithiau gwresogi rôl gref i'w chwarae mewn rhannau o Gymru o ran darparu gwres carbon isel i adeiladau newydd yn y dyfodol.

2.23 Roedd ein hymgynghoriad yn cynnig ffyrdd newydd o asesu anheddau ac adeiladau annomestig newydd sy'n gysylltiedig â rhwydweithiau gwresogi er mwyn annog rhwydweithiau gwresogi, gan ddefnyddio dull gweithredu sy'n seiliedig ar ganlyniadau sy'n ceisio sicrhau eu bod yn cael eu cyflenwi gan wres sy'n ddigon isel o ran carbon.

2.24 O'r ymatebwyr a atebodd “Ydw” neu “Nac ydw” i'r cwestiynau a oedd yn ymwneud â rhwydweithiau gwresogi ardal a rhwydweithiau gwresogi cymunedol, roedd y mwyafrif helaeth yn cytuno â'n cynigion, ac felly rydym yn cynnig cyflwyno'r newidiadau.

## Cwestiwn 8: A ddylai cyfrifiad colli gwres yr annedd dybiannol fod yn seiliedig ar un lleoliad tywydd (Caerdydd)?

| Cwestiwn 8: A ddylai cyfrifiad colli gwres yr annedd dybiannol fod yn seiliedig ar un lleoliad tywydd (Caerdydd)? | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Pawb a ymatebodd | Pensaer | Adeiladwr/Datblygwr | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Gweithiwr Proffesiynol ym maes Adeiladu | Dylunydd/Peiriannydd/Syrfëwr | Asesydd Ynni | Sector ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/cadwyn gyflenwi | Parti Arall â Diddordeb (rhowch fanylion) | Rheolwr Eiddo/Cymdeithas Tai/Landlord | Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu | Adeiladwr bach/canolig | Heb ei nodi | Adeiladwr tai mawr |
| **Cyfanswm** | **68** | **9** | **3** | **1** | **3** | **7** | **2** | **1** | **8** | **10** | **19** | **3** | **0** | **1** | **0** | **1** |
| a. Dylai | 24% | 11% | 33% | 0% | 0% | 0% | 0% | 100% | 50% | 10% | 26% | 67% | 0% | 0% | 0% | 100% |
| b. Na ddylai | 65% | 78% | 67% | 100% | 100% | 100% | 100% | 0% | 50% | 60% | 53% | 33% | 0% | 100% | 0% | 0% |
| c. Ddim yn siŵr | 12% | 11% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 30% | 21% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |

2.25 O'r 68 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, roedd y mwyafrif (65%) yn anghytuno â'r cynnig. O gymharu â hynny, roedd 24% yn cytuno â'r cynnig ac roedd 12% yn ansicr.

### Rhesymau dros gefnogi'r defnydd o un ffeil dywydd

- **Galluogi datblygiadau mawr**: Bydd un ffeil dywydd yn symleiddio prosesau dylunio ac yn golygu y bydd modd i ddatblygiadau o fathau tai safonol gael eu hadeiladu ledled Cymru.
- **Colli cyn lleied â phosibl o gywirdeb:** Yn seiliedig ar y gwaith ymchwil a gyflwynwyd yn y ddogfen ymgynghori, nid ystyrir bod amrywiadau yn y tywydd ledled Cymru yn cael effaith sylweddol ar golledion gwres a fodelir. Felly, ni fyddai cyfiawnhad dros gyflwyno mwy o gymhlethdod drwy ddefnyddio mwy nag un ffeil dywydd.

### Rhesymau dros wrthwynebu'r defnydd o un ffeil dywydd

- **Amrywiaeth eang o amodau tywydd**: Dadleuodd yr ymatebwyr fod gan Gymru amrywiaeth eang o amodau hinsoddol. Nid ydynt yn credu y gall un ffeil gyfartalog gynnig digon o gywirdeb wrth fodelu colledion gwres

anheddau.

- **Gallai arwain at ddyluniadau annigonol**: Gallai un ffeil dywydd arwain yn annheg at ddyluniadau annigonol mewn ardaloedd oerach a llai cysgodol yng Nghymru o gymharu ag ardaloedd mwynach.
- **Gallai arwain at bympiau gwres o'r maint anghywir**: Mae data tywydd cywir yn hanfodol ar gyfer pennu maint systemau fel pympiau gwres. Er enghraifft, mae'r Cynllun Tystysgrifau Microgynhyrchu (MCS) yn ei gwneud yn ofynnol defnyddio tywydd lleol yn hytrach nag un ffeil dywydd safonol. Ni fydd modelu systemau megis pympiau gwres gan ddefnyddio ffeil dywydd safonol yn cynrychioli'r ffordd y cânt eu defnyddio'n ymarferol, a gallai hynny gael effaith annheg ar y perfformiad a ragwelir.
- **Anghyson â methodoleg MCS**: Mae asesiadau maint pympiau gwres a gorgynhesu MCS yn dibynnu ar ddata tywydd lleol. Byddai safoni'r dulliau hyn yn sicrhau cydymffurfiaeth gyson a thryloyw ledled Cymru.

**Ymateb y Llywodraeth i gwestiwn 8**

2.26 Roedd y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr yn anghytuno â'n cynnig o gael un orsaf dywydd (Caerdydd) o fewn HEM, ac roedd llawer o'r atebion yn teimlo'n gyffredinol y dylid defnyddio data tywydd mwy lleol.

2.27 Roedd ein hymgynghoriad yn egluro pam roeddem yn cynnig y defnydd o un ffeil dywydd ac yn esbonio bod gwaith modelu wedi cael ei wneud yn flaenorol gan ddefnyddio HEM i asesu'r sensitifrwydd i'r lleoliad tywydd, a defnyddiwyd Caerdydd, Capel Curig, Aberdaron ac Aberdaugleddau yn y dadansoddiad. Dangosodd y canlyniadau nad oes disgwyl i'r gwahaniaethau rhwng y tywydd yn y lleoliadau hyn olygu y byddai angen diwygio gwybodaeth dechnegol a chost y pwmp gwres. Nododd llawer o'r ymatebion fod y tywydd yng Nghymru yn gallu newid yn sylweddol o un ardal i'r llall, a chytunir â hynny, ond ni roddwyd llawer o dystiolaeth i ddangos p'un a yw'r newidiadau hyn yn ddigon i sbarduno gwybodaeth dechnegol a chost y pwmp gwres ai peidio.

2.28 Fodd bynnag, wrth ystyried yr ymatebion, byddwn yn ailystyried a fydd angen lleoliadau tywydd ychwanegol cyn i HEM gael ei roi ar waith (gweler yr ymateb i gwestiynau 15 ac 16).

**Cwestiwn 9: A ydych yn cytuno â'r canllawiau diwygiedig yn Nogfen Gymeradwy L, Cyfrol 1: Anheddau sy'n destun ymgynghoriad i beidio â chynnwys y dull cydymffurfio cyfartalog ar gyfer tai teras mwyach?**

| Cwestiwn 9: A ydych yn cytuno â'r canllawiau diwygiedig yn Nogfen Gymeradwy L, Cyfrol 1: Anheddau sy'n destun ymgynghoriad i beidio â chynnwys y dull cydymffurfio cyfartalog ar gyfer tai teras mwyach? | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Pawb a ymatebodd | Pensaer | Adeiladwr/Datblygwr | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Gweithiwr Proffesiynol ym maes Adeiladu | Dylunydd/Peiriannydd/Syrfëwr | Asesydd Ynni | Sector ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/cadwyn gyflenwi | Parti Arall â Diddordeb (rhowch fanylion) | Rheolwr Eiddo/Cymdeithas Tai/Landlord | Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu | Adeiladwr bach/canolig | Heb ei nodi | Adeiladwr tai mawr |
| **Cyfanswm** | **49** | **3** | **3** | **1** | **1** | **4** | **2** | **1** | **8** | **7** | **14** | **3** | **1** | **0** | **0** | **1** |
| a. Ydw | 59% | 33% | 0% | 0% | 100% | 75% | 0% | 100% | 88% | 43% | 64% | 100% | 100% | 0% | 0% | 0% |
| b. Nac ydw | 8% | 33% | 33% | 0% | 0% | 0% | 50% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 100% |
| c. Ddim yn siŵr | 33% | 33% | 67% | 100% | 0% | 25% | 50% | 0% | 13% | 57% | 36% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |

2.29 O'r 49 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, roedd y mwyafrif (59%) yn cytuno â'r cynnig. O gymharu â hynny, roedd 8% yn anghytuno â'r cynnig ac roedd 33% yn ansicr.

**Rhesymau dros gefnogi'r canllawiau diwygiedig**

2.30 Roedd y rhesymau dros gefnogi'r cynnig yn cyd-fynd â'r rhai a nodwyd yn y ddogfen ymgynghori.

**Rhesymau dros wrthwynebu'r canllawiau diwygiedig**

- **Mwy o faich cydymffurfio:** Byddai dileu cydymffurfiaeth ar gyfer blociau'n cyfyngu ar yr opsiynau cydymffurfio sydd ar gael i ddatblygwyr. Credir bod y gydymffurfiaeth gyfartalog ar gyfer blociau'n ddull defnyddiol o sicrhau cydymffurfiaeth ar gyfer datblygiadau preswyl ar raddfa fawr.

**Rhesymau dros ddewis "Ddim yn siŵr"**

- **Cadw'r opsiwn gyda chafeatau**: Gan gydnabod y gallai'r newid hwn arwain at ymdrech a chostau ychwanegol i ddatblygwyr, awgryma rhai y dylid cadw'r dull presennol pan fydd eiddo yn union yr un fath â'i gilydd (o ran geometreg, manylebau, a chyfeiriadaeth). Dylid cyflwyno eithriadau ar gyfer yr eiddo hynny sy'n wahanol i rai eraill yn y bloc teras, megis anheddau pen teras.

## Cwestiwn 10: A ydych yn cytuno â'r canllawiau diwygiedig yn Nogfen Gymeradwy L, Cyfrol 1: Anheddau sy'n nodi na ddylech ddarparu simnai na ffliw os na chaiff cyfarpar gwresogi eilaidd ei osod?

| Cwestiwn 10: A ydych yn cytuno â'r canllawiau diwygiedig yn Nogfen Gymeradwy L, Cyfrol 1: Anheddau sy'n nodi na ddylech ddarparu simnai na ffliw os na chaiff cyfarpar gwresogi eilaidd ei osod? | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Pawb a ymatebodd | Pensaer | Adeiladwr/Datblygwr | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Gweithiwr Proffesiynol ym maes Adeiladu | Dylunydd/Peiriannydd/Syrfëwr | Asesydd Ynni | Sector ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/cadwyn gyflenwi | Parti Arall â Diddordeb (rhowch fanylion) | Rheolwr Eiddo/Cymdeithas Tai/Landlord | Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu | Adeiladwr bach/canolig | Heb ei nodi | Adeiladwr tai mawr |
| **Cyfanswm** | **62** | **8** | **3** | **1** | **3** | **7** | **2** | **1** | **8** | **7** | **16** | **3** | **1** | **1** | **0** | **1** |
| a. Ydw | 82% | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% | 63% | 57% | 69% | 100% | 100% | 100% | 0% | 100% |
| b. Nac ydw | 3% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 13% | 0% | 6% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| c. Ddim yn siŵr | 15% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 25% | 43% | 25% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |

2.31 O'r 62 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, roedd y mwyafrif (82%) yn cytuno â'r cynnig. O gymharu â hynny, roedd 3% yn anghytuno â'r cynnig ac roedd 15% yn ansicr.

### Rhesymau dros gefnogi'r canllawiau diwygiedig

- **Mae'n lleihau colledion gwres adeiladwaith**: Ni ddylid caniatáu tyllau diangen yn yr adeiladwaith. Gallant gynyddu colledion gwres yn sylweddol a thanseilio perfformiad systemau awyru.
- **Mae'n cynyddu arwynebedd y to ar gyfer paneli solar ffotofoltäig**: Bydd cael gwared ar simneiau a ffliwiau'n rhyddhau arwynebedd gwerthfawr ar y to ar gyfer gosod paneli solar ffotofoltäig.
- **Mae'n gwella ansawdd aer**: Ceir problemau â deunydd gronynnol niweidiol a gynhyrchir gan gyfarpar llosgi coed. Mae'r ymatebwyr yn annog mesurau sy'n annog pobl i beidio â gosod cyfarpar o'r fath.

### Rhesymau dros wrthwynebu'r canllawiau diwygiedig

- **Mae'n lleihau dewis defnyddwyr**: Dylid caniatáu i ddefnyddwyr ddewis p'un a hoffent gael yr opsiwn i osod systemau gwresogi eilaidd y mae angen simneiau neu ffliwiau ar eu cyfer.
- **Gwydnwch o ran tanwydd**: Os bydd prinder trydan, dylid caniatáu i'r meddianwyr gael ffynonellau gwres amgen.

**Sylwadau eraill**

- **Nid oes angen simneiau a ffliwiau**: Tynnodd un ymatebydd sylw at y ffaith y bydd diwygiad Rhan L yn ei gwneud yn ofynnol i anheddau newydd ddefnyddio systemau gwresogi carbon isel. Awgryma'r ymatebydd y bydd hyn yn golygu na chaiff cyfarpar llosgi coed ei osod, ac felly na fydd angen simneiau a ffliwiau.

**Ymateb y Llywodraeth i gwestiynau 9 a 10**

2.32 Roedd y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr a atebodd "Ydw" neu "Nac ydw" i'r ddau gwestiwn hyn yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig, ac felly rydym yn cynnig cyflwyno'r newidiadau.

**Cwestiwn 11: A ydych yn cytuno â'r dull arfaethedig o bennu gwerthoedd U ffenestri a drysau mewn anheddau newydd?**

| Cwestiwn 11: A ydych yn cytuno â'r dull arfaethedig o bennu gwerthoedd U ffenestri a drysau mewn anheddau newydd? | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Pawb a ymatebodd | Pensaer | Adeiladwr/Datblygwr | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Gweithiwr Proffesiynol ym maes Adeiladu | Dylunydd/Peiriannydd/Syrfëwr | Asesydd Ynni | Sector ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/cadwyn gyflenwi | Parti Arall â Diddordeb (rhowch fanylion) | Rheolwr Eiddo/Cymdeithas Tai/Landlord | Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu | Adeiladwr bach/canolig | Heb ei nodi | Adeiladwr tai mawr |
| **Cyfanswm** | **69** | **9** | **3** | **1** | **3** | **7** | **2** | **0** | **8** | **11** | **19** | **3** | **1** | **1** | **0** | **1** |
| a. Ydw | 78% | 100% | 67% | 100% | 100% | 100% | 50% | 0% | 100% | 64% | 68% | 33% | 100% | 100% | 0% | 0% |
| b. Nac ydw | 10% | 0% | 33% | 0% | 0% | 0% | 50% | 0% | 0% | 18% | 11% | 0% | 0% | 0% | 0% | 100% |
| c. Ddim yn siŵr | 12% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 18% | 21% | 67% | 0% | 0% | 0% | 0% |

2.33 O'r 69 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, roedd y mwyafrif (78%) yn cytuno â'r cynnig. O gymharu â hynny, roedd 10% yn anghytuno â'r cynnig ac roedd 12% yn ansicr.

**Rhesymau dros gefnogi'r cynnig**

- **Mae'n gwella cywirdeb**: Fel arfer, ffenestri a drysau yw elfennau gwannaf amlen adeilad. Felly, mae gwerthoedd U cywir yn bwysig ar gyfer yr elfennau hyn. Bydd gwerthoedd U wedi'u cyfrifo ar gyfer pob ffenestr yn seiliedig ar ei maint a'i ffurfweddiad gwirioneddol yn sicrhau mwy o gywirdeb na defnyddio gwerthoedd U gwneuthurwyr sy'n seiliedig ar feintiau safonol. Hefyd, dywed rhai eu bod wedi gweld amrywiadau sylweddol yn y galw am wres a ragwelir wrth ddefnyddio gwerthoedd U safonol gwneuthurwyr o gymharu â gwerthoedd U wedi'u cyfrifo.
- **Mae'n cynnig cyfleoedd dylunio**: Mae gwerthoedd U wedi'u cyfrifo yn

cynnig cyfle i optimeiddio dyluniadau er mwyn gwella'r galw am ynni.

**Rhesymau dros wrthwynebu'r cynnig**

- **Capasiti cyfyngedig ar gyfer profion blwch:** Nid ystyrir bod profion blwch yn ateb ymarferol nac ariannol hyfyw i wneuthurwyr, gan fod cyfleusterau'n brin yn y DU a'r UE.
- **Pryderon ynglŷn â chyfrifo gwerthoedd U**: Problemau posibl wrth geisio cynnwys nodweddion cymhleth yn gywir (yr enghreifftiau o nodweddion y soniwyd amdanynt oedd ffenestri bae a ffenestri lle mae'r cil allanol yn llai na ffrâm y ffenestr). Bydd angen datblygu a dilysu meddalwedd arbennig i wneud y gwaith cyfrifo cymhleth sy'n deillio o hynny.
- **Baich gwirio**: Codwyd pryderon ynglŷn â chamau ymarferol i orfodi data gwirio ar gyfer pob uned ffenestr.
- **Heb eu hargyhoeddi ynglŷn â gwerth ychwanegol**: Amheuon ynglŷn â'r effaith ar gywirdeb modelu. Dywedodd rhai eu bod wedi cynnal profion ac wedi gweld effaith fach iawn ar y galw am wres a fodelwyd.
- **Cyfyngu ar y defnydd o ffenestri bach**: Gallai meintiau ffenestri llai, gan ddynodi cymarebau gwydr a fframiau isel, olygu bod angen manylebau â pherfformiad llawer uwch. Bydd hyn, yn ei dro, yn codi pryderon ynglŷn ag argaeledd cynhyrchion ym marchnad y DU.

**Materion a godwyd gan y rhai a oedd yn cefnogi ac yn gwrthwynebu'r cynnig**

2.34 Codwyd y pryderon ychwanegol canlynol gan y rhai a oedd o blaid ac yn erbyn y cynnig.

- **Ansicrwydd ynglŷn â'r fethodoleg arfaethedig**: Cafwyd ceisiadau am eglurhad ynghylch y dull arfaethedig o gyfrifo gwerthoedd U ffenestri cyfan. Gallai dull gor-syml neu anghyson arwain at amcangyfrif rhy isel o'r gwres a gollir. Cyfeiriodd yr ymatebwyr at yr opsiynau canlynol ar gyfer methodoleg:
  - Yr awgrym mwyaf cyffredin oedd dilyn dull Passivhaus o gyfrifo gwerthoedd U ffenestri a drysau. Argymhellir y dylai'r dull gyd-fynd â BS EN 14351-1 neu EN ISO 10077-1/-2 a chynrychioli perfformiad y ffenestr fel y caiff ei gosod.
  - Cyfeiriodd rhai at broses Acquic yr UE, sy'n cynnig amrywiaeth o ddulliau o gyfrifo gwerthoedd U.
- **Heriau Asesu:** Codwyd pryderon ynglŷn â'r gofynion casglu data ychwanegol i aseswyr. Gallai hyn arwain at gostau uwch i ddefnyddwyr, yn ogystal â pheri risg o anghysondebau rhwng gwahanol asesiadau.

**Ymateb y Llywodraeth i gwestiwn 11**

2.35 Roedd y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr a atebodd “Ydw” neu “Nac ydw” i'r cwestiwn hwn yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig, ac felly rydym yn cynnig cyflwyno'r newidiadau ar gyfer anheddau newydd.

2.36 Fodd bynnag, gan nad yw HEM hyd yn hyn yn fethodoleg gymeradwy ar gyfer dangos cydymffurfiaeth a Rhan L, a'r angen i fethodolegau SAP a HEM redeg ar y cyd am gyfnod (gweler ymateb i gwestiwn 15/16), caiff y canllawiau arfaethedig eu haddasu i ystyried SAP a HEM, h.y. bydd y dull presennol a'r dull arfaethedig o gyfrifo gwerthoedd U ffenestri a drysau yn dderbyniol lle y defnyddir methodoleg SAP, ac rydym yn cynnig diwygio'r canllawiau yn unol â'r cynnig hwn pan gaiff methodoleg HEM ei chyflwyno yn nes ymlaen fel methodoleg gyfrifo genedlaethol.

**Cwestiwn 12: A ydych o'r farn y dylai gofyniad Rhan L ar gyfer ynni adnewyddadwy (gyda chanllawiau yn Nogfen Gymeradwy L) gael ei roi ar waith yn hytrach na'i gynnwys ym manyleb yr annedd dybiannol ar gyfer anheddau newydd?**

| Cwestiwn 12: A ydych o'r farn y dylai gofyniad Rhan L ar gyfer ynni adnewyddadwy (gyda chanllawiau yn Nogfen Gymeradwy L) gael ei roi ar waith yn hytrach na'i gynnwys ym manyleb yr annedd dybiannol ar gyfer anheddau newydd? | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Pawb a ymatebodd | Pensaer | Adeiladwr/Datblygwr | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Gweithiwr Proffesiynol ym maes Adeiladu | Dylunydd/Peiriannydd/Syrfëwr | Asesydd Ynni | Sector ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/cadwyn gyflenwi | Parti Arall â Diddordeb (rhowch fanylion) | Rheolwr Eiddo/Cymdeithas Tai/Landlord | Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu | Adeiladwr bach/canolig | Heb ei nodi | Adeiladwr tai mawr |
| **Cyfanswm** | **66** | **9** | **3** | **1** | **3** | **7** | **2** | **1** | **8** | **9** | **17** | **3** | **1** | **1** | **0** | **1** |
| a. Ydw | 30% | 22% | 0% | 0% | 33% | 57% | 0% | 0% | 63% | 11% | 35% | 33% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| b. Nac ydw | 24% | 11% | 33% | 0% | 0% | 0% | 0% | 100% | 25% | 44% | 18% | 67% | 100% | 0% | 0% | 100% |
| c. Ddim yn siŵr | 45% | 67% | 67% | 100% | 67% | 43% | 100% | 0% | 13% | 44% | 47% | 0% | 0% | 100% | 0% | 0% |

2.37 O'r 66 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, roedd 30% yn cytuno â'r cynnig ac roedd 24% yn anghytuno. Yr ymateb mwyaf cyffredin (45%) oedd bod ymatebwyr yn ansicr ynglŷn â'r cynnig.

**Dadleuon o blaid gofyniad Rhan L newydd ar gyfer paneli ffotofoltäig**

- **Mae'n sicrhau y caiff paneli ffotofoltäig eu defnyddio**: Ffordd briodol o sicrhau y caiff paneli ffotofoltäig eu gosod ar anheddau newydd. Credant fod gan baneli ffotofoltäig rôl allweddol i'w chyflawni er mwyn gostwng biliau ynni, lleihau allyriadau carbon a hwyluso hyblygrwydd y grid, yn enwedig mewn cyfuniad â batris trydan.
- **Mae'n sicrhau ffocws ar adeiladwaith yn gyntaf**: Mae hyn yn hyrwyddo ffocws ar adeiladwaith yn gyntaf. Mae'n osgoi'r dull presennol lle y gall

cynyddu nifer y paneli ffotofoltäig waethygu perfformiad adeiladwaith.

**Dadleuon yn erbyn cyflwyno gofyniad Rhan L newydd ar gyfer paneli ffotofoltäig.**

- **Mae'n lleihau hyblygrwydd dylunio**: Roedd yr ymatebwyr yn ffafrio cadw paneli ffotofoltäig yn yr adeilad tybiannol. Mae hyn yn cynnig mwy o hyblygrwydd dylunio o ran ffyrdd o gyrraedd y targedau.
- **Mae'n lleihau canlyniadau**: Bydd cadw paneli ffotofoltäig yn yr adeilad tybiannol yn sicrhau, pan na ellir gosod paneli ffotofoltäig, y caiff gwelliannau cydadferol eu gwneud i weddill yr annedd.
- **Heriau rheoli adeiladu**: Cododd yr ymatebwyr bryderon ynglŷn â'r posibilrwydd nad yw adnoddau rheoli adeiladu yn ddigonol i orfodi'r gofyniad yn gyson. Awgrymodd rhai y gallai cyd-drafod â swyddogion rheoli adeiladu ynglŷn â dyluniadau ar gyfer paneli ffotofoltäig achosi oedi. Ar ben hynny, mae ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr brofi i swyddogion rheoli adeiladu bod annedd yn anaddas ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy yn gam rheoleiddio ychwanegol diangen os gallant ddangos bod yr annedd yn dal i fodloni'r gofynion perfformiad cyffredinol, a gall hyn hefyd achosi oedi.
- **Gwrthdaro deddfwriaethol**: Yng Nghymru, ni all Arolygwyr/Cymeradwywyr Rheoli Adeiladu Cofrestredig roi cyngor ar ddyluniadau o dan y gyfundrefn newydd. Gallai cymeradwyo dyluniadau ar gyfer paneli ffotofoltäig eu gorfodi i gyflawni rôl ‘Prif Ddylunydd’, sy'n gwrthdaro â'r Ddeddf Diogelwch Adeiladau a'r Bil Diogelwch Adeiladau.

**Sylwadau ychwanegol**

- **Diwygio gofynion sylfaenol**: Dadleuodd rhai ymatebwyr nad yw 40% yn gyraeddadwy yn y rhan fwyaf o achosion. Dylid llacio'r gofyniad i 20%.
- **Mecanweithiau esemptio:** Dywedodd rhai na ddylid caniatáu esemptiadau oherwydd gall datblygwyr ymgorffori ynni adnewyddadwy ar y cam dylunio. Codwyd pryderon y gallai datblygiadau gael eu dylunio mewn ffyrdd sy'n osgoi ymgorffori ynni adnewyddadwy. Dywedodd rhai fod y lleihad yng nghostau paneli ffotofoltäig yn gwanhau’r dadleuon o blaid eithriadau.

**Ymateb y Llywodraeth i gwestiwn 12**

2.38 Roedd y canlyniadau'n gymysg, fodd bynnag, i'r rhai a atebodd ydw neu nac ydw, roedd mwyafrif bach (6%) yn cytuno â'r cynigion. Yn gyffredinol, roedd llawer a atebodd trwy ddweud eu bod yn ansicr yn teimlo bod angen sicrwydd na fyddai'r gofyniad ar draul effeithlonrwydd adeiladwaith neu roedden nhw'n cytuno â'r gofyniad ond nid y swm arfaethedig a bennwyd.

2.39 Felly, bydd gofyniad ynni adnewyddadwy yn cael ei weithredu fel gofyniad swyddogaethol o fewn Rhan L yn atodlen 1 o'r rheoliadau adeiladu, gyda

chanllawiau wedi'u cynnwys yn Nogfen Gymeradwy L1. Rydym, fodd bynnag, yn bwriadu gwneud rhai newidiadau i'r cynigion i liniaru rhai pryderon. Amlinellir y pryderon hynny yn y paragraffau isod.

2.40 Mewn perthynas â phryderon ynghylch faint o ynni a gynhyrchir sydd wedi'i bennu, rydym yn deall y bydd llawer o ddyluniadau to ar anheddau nad ydynt yn gallu cyflawni'r swm arfaethedig, ac yn yr ymgynghoriad, fe wnaethom ddisgrifio'r dystiolaeth sydd ei hangen ar gyfer y symiau is hyn. Fodd bynnag, rydym hefyd yn nodi bod pryderon am y baich ychwanegol y gallai hyn ei gael ar ddylunwyr a chyrff rheolaeth adeiladu i gyfiawnhau/derbyn y gostyngiadau hyn.

2.41 Felly, er mwyn lliniaru'r pryderon hyn, rydym yn cynnig darparu canllawiau ychwanegol o fewn dogfen gymeradwy L1 lle y gall cynlluniau toeau unigol (megis goleddf, ffenestri, nodweddion pensaernïol, gwaith cynnal a chadw ac ati) gyfyngu ar osod paneli ffotofoltäig digonol i fodloni'r allbynnau sy'n ofynnol ar gyfer opsiwn A.

2.42 Rydym hefyd yn cynnig adolygu opsiwn B (allbwn sydd â sgôr system o leiaf 16 Amp fesul cyfnod cyflenwi) fel y cynigir yn yr ymgynghoriad. Bydd Opsiwn B yn caniatáu swm is nag opsiwn A i'r dylunydd lle bo angen yn sgil cyfyngiadau gyda dyluniad y to. Bydd Opsiwn B yn gofyn am swm sy'n rhesymol ymarferol ar gyfer yr arwynebedd to sydd ar gael.

2.43 Er mwyn cyflawni opsiwn B, allbwn pŵer blynyddol (mewn kWh ac fel y'i cyfrifir yn y fethodoleg a gymeradwywyd) sydd o leiaf yr un peth â'r hyn a gyfrifir gan ddefnyddio'r arwynebedd to rhesymol ymarferol sydd ar gael (ar gyfer aráe ffotofoltäig ac effeithlonrwydd panel o 1kWp fesul 4.5m2). Bydd hyn yn caniatáu hyblygrwydd i ddylunwyr ac yn ystyried dyluniadau toeau amrywiol. Er mwyn cynorthwyo dylunwyr a chyrff rheolaeth adeiladu, rydym hefyd yn cynnig darparu canllawiau ychwanegol ar gyfyngiadau mewn perthynas â dyluniadau toeau ac enghreifftiau o gynlluniau sy'n gwneud y mwyaf o arwynebedd paneli ffotofoltäig safonol y gellir eu gosod ar amrywiaeth o fathau o doeau.

2.44 O ran y fethodoleg gyfrifo, bydd swm y ddarpariaeth solar yn yr adeilad tybiannol yn cyfateb i'r ddarpariaeth solar wirioneddol sydd i'w gosod ar gyfer paneli solar hyd at isafswm opsiwn A neu B (h.y. 40% o'r arwynebedd llawr daear neu swm is fel y'i cyfrifir yn opsiwn B). Dim ond gosod mwy o baneli nag opsiwn A fyddai'n cyfrif tuag at welliant yr adeilad gwirioneddol ar dargedau adeiladu tybiannol. Rydym hefyd yn cynnig bod y gwrthdröydd ar gyfer yr annedd dybiannol wedi'i gyfyngu i allbwn AC 16 Amp fesul cyfnod cyflenwi, fel nad yw datblygwyr yn cael eu cosbi pan nad yw Cais Cysylltiad Cynhyrchu Gwasgaredig G99 yn cael ei gymeradwyo.

2.45 Lle mae dyluniadau toeau yn caniatáu, rydym yn dal i ddisgwyl y bydd datblygwyr eisiau rhagori ar yr isafswm hwn, gan y byddai gwneud hynny'n cyfrif tuag at welliant yr adeilad gwirioneddol ar dargedau'r adeilad tybiannol, a hefyd oherwydd effeithlonrwydd cost wrth osod paneli solar ac i gyflawni graddfeydd EPC uwch at ddibenion marchnata.

2.46 Nododd rhai na ddylai'r gofyniad newydd fod ar draul safonau adeiladwaith (e.e. cyflwyno mwy o baneli ffotofoltäig nag y nodwyd yn opsiwn A a gostwng gwerthoedd adeiladwaith). Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae rheoliad 26B (Gwerthoedd perfformiad adeiladwaith ar gyfer anheddau newydd) o'r rheoliadau adeiladu yn ei gwneud yn ofynnol i anheddau newydd gydymffurfio ag isafswm safonau adeiladwaith ac ni chaniateir rhagori ar y safonau hynny, ac rydym o'r farn bod gofynion isaf y rheoliadau presennol (a gyflwynwyd yn 2022) yn sicrhau isafswm safon adeiladwaith sy'n addas ar gyfer systemau gwresogi carbon/tymheredd isel. Yn ogystal, yn y metrig EUI newydd, nid yw unrhyw ynni a allforir yn cael ei gyfrif, sydd hefyd yn helpu i liniaru'r pryderon hyn.

2.47 Er y bydd opsiwn B yn caniatáu llai o gynhyrchu ynni, mewn amgylchiadau eithriadol (gorsgysgodi) efallai na fydd yn rhesymol ymarferol neu'n ymarferol i osod unrhyw system cynhyrchu trydan ar y safle, ac felly rydym yn bwriadu darparu canllawiau yn y ddogfen gymeradwy derfynol ar gyfer sefyllfaoedd lle nad oes digon o arwynebedd to ar gael i osod araeau ffotofoltäig sy'n gallu cynhyrchu isafswm allbwn blynyddol o 720kWh.

2.48 Codwyd pryderon hefyd ynghylch risgiau tân posibl gan baneli ffotofoltäig, nodwyd y pryderon hyn. Rydym yn bwriadu adolygu rhai meysydd o Ddogfen Gymeradwy B yn y dyfodol agos a bydd y maes hwn yn cael ei ystyried fel rhan o'r gwaith hwn.

**Cwestiwn 13: A oes gennych unrhyw wybodaeth yr hoffech ei darparu am yr anheddau a adeiladwyd yn unol â Safon Rhan L 2025 sy'n defnyddio llenfuriau?**

2.49 Cwestiwn testun rhydd oedd hwn. Rhoddodd yr ymatebwyr y wybodaeth ganlynol:

- **Heriau o ran cydymffurfio**: Codwyd pryderon ynglŷn â chymhlethdodau wrth geisio cydymffurfio â Rhan L ar gyfer llenfuriau o ganlyniad i darged mwy heriol.
  - Daw pontio thermol yn fwy arwyddocaol wrth i werthoedd U gwell gael eu targedu oherwydd cynnydd ym mhwysau systemau.
  - Mae'n debygol y bydd cydymffurfio â'r safon yn arwain at gostau cyflawni uchel iawn.
  - Ceir gofynion ac ystyriaethau dylunio ehangach a achosir gan heriau sy'n gysylltiedig â metrig EUI a Dogfen Gymeradwy O.

2.50 Dadleuodd rhai ymatebwyr ei bod yn bosibl na fydd dull targedau adeilad tybiannol yn briodol ar gyfer adeiladau â llenfuriau, a bod targedau absoliwt yn opsiwn gwell o bosibl.

- **Mae dylunio a dangos tystiolaeth yn hanfodol**: Rhaid i'r ffasâd arfaethedig gael ei ddylunio fel system perfformiad uchel, a rhaid dangos

tystiolaeth o hynny. Roedd yr ymatebion yn pwysleisio pwysigrwydd gofynion tystiolaeth ar gyfer systemau llenfur, gan gynnwys:

- Colli gwres o'r ffasâd cyfan
- Pontio thermol a chyddwysiad
- Gorgynhesu
- Aerglosrwydd a dwrglosrwydd
- Tystiolaeth ‘fel y'u hadeiladwyd’
- Datganiadau o gymhwysedd

**Ymateb y Llywodraeth i gwestiwn 13**

2.51 Nifer bach o ymatebion a gafwyd ac nid oeddent yn cynnwys digon o fanylion ynghylch a yw'r metrigau cydymffurfiaeth arfaethedig yn debygol o greu heriau mewn perthynas ag anheddau â llenfuriau. Ni chynigir ystyriaeth briodol ar gyfer anheddau â llenfuriau.

### Cwestiwn 14: A ydych yn cytuno y dylid disodli Cyfradd Effeithlonrwydd Ynni Annedd â metrig Dwysedd Defnydd Ynni?

| **Cwestiwn 14: A ydych yn cytuno y dylid disodli Cyfradd Effeithlonrwydd Ynni Annedd â metrig Dwysedd Defnydd Ynni?** | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Pawb a ymatebodd | Pensaer | Adeiladwr/Datblygwr | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Gweithiwr Proffesiynol ym maes Adeiladu | Dylunydd/Peiriannydd/Syrfëwr | Asesydd Ynni | Sector ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/cadwyn gyflenwi | Parti Arall â Diddordeb (rhowch fanylion) | Rheolwr Eiddo/Cymdeithas Tai/Landlord | Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu | Adeiladwr bach/canolig | Heb ei nodi | Adeiladwr tai mawr |
| **Cyfanswm** | **62** | **9** | **3** | **1** | **3** | **7** | **2** | **1** | **8** | **8** | **15** | **3** | **0** | **1** | **0** | **1** |
| a. Ydw | 81% | 100% | 67% | 100% | 67% | 100% | 100% | 100% | 88% | 63% | 67% | 100% | 0% | 100% | 0% | 0% |
| b. Nac ydw – dylid cadw Cyfradd Effeithlonrwydd Ynni Annedd | 10% | 0% | 33% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 13% | 38% | 7% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| c. Nac ydw – dylid defnyddio metrig gwahanol (rhowch fanylion) | 8% | 0% | 0% | 0% | 33% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 20% | 0% | 0% | 0% | 0% | 100% |
| d. Nac ydw – dylid dileu Cyfradd Effeithlonrwydd Ynni Annedd heb ychwanegu metrig ychwanegol | 2% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 7% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |

2.52 O'r 62 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, roedd y mwyafrif (81%) yn cytuno â'r cynnig i newid o Gyfradd Effeithlonrwydd Ynni Annedd (DEER) i fetrig Dwysedd Defnydd Ynni (EUI). O gymharu â hynny, roedd 10% o blaid cadw metrig DEER, cynigiodd 8% fetrig amgen, ac roedd 2% o'r farn y dylid cael gwared ar fetrig EUI heb ychwanegu metrig newydd.

**Adborth gan y rhai a oedd o blaid mabwysiadu'r metrig EUI newydd**

2.53 Rheswm dros gefnogi'r cynnig:

- **Metrig mwy effeithiol**: Mae'n cyfleu perfformiad ynni anheddau a'r defnydd ynni disgwyliedig yn fwy effeithiol. Nid oes cysylltiad clir rhwng y metrig presennol a defnydd ynni.
- **Mae'n cynnwys defnydd anrheoleiddiedig o ynni**: Roedd rhai ymatebwyr o blaid cynnwys defnydd anrheoleiddiedig yn y metrig. Mae hyn yn golygu bod modd cymharu'r defnydd gwirioneddol o ynni â'r defnydd ynni a fodelwyd.

2.54 Cyfeiriodd yr ymatebwyr hyn at y pryderon a'r argymhellion canlynol hefyd.

- **Amwysedd ynghylch cynnwys ynni adnewyddadwy**: Roedd yr ymatebwyr yn ansicr ynglŷn â ph'un a allai ynni adnewyddadwy ar y safle wrthbwyso'r metrig ai peidio. Gwnaethant argymell na ddylid caniatáu i ynni adnewyddadwy wrthbwyso'r metrig. Dylai gwmpasu'r ynni a ddefnyddir waeth beth fo'r ffynhonnell egni er mwyn cymell lleihad yn y galw yn gyffredinol.

**Rhesymau dros gadw Cyfradd Effeithlonrwydd Ynni Annedd**

- **Anghytuno â chynnwys llwyth anrheoleiddiedig**: Ni ddylai metrig cydymffurfiaeth gynnwys llwythi anrheoleiddiedig gan nad oes gan ddatblygwyr a dylunwyr reolaeth dros y defnyddiau terfynol hyn.
- **Nid oes angen i'r cyhoedd allu deall metrig cydymffurfiaeth yn hawdd**: Nid oes angen i'r cyhoedd allu deall metrig cydymffurfiaeth. Yr EPC yw'r brif ffordd o gyfleu perfformiad ynni i ddefnyddwyr.
- **Cysondeb**: Byddai'r newid yn tarfu ar barhad ac mae'n bosibl y byddai'n arwain at golli'r gallu i feincnodi yn erbyn asesiadau cydymffurfiaeth blaenorol.
- **Gallai EUI asesu anheddau o wahanol feintiau yn annheg**: Ceir dealltwriaeth y gall Dwysedd Defnydd Ynni (EUI) amrywio'n sylweddol yn dibynnu ar faint a meddiannaeth tai. Mynegodd rhai ymatebwyr bryder y byddai cartrefi mwy, sy'n aml yn cynnwys gofodau heb lawer o weithgarwch (e.e. ystafelloedd amlbwrpas, ystafelloedd ymolchi en-suite, garejis), yn dangos dwysedd defnydd ynni is. Ar y llaw arall, mae'n bosibl y byddai cartrefi llai nad ydynt yn cynnwys gofodau o'r fath yn dangos dwysedd defnydd ynni uwch ar gyfartaledd.

**Metrigau amgen**

- **Safonau gofynnol ar gyfer adeiladwaith a gwasanaethau adeiladau sefydlog**: Pennu gofynion sylfaenol ar gyfer perfformiadau adeiladwaith a systemau unigol, yn hytrach nag integreiddio'r holl elfennau mewn un metrig cydymffurfiaeth.
- **Safon Effeithlonrwydd Ynni Adeiladwaith (FEES) Cymru**: Byddai metrig sy'n canolbwyntio ar effeithlonrwydd adeiladwaith yn sicrhau ffocws ar adeiladwaith yn gyntaf ar gyfer cartrefi newydd. Ar ben hynny, dadleuwyd bod gweithrediad effeithlon pympiau gwres yn dibynnu ar berfformiad adeiladwaith cadarn, y byddai metrig FEES yn helpu i'w sicrhau.
- **Cysondeb â metrigau FHS**: Awgrymwyd y dylid cysoni'r metrigau â Safon Cartrefi'r Dyfodol (FHS) y DU er cysondeb â datblygwyr sy'n gweithio ledled Cymru a Lloegr.

**Ymateb y Llywodraeth i gwestiwn 14**

2.55 Roedd y mwyafrif helaeth yn cytuno y dylid disodli Cyfradd Effeithlonrwydd Ynni Annedd â metrig Dwysedd Defnydd Ynni, felly byddwn yn bwrw ymlaen â'r cynnig hwn.

2.56 O ran cysoni â'r Safon Effeithlonrwydd Ynni Adeiladwaith (FEES) yn Lloegr, ein dewis amgen yn lle FEES yw rheoliad 26B (gwerthoedd perfformiad adeiladwaith ar gyfer anheddau newydd), nad oedd cynnig i'w ddiddymu ac a gaiff ei gadw.

**Cwestiwn 15: A ydych yn cytuno y dylid mabwysiadu'r Model Ynni Cartrefi newydd fel y fethodoleg gyfrifo gymeradwy i ddangos bod anheddau newydd yn cydymffurfio â Safon Rhan L 2025 yng Nghymru?**

| **Cwestiwn 15: A ydych yn cytuno y dylid mabwysiadu'r Model Ynni Cartrefi newydd fel y fethodoleg gyfrifo gymeradwy i ddangos bod anheddau newydd yn cydymffurfio â Safon Rhan L 2025 yng Nghymru?** | Pawb a ymatebodd | Pensaer | Adeiladwr/Datblygwr | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Gweithiwr Proffesiynol ym maes Adeiladu | Dylunydd/Peiriannydd/Syrfëwr | Asesydd Ynni | Sector ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/cadwyn gyflenwi | Parti Arall â Diddordeb (rhowch fanylion) | Rheolwr Eiddo/Cymdeithas Tai/Landlord | Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu | Adeiladwr bach/canolig | Heb ei nodi | Adeiladwr tai mawr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **75** | **9** | **3** | **1** | **3** | **7** | **2** | **1** | **8** | **11** | **24** | **3** | **1** | **1** | **0** | **1** |
| a. Ydw | 57% | 11% | 33% | 0% | 0% | 43% | 50% | 100% | 63% | 73% | 75% | 100% | 100% | 0% | 0% | 100% |
| b. Nac ydy | 4% | 0% | 0% | 0% | 33% | 0% | 0% | 0% | 13% | 0% | 4% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| c. Ddim yn siŵr | 39% | 89% | 67% | 100% | 67% | 57% | 50% | 0% | 25% | 27% | 21% | 0% | 0% | 100% | 0% | 0% |

2.57 O'r 75 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, roedd y mwyafrif (57%) yn cytuno â'r cynnig i fabwysiadu'r Model Ynni Cartrefi (HEM). O gymharu â hynny, roedd 4% yn anghytuno â'r cynnig ac roedd 39% yn ansicr.

**Rhesymau dros gefnogi'r cynnig i gyflwyno'r Model Ynni Cartrefi (HEM)**

- **Mae SAP yn annigonol:** Ystyrir bod SAP yn annigonol ar gyfer modelu anheddau ynni isel.
- **Gwell cywirdeb:** Disgwylir i HEM fod yn adnodd mwy cywir a fydd yn cyfrannu at gau'r bwlch perfformiad. Yn arbennig o ystyried ei allu i fesur bob hanner awr, rhagwelir y bydd HEM yn adlewyrchu perfformiad technolegau carbon isel mewn anheddau yn well. Hefyd, mae'n fwy addas ar gyfer adnabod effaith tariffau amser defnyddio a thechnolegau dynamig sydd â rheolaethau clyfar.
- **Cysondeb ledled y DU:** Ffefrir cysoni methodolegau ledled y DU.

**Ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynnig**

- **Diangen**: Nid oes angen newid o SAP, a dylid ei chadw.
- **Effaith ansicr**: Roedd rhywfaint o amheuaeth na fydd HEM yn gwella cywirdeb modelau mewn gwirionedd.

**Pryderon ac awgrymiadau eraill (drwy'r holl ymatebion)**

- **Pryderon ynglŷn â chymhlethdod HEM**: Disgwylir i'r data mewnbynnu ychwanegol sy'n ddisgwyliedig ar gyfer HEM arwain at fwy o amser modelu, mwy o risg o wallau mewnbynnu, a chostau uwch o ganlyniad i hynny.
- **Digon o amser paratoi i'r gadwyn gyflenwi**: Mae cyflwyno model newydd yn dasg sylweddol a fydd yn effeithio ar y gadwyn gyflenwi gyfan. Mae angen digon o amser paratoi er mwyn addasu cyn i'r camau gorfodi ddechrau. Un amserlen a awgrymwyd yw y dylai HEM gael ei bennu'n derfynol o leiaf 12 mis cyn iddo ddod i rym.
- **Ni chaiff HEM ei ddilysu'n ddigonol**: Pryder nad yw HEM yn cael ei brofi a'i ddilysu'n ddigonol ar hyn o bryd er mwyn rhoi hyder ei fod yn fwy cywir na SAP.
- **Cefnogaeth i Becyn Cynllunio Passivhaus (PHPP):** Awgrymodd rhai ymatebwyr fod PHPP yn cael ei gydnabod fel adnodd cydymffurfiaeth ynghyd â SAP a/neu HEM.

## Cwestiwn 16: A ydych yn cytuno y dylid parhau i ddefnyddio'r SAP i ddangos cydymffurfiaeth â Rhan L 2025 fel mesur dros dro os na fydd y fersiwn derfynol o'r HEM wedi'i chwblhau erbyn y dyddiad dod i rym arfaethedig?

**Cwestiwn 16: A ydych yn cytuno y dylid parhau i ddefnyddio'r SAP i ddangos cydymffurfiaeth â Rhan L 2025 fel mesur dros dro os na fydd y fersiwn derfynol o'r HEM wedi'i chwblhau erbyn y dyddiad dod i rym arfaethedig?**

| | Pawb a ymatebodd | Pensaer | Adeiladwr/Datblygwr | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Gweithiwr Proffesiynol ym maes Adeiladu | Dylunydd/Peiriannydd/Syrfëwr | Asesydd Ynni | Sector ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/cadwyn gyflenwi | Parti Arall â Diddordeb (rhowch fanylion) | Rheolwr Eiddo/Cymdeithas Tai/Landlord | Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu | Adeiladwr bach/canolig | Heb ei nodi | Adeiladwr tai mawr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **74** | **9** | **3** | **1** | **3** | **7** | **2** | **1** | **8** | **12** | **23** | **2** | **1** | **1** | **0** | **1** |
| a. Ydw | 57% | 11% | 33% | 0% | 0% | 29% | 50% | 100% | 100% | 75% | 70% | 100% | 100% | 0% | 0% | 0% |
| b. Nac ydw | 7% | 0% | 0% | 0% | 33% | 14% | 0% | 0% | 0% | 8% | 4% | 0% | 0% | 0% | 0% | 100% |
| c. Ddim yn siŵr | 36% | 89% | 67% | 100% | 67% | 57% | 50% | 0% | 0% | 17% | 26% | 0% | 0% | 100% | 0% | 0% |

2.58 O'r 74 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, roedd y mwyafrif (57%) yn cytuno â'r cynnig i ddefnyddio SAP yn y cyfamser os bydd angen. O gymharu â hynny, roedd 7% yn anghytuno ac roedd 47% yn ansicr.

### Adborth gan y rhai a oedd yn cefnogi'r cynnig

2.59 Rhoddwyd y rhesymau canlynol dros gefnogi'r cynnig.

- **Dull pragmataidd**: Mae parhau i ddefnyddio SAP nes y bydd HEM yn barod yn ddull pragmataidd a fydd yn osgoi oedi cyn cyflwyno rheoliadau.
- **Cyfnod pontio mwy esmwyth**: Bydd hyn yn rhoi'r amser sydd ei angen i addasu i HEM.
- **Cydraddoldeb â Lloegr**: O blaid cysoni â'r dull ar gyfer Lloegr.

2.60 Hefyd, gwnaeth yr ymatebwyr y sylwadau canlynol.

- **Dyddiad 'dod i ben' clir ar gyfer SAP**: Credid y byddai'n annoeth parhau i ddefnyddio'r ddau fodel ochr yn ochr â'i gilydd yn rhy hir. Gallai olygu y bydd datblygwyr yn ffafrio'r model sy'n ei gwneud yn haws cydymffurfio. Gall y gwahaniaeth hwn hefyd effeithio ar wneuthurwyr cynhyrchion adeiladu, y gallai fod angen iddynt gyflenwi cynhyrchion gwahanol i fodloni pob llwybr cydymffurfio.

### Rhesymau dros wrthwynebu'r cynnig

- **Dyblygu ymdrechion**: Pryderon y bydd defnyddio dau adnodd cydymffurfiaeth yn golygu bod angen i ddyluniadau a manylebau gael eu pennu ddwywaith. Gallai hyn achosi oedi, costau uwch, ac ansicrwydd mewn prosesau cynllunio a chaffael.

**Rhesymau dros ddewis "Ddim yn siŵr"**

- **Ffafrio PHPP dros SAP**: Roedd yn well gan rai o'r ymatebwyr PHPP fel adnodd cydymffurfiaeth na pharhau i ddefnyddio SAP.

**Ymateb y Llywodraeth i gwestiynau 15 ac 16**

2.61 Roedd cefnogaeth sylweddol i'r ddau gwestiwn, felly rydym yn cynnig mabwysiadu HEM fel y fethodoleg gyfrifo gymeradwy i ddangos bod anheddau newydd yn cydymffurfio â Safon Rhan L 2025 yng Nghymru. Fodd bynnag, gan nad yw HEM hyd yn hyn yn fethodoleg gymeradwy ar gyfer dangos cydymffurfiaeth a Rhan L rydym yn cynnig defnyddio fersiwn ddiwygiedig o SAP (SAP10.3) yn y cyfamser.

2.62 Ar adeg ysgrifennu'r ddogfen hon, mae ymateb Llywodraeth y DU i'w hymgynghoriad ar HEM wedi cael ei gyhoeddi, ond nid yw'r ymgynghoriad ar safon cartrefi/adeiladau'r dyfodol yn Lloegr wedi cael ei gyhoeddi. Gan nad yw HEM wedi ei weithredu eto at ddibenion cydymffurfiaeth â Rhan L, rydym yn bwriadu darparu SAP 10.3 i ddechrau fel offeryn cydymffurfiaeth â Rhan L yng Nghymru yn y cyfamser (SAP10.3 a fyddai'n rhoi'r fanyleb annedd dybiannol newydd, metrig EUI a ffactorau tanwydd newydd ar waith) ac yna'n bwriadu llunio adnodd cydymffurfiaeth HEM ar gyfer Rhan L yng Nghymru yn nes ymlaen, ar ôl iddo gael ei roi ar waith yn llawn yn Lloegr (ar gyfer Safon Cartrefi'r Dyfodol) yn y lle cyntaf.

2.63 Rydym hefyd yn cydnabod y bydd angen uwchsgilio aseswyr ynni i ddefnyddio adnodd cydymffurfiaeth HEM, a'r rôl bwysig y bydd cynlluniau aseswyr ynni yn ei chyflawni o ran hyfforddi aseswyr i sicrhau asesiadau cywir. Bydd angen rhywfaint o amser i uwchsgilio ar gyfer HEM cyn cyflwyno HEM fel yr unig adnodd cydymffurfiaeth ar gyfer Rhan L yng Nghymru. Felly, rydym yn disgwyl y bydd cyfnod pan fydd SAP a HEM yn rhedeg ochr yn ochr â'i gilydd, yn enwedig gan fod angen EPC hefyd ar gyfer anheddau newydd ar adeg cwblhau'r gwaith adeiladu. Byddwn yn trafod yr amserlen hon a'r broses ar gyfer rhoi'r gorau i ddefnyddio SAP yn raddol gyda Llywodraeth y DU a chynlluniau aseswyr ynni cyn mabwysiadu HEM a'i roi ar waith fel adnodd cydymffurfiaeth ar gyfer Rhan L yng Nghymru.

## Cwestiwn 17: A ydych yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig i effeithlonrwydd a rheolaethau gofynnol gwasanaethau adeiladau a nodir yn Adran 6 o'r fersiwn ddrafft o Ddogfen Gymeradwy L, Cyfrol 1: Anheddau?

| Cwestiwn 17: A ydych yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig i effeithlonrwydd a rheolaethau gofynnol gwasanaethau adeiladau a nodir yn Adran 6 o'r fersiwn ddrafft o Ddogfen Gymeradwy L, Cyfrol 1: Anheddau? | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Pawb a ymatebodd | Pensaer | Adeiladwr/Datblygwr | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Gweithiwr Proffesiynol ym maes Adeiladu | Dylunydd/Peiriannydd/Syrfëwr | Asesydd Ynni | Sector ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/cadwyn gyflenwi | Parti Arall â Diddordeb (rhowch fanylion) | Rheolwr Eiddo/Cymdeithas Tai/Landlord | Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu | Adeiladwr bach/canolig | Heb ei nodi | Adeiladwr tai mawr |
| **Cyfanswm** | **69** | **9** | **3** | **1** | **3** | **7** | **2** | **1** | **8** | **10** | **19** | **3** | **1** | **1** | **0** | **1** |
| a. Ydw | 42% | 11% | 33% | 0% | 0% | 29% | 50% | 0% | 88% | 50% | 42% | 100% | 100% | 0% | 0% | 0% |
| b. Nac ydw | 51% | 89% | 67% | 100% | 100% | 71% | 50% | 0% | 13% | 50% | 37% | 0% | 0% | 100% | 0% | 100% |
| c. Ddim yn siŵr | 7% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 100% | 0% | 0% | 21% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |

2.64 O'r 69 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, roedd mwyafrif bach (51%) yn anghytuno â'r newidiadau arfaethedig. O gymharu â hynny, roedd 41% yn cytuno â'r cynigion ac roedd 47% yn ansicr.

### Rhesymau dros gefnogi'r cynnig

- **Mae'n gyson â Lloegr:** Mae'n gyson â'r newidiadau y cynigir eu rhoi ar waith yn Lloegr.
- **Mae'n parhau â gwelliannau o ran effeithlonrwydd sylfaenol**: Mae'r gwelliannau'n fuddiol i lesiant meddianwyr ac yn cefnogi cysondeb ac ansawdd y ffordd y caiff cynhyrchion eu gosod mewn cartrefi newydd yng Nghymru, a pherfformiad y cynhyrchion hynny.
- **Cysondeb â rheoliadau Ecoddylunio**: Mae'n parhau i gyd-fynd â'r rheoliadau SCOP Ecoddylunio ar gyfer pympiau gwres.

### Rhesymau dros wrthwynebu'r cynnig

- **Mabwysiadu SCOP gwell:** Codwyd pryderon ynglŷn â'r SCOP Ecoddylunio ar gyfer gwresogi gofod drwy ddefnyddio pympiau gwres, sef 2.75. Dylid cynnig SCOP amgen o 3.50 yn lle hynny ar gyfer pympiau gwres sy'n gwresogi gofod a dŵr poeth domestig. Byddai SCOP o 3.50 ar gyfer gwresogi gofod a dŵr poeth domestig yn sicrhau na fydd anheddau newydd yn ddrutach i'w rhedeg o gymharu â'r safonau blaenorol.
- **Lleihau'r terfyn uchaf ar gyfer tymheredd llif:** Mae'r cynnig yn nodi tymheredd llif o 55°C fel terfyn uchaf. Dylid gostwng y terfyn uchaf hwn i 45°C er mwyn helpu systemau i fod yn fwy effeithlon a chyfforddus ac

integreiddio'n well â systemau dosbarthu tymheredd llif isel.

- **Dylid cydnabod amrywiadau o ran effeithiolrwydd goleuadau**: Argymhellodd rhai newidiadau i'r effeithiolrwydd arfaethedig er mwyn adlewyrchu dewisiadau dylunio amgen:
  - 105 lm/W o leiaf ar gyfer ffynonellau golau cyffredinol safonol
  - 80 lm/W o leiaf ar gyfer dyfeisiau LED tiwnadwy neu ffynonellau golau â Mynegai Rendro Lliw (CRI) ≥ 95
  - 65 lm/W o leiaf ar gyfer ffynonellau golau â phurdeb cyffroad uchel
- **Diffyg manylion am gynigion HEM**: Mae diffyg gwybodaeth am yr HEM arfaethedig yn creu ansicrwydd ynglŷn â chydymffurfiaeth.
- **Targedau anaddas ar gyfer gorchuddion llawr**: Pryder bod y safonau gofynnol ar gyfer gorchuddion systemau gwresogi tanlawr yn rhy isel. Ni fydd hyn yn addas ym mhob sefyllfa, er enghraifft pan fydd angen carpedi.
- **Risg annerbyniol o lygredd golau**: Codwyd pryderon ynglŷn â chynigion i ganiatáu i ddefnyddwyr reoli goleuadau allanol â ffitiadau sy'n cynhyrchu llai na 1200lm.

**Ymateb y Llywodraeth i gwestiwn 17**

2.65 Cafwyd ymateb cymysg i'r cwestiwn hwn, gyda llawer yn awgrymu cyfernod perfformiad tymhorol (SCOP) gofynnol mwy caeth na'r hyn a bennir ar gyfer Ecoddylunio, a gostwng y tymheredd llif uchaf i 45°C ar gyfer systemau gwresogi gwlyb.

2.66 Ar ôl ystyried yr ymatebion, rydym wedi penderfynu diwygio'r canllawiau ar gyfer systemau gwresogi gwlyb mewn anheddau newydd (nid anheddau presennol) drwy ostwng y tymheredd llif uchaf i 45°C. Mae hyn yn cyd-fynd â'r fanyleb adeilad dybiannol ac yn cydnabod bod modd ystyried systemau gwresogi gwlyb mewn anheddau newydd a'u hymgorffori yn y dyluniad yn gynnar. O ran yr awgrymiadau y dylid pennu SCOP gofynnol sy'n uwch nag isafsymiau Ecoddylunio, credwn y bydd y fanyleb annedd dybiannol ddiwygiedig yn annog pympiau gwres â SCOP uwch.

2.67 Rydym hefyd yn cydnabod y pryderon ynglŷn ag amrywiadau o ran effeithiolrwydd goleuadau, a byddwn yn diwygio'r ffigurau i adlewyrchu hyn yn y ddogfen gymeradwy derfynol.

**Cwestiwn 18: A ydych yn cytuno â'r cynnig i gynnwys canllawiau ychwanegol mewn perthynas â rheolaethau pympiau gwres ar gyfer anheddau, fel y nodir yn Adran 6 o'r fersiwn ddrafft o Ddogfen Gymeradwy L, Cyfrol 1: Anheddau?**

| Cwestiwn 18: A ydych yn cytuno â'r cynnig i gynnwys canllawiau ychwanegol mewn perthynas â rheolaethau pympiau gwres ar gyfer anheddau, fel y nodir yn Adran 6 o'r fersiwn ddrafft o Ddogfen Gymeradwy L, Cyfrol 1: Anheddau? | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Pawb a ymatebodd | Pensaer | Adeiladwr/Datblygwr | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Gweithiwr Proffesiynol ym maes Adeiladu | Dylunydd/Peiriannydd/Syrfëwr | Asesydd Ynni | Sector ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/cadwyn gyflenwi | Parti Arall â Diddordeb (rhowch fanylion) | Rheolwr Eiddo/Cymdeithas Tai/Landlord | Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu | Adeiladwr bach/canolig | Heb ei nodi | Adeiladwr tai mawr |
| **Cyfanswm** | **47** | **3** | **3** | **0** | **1** | **5** | **1** | **1** | **8** | **7** | **13** | **3** | **1** | **0** | **0** | **1** |
| a. Ydw | 72% | 33% | 33% | 0% | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% | 43% | 62% | 100% | 100% | 0% | 0% | 100% |
| b. Nac ydw | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| c. Ddim yn siŵr | 28% | 67% | 67% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 57% | 38% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |

2.68 O'r 47 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, roedd mwyafrif (72%) yn cytuno â'r cynnig. O gymharu â hynny, nid oedd yr un o'r ymatebwyr yn anghytuno â'r cynnig ac roedd 28% yn ansicr.

**Rhesymau dros gefnogi'r cynnig**

2.69 Roedd y rhesymau dros gefnogi'r cynnig yn cyd-fynd â'r rhai a nodwyd yn y ddogfen ymgynghori.

**Sylwadau eraill ac argymhellion**

- **Cysoni â safonau diwydiant**: Awgrymodd rhai y dylid cysoni â'r diffiniadau a'r gofynion a ddatblygwyd fel rhan o safonau dylunio MCS MIS 3005-D. Dylid hefyd ystyried y gofynion sylfaenol ar gyfer rheolaethau pympiau gwres y gall fod eu hangen o dan y Rheoliad Systemau Trydan Clyfar a Diogel a ddisgwylir gan yr Adran Diogeledd Ynni a Sero Net.
- **Dylid rhoi canllawiau i feddianwyr**: Dywedodd rhai y dylai meddianwyr gael canllawiau ar sut i ddefnyddio eu systemau'n effeithiol. Mae'n bosibl y bydd canllaw i ddefnyddwyr yn fwy buddiol na safonau gofynnol ar reolaethau pympiau gwres. Gellid adlewyrchu hyn mewn cofnodlyfr adeilad neu basbort digidol adeilad er mwyn i feddianwyr y dyfodol ddeall sut y bwriedir i'r system weithredu a gallu cynnal perfformiad dros amser.
- **Rhaid i'r canllawiau gael eu cynnal**: Pwysleisiodd rhai yr angen i'r canllawiau a roddir gael eu cynnal, eu hadolygu a'u cadw'n gyfredol er mwyn osgoi dryswch neu gamddehongli.

## Cwestiwn 19: A ydych yn cytuno y dylai gwybodaeth am weithredu a chynnal a chadw gael ei gosod ar unedau pympiau gwres mewn anheddau newydd?

| Cwestiwn 19: A ydych yn cytuno y dylai gwybodaeth am weithredu a chynnal a chadw gael ei gosod ar unedau pympiau gwres mewn anheddau newydd? | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Pawb a ymatebodd | Pensaer | Adeiladwr/Datblygwr | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Gweithiwr Proffesiynol ym maes Adeiladu | Dylunydd/Peiriannydd/Syrfëwr | Asesydd Ynni | Sector ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/cadwyn gyflenwi | Parti Arall â Diddordeb (rhowch fanylion) | Rheolwr Eiddo/Cymdeithas Tai/Landlord | Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu | Adeiladwr bach/canolig | Heb ei nodi | Adeiladwr tai mawr |
| **Cyfanswm** | **50** | **4** | **3** | **1** | **1** | **6** | **1** | **1** | **8** | **7** | **13** | **3** | **1** | **0** | **0** | **1** |
| a. Ydw | 70% | 100% | 33% | 100% | 100% | 67% | 100% | 0% | 100% | 57% | 54% | 67% | 100% | 0% | 0% | 100% |
| b. Nac ydw | 12% | 0% | 33% | 0% | 0% | 17% | 0% | 100% | 0% | 29% | 8% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| c. Ddim yn siŵr | 18% | 0% | 33% | 0% | 0% | 17% | 0% | 0% | 0% | 14% | 38% | 33% | 0% | 0% | 0% | 0% |

2.70 O'r 50 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, roedd y mwyafrif (70%) yn cytuno â'r cynnig. O gymharu â hynny, roedd 12% yn anghytuno â'r cynnig ac roedd 18% yn ansicr.

### Adborth gan y rhai a oedd yn cefnogi'r cynnig

2.71 Roedd y rhesymau dros gefnogi'r cynnig yn cyd-fynd â'r rhai a nodwyd yn y ddogfen ymgynghori.

2.72 Hefyd, cododd yr ymatebwyr hyn sawl pryder. Codwyd y pryderon hyn gan y rhai a oedd yn gwrthwynebu'r cynnig hefyd (ac ni chânt eu hailadrodd isod).

- **Fformat digidol**: Byddai'n symlach cyflawni'r nod drwy fformat digidol fel cod QR neu basbort digidol. Byddai hyn hefyd yn golygu y gellid diweddaru'r wybodaeth dros amser. Gallai hyn fod yn ychwanegol at gopi caled neu yn ei le.
- **Ddim yn ymarferol**: Ceir pryder ynglŷn â gwydnwch sy'n ymwneud â gadael y ddogfen hon ar bwmp gwres allanol lle y gall y tywydd effeithio arni. Byddai'n gwneud mwy o synnwyr ei rhoi ar y tu mewn, ar gyfleuster storio dŵr poeth neu flwch rheoli pwmp gwres o'r aer.

### Rhesymau dros anghytuno â'r cynnig

- **Dylai fod ar gyfer pob pwmp gwres**: Dylai hyn fod yn berthnasol i osod pympiau gwres ar gyfer adeiladau presennol hefyd.
- **Storio gyda gwybodaeth arall**: Dylai'r wybodaeth hon gael ei chadw gyda gwybodaeth bwysig arall, fel llawlyfrau defnyddwyr.
- **Perfformiad gwaeth:** Gall rhoi mwy o reolaeth i berchnogion tai gael

effaith negyddol. Gallent newid gosodiadau, gan gael effaith negyddol ar effeithlonrwydd a pherfformiad.

2.73 Cafodd pryderon a nodir uchod eu codi gan rai o'r ymatebwyr a oedd yn ansicr hefyd.

**Cwestiwn 20: A ydych o'r farn bod y wybodaeth am weithredu a chynnal a chadw a nodir yn Adran 10 o'r fersiwn ddrafft o Ddogfen Gymeradwy L, Cyfrol 1: Anheddau yn ddigonol i sicrhau bod pympiau gwres yn cael eu gweithredu a'u cynnal a'u cadw'n gywir?**

**Cwestiwn 20: A ydych o'r farn bod y wybodaeth am weithredu a chynnal a chadw a nodir yn Adran 10 o'r fersiwn ddrafft o Ddogfen Gymeradwy L, Cyfrol 1: Anheddau yn ddigonol i sicrhau bod pympiau gwres yn cael eu gweithredu a'u cynnal a'u cadw'n gywir?**

| | Pawb a ymatebodd | Pensaer | Adeiladwr/Datblygwr | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Gweithiwr Proffesiynol ym maes Adeiladu | Dylunydd/Peiriannydd/Syrfëwr | Asesydd Ynni | Sector ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/cadwyn gyflenwi | Parti Arall â Diddordeb (rhowch fanylion) | Rheolwr Eiddo/Cymdeithas Tai/Landlord | Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu | Adeiladwr bach/canolig | Heb ei nodi | Adeiladwr tai mawr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **48** | **3** | **3** | **1** | **1** | **5** | **1** | **1** | **8** | **7** | **13** | **3** | **1** | **0** | **0** | **1** |
| a. Ydw | 33% | 0% | 0% | 0% | 0% | 40% | 0% | 0% | 63% | 14% | 38% | 33% | 100% | 0% | 0% | 100% |
| b. Nac ydw | 23% | 0% | 67% | 0% | 100% | 20% | 0% | 100% | 0% | 29% | 15% | 67% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| c. Ddim yn siŵr | 44% | 100% | 33% | 100% | 0% | 40% | 100% | 0% | 38% | 57% | 46% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |

2.74 O'r 48 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, roedd 33% yn cytuno â'r cynnig ac roedd 23% yn anghytuno. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion a gafwyd yn ansicr ynglŷn â'r cynnig (44%).

### Rhesymau dros gefnogi'r cynnig

2.75 Roedd y rhesymau dros gefnogi'r cynnig yn cyd-fynd â'r rhai a nodwyd yn y ddogfen ymgynghori.

### Pryderon a godwyd

2.76 Codwyd y pryderon hyn gan yr ymatebwyr a oedd yn cefnogi a/neu'n gwrthwynebu'r cynigion.

- **Rhy gymhleth**: Dywedodd rhai fod y canllawiau arfaethedig yn rhy gymhleth. Gwnaethant bwysleisio pwysigrwydd osgoi gwybodaeth sy'n rhy dechnegol (megis cyfrifiadau colli gwres ac amodau dylunio) ar gyfer perchnogion tai cyffredin.
- **Cymorth digidol ychwanegol**: Dylid darparu fideos ar-lein, codau QR, neu basbort digidol adeilad er mwyn helpu pobl â gwahanol lefelau o wybodaeth.

- **Mae'n dileu cyfrifoldeb**: Y gwneuthurwr a'r adeiladwr tai, nid perchennog y tŷ, ddylai fod yn gyfrifol am sicrhau y darperir pwmp gwres effeithlon.
- **Cyfrifoldeb dylunwyr**: Pwy bynnag sy'n dylunio'r system wresogi, sy'n benodol i bob tŷ, ddylai fod yn gyfrifol am addysgu'r defnyddiwr sut y dylai'r system weithio.
- **Anghenion gwybodaeth ychwanegol**: Dadleuodd rhai y dylid rhoi rhagor o wybodaeth, gan gynnwys:
  - Mesur y gwres a gollir
  - Ar gyfer adeiladau presennol, dylid rhoi cyngor ar y gwaith uwchraddio deunydd inswleiddio a fydd yn ofynnol er mwyn i bympiau gwres berfformio'n effeithiol
  - Gweithrediad tymhorol
  - Cyfnodau rhwng gwaith cynnal a chadw
  - Datrys problemau

**Ymateb y Llywodraeth i gwestiynau 18, 19 ac 20**

2.77 Roedd y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr a atebodd gwestiynau 18 a 19 yn cytuno â'r wybodaeth a'r canllawiau ychwanegol arfaethedig, felly, rydym yn cynnig cyflwyno'r newidiadau.

2.78 O'r ymatebwyr a atebodd “Ydw” neu “Nac ydw” i gwestiwn 20, roedd mymryn o gytundeb â'r cynigion. Mewn perthynas â rhai o'r pryderon gwybodaeth ar gyfer cynulleidfaoedd technegol y gofynnir amdani yn Adran 10, ar gyfer tai newydd gofynnwn hefyd am i Ganllaw Ynni Cartref gael ei ddarparu a ddylai gynnwys cyngor annhechnegol ar sut i weithredu a chynnal a chadw'r system wresogi yn effeithlon. Byddwn yn diwygio'r canllawiau ar gyfer y Ganllaw Ynni Cartref i nodi y dylid darparu copi papur a chopi digidol ohono.

## Cwestiwn 21: A ydych yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig i Adran 4 o'r fersiwn ddrafft o Ddogfen Gymeradwy L, Cyfrol 1: Anheddau, sydd â'r nod o gyfyngu ar y gwres a gollir o systemau gwresogi carbon isel?

**Cwestiwn 21: A ydych yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig i Adran 4 o'r fersiwn ddrafft o Ddogfen Gymeradwy L, Cyfrol 1: Anheddau, sydd â'r nod o gyfyngu ar y gwres a gollir o systemau gwresogi carbon isel?**

| | Pawb a ymatebodd | Pensaer | Adeiladwr/Datblygwr | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Gweithiwr Proffesiynol ym maes Adeiladu | Dylunydd/Peiriannydd/Syrfëwr | Asesydd Ynni | Sector ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/cadwyn gyflenwi | Parti Arall â Diddordeb (rhowch fanylion) | Rheolwr Eiddo/Cymdeithas Tai/Landlord | Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu | Adeiladwr bach/canolig | Heb ei nodi | Adeiladwr tai mawr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **48** | **3** | **2** | **1** | **1** | **5** | **1** | **1** | **8** | **7** | **14** | **3** | **1** | **0** | **0** | **1** |
| a. Ydw | 63% | 33% | 0% | 0% | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% | 29% | 43% | 100% | 100% | 0% | 0% | 100% |
| b. Nac ydw | 17% | 0% | 50% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 43% | 29% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| c. Ddim yn siŵr | 21% | 67% | 50% | 100% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 29% | 29% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |

2.79 O'r 48 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, roedd y mwyafrif (63%) yn cytuno â'r cynnig. O gymharu â hynny, roedd 17% yn anghytuno â'r cynnig ac roedd 21% yn ansicr.

### Adborth gan y rhai a oedd yn cefnogi'r cynnig

2.80 Rhesymau dros gefnogi'r cynnig:

- **Mae'n atal gwres rhag cael ei golli**: Mae mesurau ychwanegol yn hollbwysig er mwyn lleihau faint o wres a gollir a chynyddu effeithlonrwydd i'r eithaf. Bydd hyn hefyd yn lleihau effeithiau colli gwres o silindrau, sy'n arwain at orgynhesu yn yr haf.

### Pryderon a godwyd

2.81 Codwyd y pryderon hyn gan yr ymatebwyr a oedd yn cefnogi a/neu'n gwrthwynebu'r cynigion.

- **Cyfyngiadau o ran gofod a lleoliad**: codwyd pryderon ynglŷn â'r canlynol:
  - Ni chefnogir y terfyn 1m am nad yw'n addas ym mhob sefyllfa ac mae'n rhwystr rhag lleoli ac arloesi.
  - Gallai dyblu'r deunydd inswleiddio ar bibellwaith gael effaith negyddol ar y gallu i lwybro'r pibellwaith. Gallai hyn arwain at bibellwaith hwy
  - Gall dyblu'r deunydd inswleiddio ar silindrau dŵr poeth achosi problemau o ran lleoliad y silindrau, yn enwedig os byddant wedi'u plymio ymlaen llaw. Byddai'n rhaid symud pibellwaith ymhellach oddi

wrth gorff y silindr, gan olygu y byddai gormod o bibellau mewn gofod bach. Byddai'n rhaid i'r silindrau fod yn lletach neu'n dalach, a fyddai'n effeithio ar ddichonoldeb eu gosod mewn cypyrddau.

– Pryderon ynglŷn â'r gofod sydd ar gael mewn gwagleoedd llawr, a allai wrthdaro â gwasanaethau eraill.

- **Cyfrifoldeb gosodwyr**: Roedd sawl ymatebydd yn anghytuno mai'r gwneuthurwr ddylai fod yn gyfrifol am ddylunio ac inswleiddio pibellwaith, gan nodi y byddai'r gosodwr yn gwneud hyn. Awgrymwyd mai un mesur lliniaru posibl ar gyfer cyfrifoldeb gosodwyr fyddai defnyddio pibellwaith wedi'i blymio ymlaen llaw. Fodd bynnag, codwyd pryderon ynglŷn â'r risg o ddŵr yn gollwng o'r pibellwaith ar adeg eu gosod.
- **Cyfyngiadau logisteg**: Problemau logisteg i osodwyr gan y bydd silindrau'n anos eu tynnu a'u disodli.
- **Cost uwch**: Awgrymwyd y byddai cynnydd mewn costau gweithgynhyrchu, gosod, cludo a storio.

**Cwestiwn 22: A ydych yn cytuno â'r fethodoleg pennu maint ar gyfer cyfleusterau storio dŵr poeth mewn** anheddau newydd?

| Cwestiwn 22: A ydych yn cytuno â'r fethodoleg pennu maint ar gyfer cyfleusterau storio dŵr poeth mewn anheddau newydd? | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Pawb a ymatebodd | Pensaer | Adeiladwr/Datblygwr | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Gweithiwr Proffesiynol ym maes Adeiladu | Dylunydd/Peiriannydd/Syrfëwr | Asesydd Ynni | Sector ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/cadwyn gyflenwi | Parti Arall â Diddordeb (rhowch fanylion) | Rheolwr Eiddo/Cymdeithas Tai/Landlord | Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu | Adeiladwr bach/canolig | Heb ei nodi | Adeiladwr tai mawr |
| **Cyfanswm** | **43** | **3** | **2** | **1** | **1** | **5** | **1** | **0** | **8** | **6** | **11** | **3** | **1** | **0** | **0** | **1** |
| a. Ydw | 44% | 33% | 0% | 0% | 100% | 20% | 100% | 0% | 88% | 0% | 36% | 100% | 100% | 0% | 0% | 0% |
| b. Nac ydw | 14% | 0% | 50% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 50% | 9% | 0% | 0% | 0% | 0% | 100% |
| c. Ddim yn siŵr | 42% | 67% | 50% | 100% | 0% | 80% | 0% | 0% | 13% | 50% | 55% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |

2.82 O'r 43 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, roedd 44% yn cytuno â'r cynnig o gymharu â 14% a oedd yn anghytuno. Roedd nifer sylweddol yn ansicr ynglŷn â'r cynnig (42%).

### Rhesymau dros gefnogi'r cynnig

- **Mae'n osgoi pennu maint rhy fawr ar gyfer tanciau dŵr poeth**: Roedd yr ymatebwyr o blaid dull sy'n osgoi pennu maint rhy fawr ar gyfer tanciau storio.

**Rhesymau dros wrthwynebu'r cynnig.**

- **Dylid pennu maint sy'n addas ar gyfer yr uchafswm meddiannaeth posibl**: Dylid pennu maint ar gyfer cyfleusterau storio sy'n cyd-fynd â chyfradd feddiannaeth uchel bosibl, er mwyn sicrhau bod y dyluniad yn addas at y diben ym mhob achos.
- **Ffafrio dilyn dull y Cynllun Tystysgrifau Microgynhyrchu (MSC)**: Roedd yr ymatebwyr o'r farn bod y cynnig yn rhy gymhleth. Gwnaethant argymell dilyn dull MCS, sef 45 litr fesul ystafell wely + 45 litr.
- **Pryderon ynglŷn â'r fethodoleg pennu maint**: Mae methodoleg pennu maint y Ddogfen Gymeradwy yn seiliedig ar yr elfennau canlynol: y galw am ddŵr poeth a'r amser adfer. Cododd yr ymatebwyr broblemau â'r ddwy elfen:

– Amcangyfrif o'r galw: Mynegodd rhai ddiffyg hyder a diffyg dealltwriaeth ynghylch y proffiliau safonedig ar gyfer y galw am ddŵr poeth a ddefnyddir ar gyfer cyfrifiadau cydymffurfiaeth. Yn benodol, roedd rhai'n pryderu ei bod yn bosibl na chaiff technolegau sy'n lleihau'r galw am ddŵr poeth eu hystyried.

– Amser adfer / cyfraddau adlenwi: Codwyd pryderon ynglŷn â'r dull a ddefnyddir i brofi amser adlenwi cyfleusterau storio, gan ei bod yn bosibl nad yw'n rhoi cyfrif am nodweddion y ffynonellau gwresogi sy'n gwasanaethu'r cyfleuster, gan olygu na chaiff amseroedd adlenwi gwirioneddol eu hystyried.

**Rhesymau dros ddewis "Ddim yn siŵr"**

- **Heriau posibl i wneuthurwyr**: Gallai newid y fethodoleg pennu maint ar gyfer silindrau olygu y bydd angen ailddylunio a chynhyrchu cynhyrchion newydd sy'n cydymffurfio â'r rheoliadau.
- **Galw heb ei fodloni a chanlyniadau anfwriadol eraill**: Awgrymwyd y dylid ymchwilio ymhellach i ganlyniadau anfwriadol posibl galw heb ei fodloni ac aneffeithlonrwydd systemau.

**Sylwadau ac argymhellion eraill gan unrhyw ymatebwyr**

- **Pryderon ynglŷn â'r cylchoedd legionella arfaethedig**: Ystyrir bod cylch legionella o saith awr y dydd yn rhy aml. Argymhellwyd ei leihau i unwaith yr wythnos.
- **Y dewis o safon**: Nododd rhai ymatebwyr gefnogaeth benodol i Ganllaw Dylunio Gwasanaethau Peirianneg Plymio'r Sefydliad Siartredig Peirianneg Plymio a Gwresogi ac, ar gyfer systemau sy'n cynnwys pympiau gwres, weithdrefn dylunio systemau gwresogi gofod MIS 3005-D MCS.

### Ymateb y Llywodraeth i gwestiynau 21 a 22

2.83 Roedd y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr a atebodd gwestiynau 21 a 22 yn cytuno â'r wybodaeth a'r canllawiau ychwanegol arfaethedig, felly, rydym yn cynnig cyflwyno'r newidiadau gydag ambell fân newid mewn ymateb i rai sylwadau, fel y nodir isod.

2.84 Codwyd pryderon y byddai deunydd inswleiddio ychwanegol yn arwain at gyfyngiadau o ran gofod a lleoliad ar gyfer pibellwaith a chyfleusterau storio dŵr poeth. Fodd bynnag, gan mai anheddau newydd yw'r rhain, credir y dylai hyn gael ei ystyried a'i ddatrys yn gynnar yn y gwaith dylunio.

2.85 Byddwn yn diwygio'r canllawiau i gael gwared ar y terfyn o 1m o'r annedd a awgrymir ar gyfer y pwmp gwres a chaniatáu rhywfaint o hyblygrwydd/arloesedd drwy gynghori y dylai'r pwmp gwres fod mor agos at yr annedd ag y bo'n ymarferol.

2.86 Caiff dulliau HEM a SAP10.3 ar gyfer cyfrifo'r galw am ddŵr poeth eu hystyried yn ofalus yn unol â'r pryderon a godwyd. Bydd unrhyw ofynion pennu maint a gaiff eu cynnwys yn y fersiwn derfynol o Ddogfen Gymeradwy L1 yn ceisio osgoi unrhyw achosion o bennu maint rhy fawr ar gyfer silindrau.

## Cwestiwn 23: A ydych yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig i Ddogfen Gymeradwy F, Cyfrol 1: Anheddau i wella'r broses o osod a chomisiynu systemau awyru?

| **Cwestiwn 23: A ydych yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig i Ddogfen Gymeradwy F, Cyfrol 1: Anheddau i wella'r broses o osod a chomisiynu systemau awyru?** | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Pawb a ymatebodd | Pensaer | Adeiladwr/Datblygwr | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Gweithiwr Proffesiynol ym maes Adeiladu | Dylunydd/Peiriannydd/Syrfëwr | Asesydd Ynni | Sector ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/cadwyn gyflenwi | Parti Arall â Diddordeb (rhowch fanylion) | Rheolwr Eiddo/Cymdeithas Tai/Landlord | Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu | Adeiladwr bach/canolig | Heb ei nodi | Adeiladwr tai mawr |
| **Cyfanswm** | **62** | **8** | **2** | **1** | **3** | **7** | **2** | **0** | **8** | **7** | **18** | **3** | **1** | **1** | **0** | **1** |
| a. Ydw | 35% | 13% | 0% | 0% | 0% | 29% | 50% | 0% | 75% | 29% | 33% | 100% | 100% | 0% | 0% | 0% |
| b. Nac ydw | 34% | 38% | 100% | 0% | 67% | 57% | 50% | 0% | 13% | 14% | 28% | 0% | 0% | 100% | 0% | 100% |
| c. Ddim yn siŵr | 31% | 50% | 0% | 100% | 33% | 14% | 0% | 0% | 13% | 57% | 39% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |

2.87 O'r 62 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, roedd cyfran debyg yn cytuno (35%), yn anghytuno (34%) ac yn ansicr (31%).

### Rhesymau dros gefnogi'r cynnig

- **Gwelliannau ansawdd**: Byddai'r newidiadau arfaethedig yn arwain at welliannau i'r ffordd y caiff systemau awyru eu gosod, eu profi a'u comisiynu. Byddai hyn yn cael effaith gadarnhaol o ran lleihau

canlyniadau anfwriadol, er enghraifft lefelau lleithder a llwydni.

- **Canllawiau cliriach**: Roedd rhai ymatebwyr yn cefnogi'r canllawiau cliriach ar gomisiynu
- **Profi annibynnol**: Nododd rhai y gallai awgrym yr ymgynghoriad ynghylch defnyddio Cynllun Personau Cymwys leihau'r baich ar swyddogion rheoli adeiladu.

**Rhesymau dros wrthwynebu'r cynnig.**

- **Gwelliannau i hyfforddiant ar gyfer gosodwyr**: Pwysleisiodd yr ymatebwyr ei bod yn rhaid i osodwyr allu dangos cymhwysedd a bod yn atebol, a hynny'n ddelfrydol drwy gynlluniau cadarn sy'n cynnwys archwilio systemau go iawn sydd wedi cael eu gosod yn hytrach na dibynnu ar hyfforddiant mewn ystafell ddosbarth neu arholiadau ysgrifenedig yn unig.
- **Mae angen mwy o ffocws ar ddylunio**: Pwysleisiodd llawer o'r ymatebwyr fod dylunio, pennu maint pibellwaith a phennu cynllun systemau yn gywir yr un mor bwysig â'r comisiynu terfynol. Roeddent yn pryderu bod y cynigion drafft yn canolbwyntio'n ormodol ar fesuriadau comisiynu, tra bo gofynion ar y cam dylunio ar goll. Dylai'r canllawiau bwysleisio gwaith dylunio ar gam cynnar a glynu wrth wybodaeth ddylunio gymeradwy, ac nid addasiadau ar y safle yn unig.
- **Mae'n hepgor materion allweddol**: Nid yw'r Ddogfen Gymeradwy yn mynd i'r afael â'r holl faterion allweddol yn llawn. Er enghraifft, credwyd bod rhai canllawiau ar goll o Ddogfen Gymeradwy F (Adran 4: Comisiynu a rhoi gwybodaeth) megis sŵn ystafelloedd, terfynau colli gwasgedd pibellau, a dull dylunio integredig.
- **Cyfyngiad o ddau fetr ar hyd pibellau**: Cwestiynodd yr ymatebwyr y dystiolaeth o blaid lleihau'r uchafswm hyd pibell ar gyfer unedau MEV datganolog o norm presennol y diwydiant, sef 5m, i 2m. Gallai hyn osod cyfyngiadau o ran lleoliadau a chynlluniau systemau awyru, yn enwedig mewn tai teras. Awgrymodd rhai mai dim ond i wyntyllau ysbeidiol y dylai terfynau byrrach fod yn berthnasol.
- **Technoleg offer**: Roedd gwahaniaeth barn ymhlith yr ymatebwyr ynglŷn â symud i ffwrdd oddi wrth anemomedrau â llafnau. Roedd rhai o blaid cyflau llif modur, ond gwnaethant ofyn am ganllawiau sy'n addas ar gyfer unrhyw dechnoleg ac sy'n diffinio offer derbyniol yn glir, a dadleuodd eraill fod anemomedrau â llafnau wedi'u calibro (sydd â chyflau priodol) eisoes yn ddigon cywir ac y byddai gwneud cyflau modur yn orfodol yn ychwanegu cost sylweddol heb dystiolaeth glir o fudd.
- **Pryderon technegol eraill**: Cwestiynodd sawl ymatebydd y cynnydd arfaethedig i 50mm o ddeunydd inswleiddio ar bibellau gan ddadlau nad oes tystiolaeth o'i blaid ac y byddai'n anodd darparu ar gyfer hynny mewn gwagleoedd nodweddiadol, a gwnaethant herio'r gofyniad i derfynellau allanol gael ardal rydd o 90%, gan ffafrio gofynion seiliedig ar berfformiad

sy'n cyd-fynd â BS EN 13141-2. Hefyd, gwnaed sylwadau a oedd yn tynnu sylw at yr angen i gydnabod systemau pibellau lled-anhyblyg yn benodol yn y canllawiau.

- **Cwrs dylunio MVHR**: Nid oes cwrs dylunio MVHR a gydnabyddir yn gyffredinol yn bodoli. Dylid datblygu a chyflwyno cwrs o'r fath fel rhan o gynllun personau cymwys er mwyn gwella ansawdd ym mhob rhan o'r diwydiant.

**Rhesymau dros ddewis "Ddim yn siŵr"**

2.88 Gwnaed y sylw canlynol, yn ychwanegol at rai o'r pryderon a nodir uchod.

- **Sgiliau a chymwysterau**: Dywedodd rhai ymatebwyr fod prinder gosodwyr a thrydanwyr sy'n gymwys i fodloni'r gofynion arfaethedig ar hyn o bryd. Gwnaethant ofyn i Lywodraeth Cymru ddatblygu cymwysterau safonol cenedlaethol ar gyfer gosodwyr a chomisiynwyr.

**Pwyntiau ychwanegol a godwyd gan yr holl ymatebwyr**

- **Costau uwch i osodwyr**: Dylai fod cymorth ychwanegol ar ffurf grantiau neu fenthyciadau i osodwyr llai. Bydd hyn er mwyn sicrhau na fydd y gost ychwanegol sy'n gysylltiedig â phrofi a chomisiynu a gyflwynir gan y newidiadau hyn yn cael effaith andwyol ar eu cynaliadwyedd ariannol.
- **Glynu wrth wybodaeth ddylunio**: Yn aml, gall materion sy'n ymwneud â pherfformiad a chydymffurfiaeth godi o wyriadau ar y safle oddi wrth y dyluniad gwreiddiol. Mae'n bwysig pwysleisio hyn yn y canllawiau.
- **Adnoddau rheoli adeiladu**: Gallai ei gwneud yn ofynnol i swyddogion rheoli adeiladu roi gwybodaeth pan na chaiff Cynllun Personau Cymwys ei ddefnyddio roi pwysau ychwanegol ar adnoddau lleol sydd eisoes dan straen.
- **Cysondeb â Dogfen Gymeradwy L**: Gwnaed cais i gynnwys geiriad tebyg i'r darpariaethau comisiynu cyfatebol yn Nogfen Gymeradwy L (e.e. paragraff 8.1b), er mwyn sicrhau cysondeb.

**Ymateb y Llywodraeth i gwestiwn 23**

2.89 Roedd mwyafrif bychan o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynigion. Ar ôl ystyried yr ymatebion, rydym yn cynnig diwygio rhai o'r canllawiau, gan gynnwys:

- Cysoni'r geiriad yn Nogfen Gymeradwy F, Cyfrol 1 ymhellach â Dogfen Gymeradwy L1, Cyfrol 1 mewn perthynas â chomisiynu.
- Mae'r cynnig i fesur perfformiad systemau (pŵer trydanol) ar gyfer systemau awyru canolog yn cael ei ddileu.

2.90 Tynnodd llawer o ymatebwyr sylw at yr angen am well sgiliau a hyfforddiant, ac atebolrwydd i osodwyr a chomisiynwyr. Ar y cyd â'r Rheoleiddiwr

Diogelwch Adeiladau, rydym yn adolygu elfennau o Gynlluniau Personau Cymwys.

**Cwestiwn 24: A ydych o'r farn bod y canllawiau ar gomisiynu cyfleusterau storio dŵr poeth yn Adran 8 o'r fersiwn ddrafft o Ddogfen Gymeradwy L, Cyfrol 1: Anheddau yn ddigonol i sicrhau eu bod yn cael eu comisiynu'n gywir?**

| **Cwestiwn 24: A ydych o'r farn bod y canllawiau ar gomisiynu cyfleusterau storio dŵr poeth yn Adran 8 o'r fersiwn ddrafft o Ddogfen Gymeradwy L, Cyfrol 1: Anheddau yn ddigonol i sicrhau eu bod yn cael eu comisiynu'n gywir?** | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Pawb a ymatebodd | Pensaer | Adeiladwr/Datblygwr | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Gweithiwr Proffesiynol ym maes Adeiladu | Dylunydd/Peiriannydd/Syrfëwr | Asesydd Ynni | Sector ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/cadwyn gyflenwi | Parti Arall â Diddordeb (rhowch fanylion) | Rheolwr Eiddo/Cymdeithas Tai/Landlord | Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu | Adeiladwr bach/canolig | Heb ei nodi | Adeiladwr tai mawr |
| **Cyfanswm** | **43** | **3** | **2** | **1** | **1** | **4** | **1** | **1** | **8** | **6** | **11** | **3** | **1** | **0** | **0** | **1** |
| a. Ydw | 51% | 0% | 100% | 0% | 0% | 50% | 100% | 0% | 88% | 33% | 36% | 67% | 100% | 0% | 0% | 100% |
| b. Nac ydw | 2% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 100% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| c. Ddim yn siŵr | 47% | 100% | 0% | 100% | 100% | 50% | 0% | 0% | 13% | 67% | 64% | 33% | 0% | 0% | 0% | 0% |

2.91 O'r 43 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, roedd mwyafrif bach (51%) yn cytuno â'r cynnig. Dim ond nifer bach (2%) a oedd yn anghytuno â'r cynnig, ac roedd nifer sylweddol (47%) yn ansicr.

**Rhesymau dros gefnogi'r cynnig:**

- **Canllawiau digonol**: Credir bod y canllawiau'n ddigonol ochr yn ochr â chyfarwyddiadau gosod gan wneuthurwyr.
- **Mae'n gyson ag arferion presennol**: Pwysleisiodd gwneuthurwyr fod y canllawiau'n gyson â'r cynllun meincnodi presennol, ac ystyrir mai hynny yw'r weithdrefn safonol. Mae geiriad y ddogfen ynghylch comisiynu yn unol â chyfarwyddiadau gwneuthurwyr yn cyd-fynd â'r arferion presennol.

**Rhesymau dros wrthwynebu'r cynnig:**

- **Gormod o fanylder**: Dylai'r Ddogfen Gymeradwy fod yn llai manwl. Dylai gyfeirio at Safonau Prydeinig cenedlaethol ar gyfer canllawiau ar wasanaethu.

**Rhesymau dros ddewis "Ddim yn siŵr"**

- **Cwestiwn ynghylch y gofyniad comisiynu**: Mae'r geiriad yn rhagnodi y dylai prosesau comisiynu gyd-fynd â chyfarwyddiadau gwneuthurwyr.

Roedd un ymatebydd yn ansicr ynglŷn â pha fater penodol roedd angen mynd i'r afael ag ef mewn perthynas â chomisiynu o ystyried y ffaith bod y Ddogfen Gymeradwy yn cynnig y dylai comisiynu gael ei wneud yn unol â gofynion gwneuthurwyr.

- **Yr angen am lwybr cymhwysedd**: Nododd un ymatebydd fod angen llwybr cymhwysedd i'w ddilyn a chynlluniau cofrestru trydydd parti.
- **Dylid ystyried meddalu**: Pwysleisiodd un ymatebydd y posibilrwydd y bydd calchgen yn cronni'n gyflym, hyd yn oed mewn ardaloedd dŵr meddal. Dylai meddalu ac arbenigedd lleol gael eu hystyried bob amser.

**Pwynt ychwanegol a godwyd**

- **Rheoli legionella mewn anheddau**: Mae Adran 5.15 o Ddogfen Gymeradwy L, Cyfrol 1 yn cyfeirio at Ddogfen Gymeradwy G am ganllawiau ar derfynau tymheredd er mwyn rheoli legionella mewn systemau dŵr poeth domestig. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod y canllawiau hyn wedi'u bwriadu ar gyfer gweithleoedd yn hytrach nag anheddau. Felly, gofynnir am ganllawiau mwy perthnasol/penodol ar gyfer rheoli legionella mewn anheddau.

### Cwestiwn 25: A ydych yn ymwybodol o unrhyw fylchau yn ein canllawiau ynghylch comisiynu pympiau gwres, neu unrhyw ganllawiau gan drydydd parti y byddai'n ddefnyddiol inni gyfeirio atynt?

**Cwestiwn 25: A ydych yn ymwybodol o unrhyw fylchau yn ein canllawiau ynghylch comisiynu pympiau gwres, neu unrhyw ganllawiau gan drydydd parti y byddai'n ddefnyddiol inni gyfeirio atynt?**

| | Pawb a ymatebodd | Pensaer | Adeiladwr/Datblygwr | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Gweithiwr Proffesiynol ym maes Adeiladu | Dylunydd/Peiriannydd/Syrfëwr | Asesydd Ynni | Sector ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/cadwyn gyflenwi | Parti Arall â Diddordeb (rhowch fanylion) | Rheolwr Eiddo/Cymdeithas Tai/Landlord | Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu | Adeiladwr bach/canolig | Heb ei nodi | Adeiladwr tai mawr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **45** | **3** | **2** | **1** | **1** | **5** | **1** | **1** | **8** | **6** | **12** | **3** | **1** | **0** | **0** | **1** |
| a. Ydw | 29% | 0% | 0% | 0% | 100% | 60% | 0% | 100% | 25% | 33% | 25% | 33% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| b. Nac ydw | 31% | 0% | 100% | 0% | 0% | 0% | 100% | 0% | 38% | 17% | 33% | 33% | 100% | 0% | 0% | 100% |
| c. Ddim yn siŵr | 40% | 100% | 0% | 100% | 0% | 40% | 0% | 0% | 38% | 50% | 42% | 33% | 0% | 0% | 0% | 0% |

2.92 O'r 45 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, cafwyd niferoedd tebyg o atebion “Ydw” (29%) a “Nac ydw” (31%) i'r cynnig hwn. Roedd nifer sylweddol (40%) yn ansicr.

**Bylchau yn y canllawiau ar gomisiynu pympiau gwres**

- **Rheolaeth cyfadfer ar gyfer y tywydd**: Un bwlch a godwyd oedd problemau wrth bennu'r gromlin cyfadfer ar gyfer y tywydd. Argymhellodd un ymatebydd y dylid defnyddio dull comisiynu Heat Geek i bennu cromliniau gwresogi er mwyn cyfadfer ar gyfer y tywydd.
- **Dim cyfeiriad at bympiau gwres o'r aer**: Codwyd pryderon fod Adran 8.11 yn cyfeirio at bympiau gwres o'r ddaear ac nid pympiau gwres o'r aer.

**Canllawiau trydydd parti y gallai fod yn ddefnyddiol cyfeirio atynt**

- **Cynllun Tystysgrifau Microgynhyrchu (MCS)**: Yr awgrym mwyaf cyffredin oedd defnyddio safonau MCS ar gyfer dylunio a gosod. Mae hyn yn cynnwys MIS-3005-I a MIS-3005-D.
- **Argymhellion eraill**:
  - Llawlyfr Gwneud Cais (AM) CIBSE 16 (2021)
  - Rhestrau gwirio a chanllawiau cyhoeddedig a baratowyd gan y Gymdeithas Pympiau Gwres (HPA)
  - Canllaw CIBSE ar ddylunio systemau gwresogi domestig (2021)
  - Y Gymdeithas Pympiau Gwres o'r Ddaear (GSHPA), *Good Practice Guide for Ground Source Heating & Cooling* (2017),
  - Ymddiriedolaeth Passivhaus, *Air-to-water heat pumps: The basics of energy efficiency* (2024)
  - Dilyn dulliau a hyrwyddir gan 'Heat Geek'

## Cwestiwn 26: A ydych o'r farn bod y canllawiau ar gyfer comisiynu systemau storio trydan ar y safle yn Adran 8 o'r fersiwn ddrafft o Ddogfen Gymeradwy L, Cyfrol 1: Anheddau yn ddigonol i sicrhau eu bod yn cael eu comisiynu'n gywir?

**Cwestiwn 26: A ydych o'r farn bod y canllawiau ar gyfer comisiynu systemau storio trydan ar y safle yn Adran 8 o'r fersiwn ddrafft o Ddogfen Gymeradwy L, Cyfrol 1: Anheddau yn ddigonol i sicrhau eu bod yn cael eu comisiynu'n gywir?**

| | Pawb a ymatebodd | Pensaer | Adeiladwr/Datblygwr | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Gweithiwr Proffesiynol ym maes Adeiladu | Dylunydd/Peiriannydd/Syrfëwr | Asesydd Ynni | Sector ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/cadwyn gyflenwi | Parti Arall â Diddordeb (rhowch fanylion) | Rheolwr Eiddo/Cymdeithas Tai/Landlord | Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu | Adeiladwr bach/canolig | Heb ei nodi | Adeiladwr tai mawr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **41** | **3** | **2** | **0** | **1** | **4** | **1** | **0** | **8** | **6** | **11** | **3** | **1** | **0** | **0** | **1** |
| a. Ydw | 37% | 33% | 50% | 0% | 0% | 25% | 100% | 0% | 63% | 0% | 27% | 67% | 0% | 0% | 0% | 100% |
| b. Nac ydw | 7% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 9% | 33% | 100% | 0% | 0% | 0% |
| c. Ddim yn siŵr | 56% | 67% | 50% | 0% | 100% | 75% | 0% | 0% | 38% | 100% | 64% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |

2.93 O'r 41 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, roedd 37% yn cytuno bod y canllawiau'n ddigonol, ar roedd 7% yn anghytuno. Roedd nifer sylweddol (56%) yn ansicr.

**Rhesymau dros gefnogi'r cynnig**

- **Cysondeb o ran pwyslais**: Roedd rhai ymatebwyr yn cydnabod pwysigrwydd comisiynu cadarn, gan bwysleisio y bydd cysondeb â safon gomisiynu ehangach, megis MCS MIS 3012, yn fuddiol.

**Rhesymau dros wrthwynebu'r cynnig**

- **Mwy o eglurder**: Er bod ymrwymiad cyffredinol i safon MCS yn cael ei ystyried yn beth da, dylid cynnwys mwy o fanylion yng ngeiriad y datganiad hwn. Dylai hyn gynnwys cyfeiriad at gyfarwyddiadau gwneuthurwyr ac Adran 6.1 o ganllawiau MCS.
- **Storio batris**: Byddai'n ddefnyddiol cael canllawiau ar ddefnyddio a lleoli cyfleusterau storio batris yn ddiogel.
- **Lleoliad gwrthdroyddion solar a chyfleusterau storio batris**: Wrth i nifer cynyddol o araeau solar ffotofoltäig gael eu mabwysiadu, dylid ystyried gwaith ymchwil a chanllawiau pellach ar gyfer lleoli gwrthdroyddion solar a chyfleusterau storio batris yn briodol, yn enwedig mewn perthynas â risg tân a mynediad ar gyfer cynnal a chadw.

**Pwyntiau ychwanegol a godwyd gan y rhai a ddewisodd “Ddim yn siŵr”**

- **Risgiau sy'n gysylltiedig â namau a thân:** Dylid ychwanegu mwy o fanylder ynglŷn â risgiau sy'n gysylltiedig â thân. Argymhellodd un ymatebydd y dylid cyfeirio at ‘PAS 63100:2024 Electrical installations. Protection against fire of battery energy storage systems for use in dwellings.’.

**Ymateb y Llywodraeth i gwestiynau 24, 25 ac 26**

2.94 Mewn perthynas â chwestiwn 24 a chomisiynu cyfleusterau storio dŵr poeth, o'r rhai a atebodd “Ydw” neu “Nac ydw”, roedd y mwyafrif helaeth yn cytuno â'r cynigion, felly rydym yn cynnig rhoi'r cynigion hyn ar waith yn unol â'r bwriad.

2.95 Mewn perthynas â chwestiwn 25, sy'n gofyn a oes unrhyw fylchau yn ein canllawiau ar gomisiynu pympiau gwres, roedd mwyafrif bychan yn cytuno nad oes bylchau, felly rydym yn cynnig rhoi'r cynigion hyn ar waith yn unol â'r bwriad.

2.96 Mewn perthynas â chwestiwn 26 ynglŷn â chanllawiau ar gomisiynu cyfleusterau storio trydan ar y safle, o'r rhai a atebodd “Ydw” neu “Nac ydw”, roedd y mwyafrif helaeth yn cytuno â'r cynigion, felly rydym yn cynnig rhoi'r cynigion hyn ar waith yn unol â'r bwriad.

2.97 Hefyd, codwyd pryder ynglŷn â risgiau tân posibl a achosir gan gyfleusterau storio trydan ar y safle, a nodir hynny. Rydym yn cynnig adolygu rhannau penodol o Ddogfen Gymeradwy B yn 2026, a chaiff y maes hwn ei ystyried fel rhan o'r gwaith hwnnw.

**Cwestiwn 27: A ydych yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig i Ddogfen Gymeradwy L, Cyfrol 1: Anheddau a Dogfen Gymeradwy F, Cyfrol 1: Anheddau i (a) egluro'r opsiynau ar gyfer ardystio gwasanaethau adeiladau sefydlog a gaiff eu gosod a (b) nodi'r opsiynau gorfodi sydd ar gael pan na fydd gwaith yn cyrraedd y safon ofynnol?**

**Cwestiwn 27: A ydych yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig i Ddogfen Gymeradwy L, Cyfrol 1: Anheddau a Dogfen Gymeradwy F, Cyfrol 1: Anheddau i (a) egluro'r opsiynau ar gyfer ardystio gwasanaethau adeiladau sefydlog a gaiff eu gosod a (b) nodi'r opsiynau gorfodi sydd ar gael pan na fydd gwaith yn cyrraedd y safon ofynnol?**

| | Pawb a ymatebodd | Pensaer | Adeiladwr/Datblygwr | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Gweithiwr Proffesiynol ym maes Adeiladu | Dylunydd/Peiriannydd/Syrfëwr | Asesydd Ynni | Sector ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/cadwyn gyflenwi | Parti Arall â Diddordeb (rhowch fanylion) | Rheolwr Eiddo/Cymdeithas Tai/Landlord | Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu | Adeiladwr bach/canolig | Heb ei nodi | Adeiladwr tai mawr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **45** | **3** | **2** | **0** | **1** | **4** | **1** | **1** | **8** | **7** | **13** | **3** | **1** | **0** | **0** | **1** |
| a. Ydw | 56% | 33% | 50% | 0% | 0% | 50% | 100% | 100% | 50% | 43% | 54% | 100% | 100% | 0% | 0% | 100% |
| b. Nac ydw | 16% | 0% | 0% | 0% | 100% | 25% | 0% | 0% | 38% | 14% | 8% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| c. Ddim yn siŵr | 29% | 67% | 50% | 0% | 0% | 25% | 0% | 0% | 13% | 43% | 38% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |

2.98 O'r 45 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, roedd y mwyafrif (56%) yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig, roedd 16% yn anghytuno ac roedd 29% yn ansicr.

### Adborth gan y rhai a oedd yn cefnogi'r cynnig

2.99 Pwysleisiodd yr ymatebwyr fod y newidiadau arfaethedig yn rhoi canllawiau cliriach ar ardystio a gorfodi. Gwnaethant yr argymhelliad canlynol hefyd.

- **Cwmpas cynlluniau hunanardystio**: Mae angen canllawiau ychwanegol er mwyn amlinellu'r cwmpas yn glir o ran pa elfennau y bydd angen eu hardystio er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau, a phryd y gellir rhoi tystysgrif.

### Rhesymau dros wrthwynebu'r cynnig

- **Adnoddau cyfyngedig ym maes rheoli adeiladu**: Cododd yr ymatebwyr bryderon nad oes gan swyddogion rheoli adeiladu yr adnoddau na'r arbenigedd sy'n ofynnol er mwyn ardystio rhai gosodiadau. Gosodwyr â chymhwysedd addas ddylai fod yn gyfrifol am ardystio.

- **Cyfyngiadau hunanardystio**: Cododd rhai ymatebwyr bryderon ei bod yn bosibl na fydd llwybrau hunanardystio bob amser yn sicrhau gosodiadau sy'n cydymffurfio â'r rheoliadau. Bydd hyn yn arbennig o wir pan na fydd cynlluniau'n cynnwys archwilio ar y safle neu pan mai dim ond archwiliadau ysgrifenedig sy'n ofynnol.
- **Pryderon ynglŷn ag atebolrwydd**: Tynnodd yr ymatebwyr sylw at y posibilrwydd y bydd swyddogion rheoli adeiladu yn cael mwy o gwynion ac atebolrwydd os bydd yn ofynnol iddynt gymeradwyo gosodiadau lle na ddefnyddir Cynllun Personau Cymwys.

### Pwyntiau ychwanegol a godwyd gan y rhai a ddewisodd "Ddim yn siŵr"

- **Opsiynau gorfodi**: Nid oedd digon o wybodaeth am opsiynau gorfodi. Roedd angen mwy o fanylder er mwyn gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth.
- **Cymwysterau cenedlaethol**: Anogir Llywodraeth Cymru i greu cymhwyster cenedlaethol ar gyfer gosod a chomisiynu er mwyn sicrhau gwaith cyflawni o ansawdd da.

### Pwyntiau cyffredinol a wnaed gan yr ymatebwyr

- **Llwybr nad yw'n gysylltiedig â Chynllun Personau Cymwys (CPS)**: Roedd rhai aelodau o ddiwydiant yn teimlo ei bod yn bwysig pwysleisio y gall prosesau comisiynu a gynhelir gan bobl nad ydynt yn aelodau o CPS arwain at waith o ansawdd da sy'n cydymffurfio â'r rheoliadau o hyd.
- **Ôl-osod o gymharu â chodi adeiladau newydd**: Nododd yr ymatebwyr nad yw'r canllawiau'n gwahaniaethu rhwng ôl-osod (lle y bydd yn aml yn bosibl defnyddio CPS i osgoi cynnwys swyddogion rheoli adeiladu) a chodi adeiladau newydd (lle y bydd yn rhaid cynnwys swyddogion rheoli adeiladu bob amser).
- **Cysondeb rhwng Dogfennau Cymeradwy**: Mae Dogfen Gymeradwy F yn cynnwys datganiad sy'n cadarnhau y bydd awdurdodau lleol yn cadw pwerau arolygu a gorfodi, ond nid yw'r geiriad hwn wedi'i gynnwys yn Nogfen Gymeradwy L. Dylai hyn fod yn gyson rhwng y ddwy ddogfen.

### Ymateb y Llywodraeth i gwestiwn 27

2.100 O'r ymatebwyr a atebodd "Ydw" neu "Nac ydw" i'r cwestiwn hwn, roedd y mwyafrif helaeth yn cytuno, ac felly rydym yn cynnig rhoi'r cynigion hyn ar waith. Awgrymodd llawer o ymatebwyr y bydd angen sgiliau a hyfforddiant ychwanegol ar gyfer gosodwyr. Noder ein bod, ar y cyd â'r Rheoleiddiwr Diogelwch Adeiladu, yn adolygu elfennau o Gynlluniau Person Cymwys.

# 3. Safonau Rhan L, Rhan F a Rhan O ar gyfer Anheddau Presennol yn 2025 (Cwestiynau 28 i 47)

3.1 Roedd Pennod 3 yr ymgynghoriad yn cynnwys ein cynigion ar gyfer newidiadau i'r ffordd y caiff y Rheoliadau Adeiladu eu cymhwyso at anheddau presennol. Gwnaethom gynnig y newidiadau canlynol:

- Codiad yn safonau effeithlonrwydd ynni gwasanaethau adeiladau.
- Diwygiadau i Ddogfennau Cymeradwy L a F er mwyn gwella'r prosesau dylunio, gosod a chomisiynu ar gyfer gwasanaethau adeiladau sefydlog mewn anheddau presennol.
- Gofyniad ar gyfer ynni adnewyddadwy mewn estyniadau sylweddol.
- Ehangu Rhan O o'r Rheoliadau Adeiladu er mwyn cwmpasu gwaith risg uwch ar anheddau presennol.

**Crynodeb o'r ymatebion:**

**Cwestiwn 28: A ydych yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig i effeithlonrwydd a rheolaethau gofynnol gwasanaethau adeiladau a nodir yn Adran 6 o'r fersiwn ddrafft o Ddogfen Gymeradwy L, Cyfrol 1: Anheddau?**

| **Cwestiwn 28: A ydych yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig i effeithlonrwydd a rheolaethau gofynnol gwasanaethau adeiladau a nodir yn Adran 6 o'r fersiwn ddrafft o Ddogfen Gymeradwy L, Cyfrol 1: Anheddau?** | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Pawb a ymatebodd | Pensaer | Adeiladwr/Datblygwr | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Gweithiwr Proffesiynol ym maes Adeiladu | Dylunydd/Peiriannydd/Syrfëwr | Asesydd Ynni | Sector ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/cadwyn gyflenwi | Parti Arall â Diddordeb (rhowch fanylion) | Rheolwr Eiddo/Cymdeithas Tai/Landlord | Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu | Adeiladwr bach/canolig | Heb ei nodi | Adeiladwr tai mawr |
| **Cyfanswm** | **44** | **3** | **2** | **0** | **1** | **4** | **1** | **0** | **8** | **7** | **15** | **3** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| a. Ydw | 57% | 33% | 0% | 0% | 100% | 50% | 100% | 0% | 88% | 57% | 40% | 100% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| b. Nac ydw | 14% | 0% | 0% | 0% | 0% | 25% | 0% | 0% | 0% | 14% | 27% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| c. Ddim yn siŵr | 30% | 67% | 100% | 0% | 0% | 25% | 0% | 0% | 13% | 29% | 33% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |

3.2 O'r 44 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, roedd y mwyafrif (57%) yn cytuno â'r cynnig. Roedd 14% yn anghytuno â'r cynnig, ac roedd 30% yn ansicr.

**Adborth gan y rhai a oedd yn cefnogi'r cynnig**

3.3 Rhesymau dros gefnogi'r cynnig.

- **Cefnogaeth i leihau'r galw am ynni**: Gwell arbedion effeithlonrwydd ar

gyfer systemau, a ddylai arwain at lai o alw am ynni.

- **Cysondeb â gofynion eraill**: Cefnogaeth i'r ffaith bod y cynigion yn gyson â gofynion eraill. Mae hyn yn cynnwys Rhan L yn Lloegr, Rheoliadau Ecoddylunio ar gyfer pympiau gwres, a Chyfarwyddebau Ewropeaidd ar Ecolabelu Ecoddylunio.

3.4 Yn ogystal â hynny, gwnaed yr argymhellion canlynol.

- **Hyfforddi a gwirio:** Awgrymwyd bod angen hyfforddiant parhaus a phrosesau parhaus ar gyfer gwirio perfformiad systemau
- **Cyflwyno perfformiad pympiau gwres**: Gofynnodd rhai am ddiwygiad i Dabl 6.1 i ddangos y SCOP isaf ar gyfer pympiau gwres. Caiff gofynion effeithiolrwydd gofynnol ar gyfer technolegau eraill eu cynnwys yn y tabl hwn, e.e. boeleri nwy ac olew. Felly, bydd hyn yn sicrhau cysondeb rhwng technolegau.

**Rhesymau dros wrthwynebu'r cynnig**

- **Mwy o amrywiaeth o safonau gofynnol ar gyfer effeithiolrwydd goleuadau**: Awgrymwyd dull haenog, gyda safonau effeithlonrwydd sylfaenol gwahanol ar gyfer gwahanol gategorïau o oleuadau (er enghraifft, 105 lm/W o leiaf ar gyfer ffynonellau golau cyffredinol a 65 lm/W o leiaf ar gyfer ffynonellau golau â phurdeb cyffroad uchel). Byddai hyn yn osgoi cyfyngu'n anfwriadol ar y defnydd o oleuadau arbenigol o ansawdd da.
- **Dylid cynyddu'r safonau gofynnol ar gyfer gwerthoedd U**: Dylid gwella'r safonau gofynnol ar gyfer gwerthoedd U drysau a ffenestri gan fod cynhyrchion sy'n perfformio'n well yn gyffredin yn y farchnad.
- **Dylid cynyddu'r safonau gofynnol ar gyfer pympiau gwres**: Dylai effeithlonrwydd tymhorol pympiau gwres fod o leiaf 3.5 a dylid modelu hyn gan ddefnyddio proffil penodol ar gyfer colli gwres o adeiladau a hinsawdd leol fel PHPP.
- **Gwres rheiddiol trydan**: Dylai gwres rheiddiol trydan gael ei gadw ar wahân i systemau gwresogi trydan eraill a'i gynnwys fel is-adran o fewn Adran 6. Dylai hyn fod yn seiliedig ar y protocolau prawf drafft a ddatblygwyd gan y diwydiant ar gyfer asesu gwresogyddion isgoch, drwy ymgynghori â'r Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BRE), yr Adran Diogeledd Ynni a Sero Net, ac academyddion blaenllaw.
- **Pryderon ynglŷn â lleithder a phontio thermol**: Gallai'r gwerthoedd U sylfaenol arwain at wahaniaethau mawr rhwng gwerthoedd U elfennau thermol newydd a phresennol cyffiniol. Gallai hyn greu problemau lleithder a phontio thermol. Awgrymwyd y dylid cadw'r gwerthoedd U cyfyngol ar gyfer elfennau newydd ac estyniadau ar yr un lefel â 2014.

**Pwyntiau ychwanegol a godwyd gan y rhai a ddewisodd "Ddim yn siŵr"**

- **Cyfrifo perfformiad MVHR**: Mae angen cyfeirio at y dull o gyfrifo effeithlonrwydd adfer gwres ar gyfer MVHR yn y Ddogfen Gymeradwy.
- **Cyfrifo perfformiad pympiau gwres**: Gallai ffactor perfformiad tymhorol pympiau gwres gael ei gyfrifo ar sail y Model Ynni Cartrefi.

**Ymateb y Llywodraeth i gwestiwn 28**

3.5 Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig i'r safonau gofynnol ar gyfer effeithlonrwydd a rheolaethau gwasanaethau adeiladau. Ar y sail hon, rydym yn cynnig cyflwyno'r safonau newydd.

3.6 Fodd bynnag, yn sgil yr adborth a gafwyd, byddwn yn gwneud y newid canlynol i'w gynnwys yn y Ddogfen Gymeradwy derfynol:

3.7 Goleuadau – Dogfen Gymeradwy L, Cyfrol 1: Anheddau, Adran 6, rydym yn bwriadu cynnwys y safonau canlynol:

- 105 lm/W o leiaf o effeithiolrwydd goleuol gyfer ffynonellau golau cyffredinol safonol
- 80 lm/W o leiaf ar gyfer dyfeisiau LED tiwnadwy neu ffynonellau golau â CRI ≥ 95
- 65 lm/W o leiaf ar gyfer ffynonellau golau â phurdeb cyffroad uchel

**Cwestiwn 29: A ydych yn cytuno â'r cynnig i gynnwys canllawiau ychwanegol mewn perthynas â rheolaethau pympiau gwres ar gyfer anheddau, fel y nodir yn Adran 6 o'r fersiwn ddrafft o Ddogfen Gymeradwy L, Cyfrol 1: Anheddau?**

| **Cwestiwn 29: A ydych yn cytuno â'r cynnig i gynnwys canllawiau ychwanegol mewn perthynas â rheolaethau pympiau gwres ar gyfer anheddau, fel y nodir yn Adran 6 o'r fersiwn ddrafft o Ddogfen Gymeradwy L, Cyfrol 1: Anheddau?** | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Pawb a ymatebodd | Pensaer | Adeiladwr/Datblygwr | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Gweithiwr Proffesiynol ym maes Adeiladu | Dylunydd/Peiriannydd/Syrfëwr | Asesydd Ynni | Sector ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/cadwyn gyflenwi | Parti Arall â Diddordeb (rhowch fanylion) | Rheolwr Eiddo/Cymdeithas Tai/Landlord | Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu | Adeiladwr bach/canolig | Heb ei nodi | Adeiladwr tai mawr |
| **Cyfanswm** | **42** | **3** | **2** | **0** | **1** | **5** | **1** | **0** | **8** | **5** | **13** | **3** | **1** | **0** | **0** | **0** |
| a. Ydw | 69% | 33% | 0% | 0% | 100% | 100% | 100% | 0% | 100% | 40% | 54% | 100% | 100% | 0% | 0% | 0% |
| b. Nac ydw | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| c. Ddim yn siŵr | 31% | 67% | 100% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 60% | 46% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |

3.8 O'r 42 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, roedd y mwyafrif (69%) yn cytuno â'r cynnig ac nid oedd yr un o'r ymatebwyr yn anghytuno. Dywedodd 31% eu bod yn ansicr.

### Adborth gan y rhai a oedd yn cefnogi'r cynnig

3.9 Gwnaed yr argymhellion canlynol.

- **Mwy o addysg i ddefnyddwyr**: Mae angen mwy o addysg i landlordiaid, tenantiaid a pherchnogion tai. Mae angen gwybodaeth a chanllawiau ymarferol ac annhechnegol ar sut i weithredu'r gwasanaethau yn eu cartrefi er mwyn gwireddu eu manteision yn llawn.
- **Rheoliadau Systemau Trydan Clyfar a Diogel yr Adran Diogeledd Ynni a Sero Net**: Dylid ystyried y gofynion sylfaenol ar gyfer rheoli pympiau gwres y gall fod eu hangen o dan Reoliad Systemau Trydan Clyfar a Diogel yr Adran Diogeledd Ynni a Sero Net. Mae'r rhain wedi'u bwriadu ar gyfer sefyllfaoedd lle y caiff y system wresogi ei rheoli gan drydydd parti er mwyn cefnogi hyblygrwydd y grid a'r ymateb ar ochr y galw.
- **Diwygiad i Adran 6.3**: Dylai Adran 6.3 nodi y dylai fod gan bympiau gwres reolaethau allanol sy'n cynnwys system cyfadfer ar gyfer y tywydd a dull rheoli'r tymheredd mewnol ac amserydd/rhaglennydd, gan fod angen rheolaeth fewnol a chyfadfer ar gyfer y tywydd.
- **Diwygiad i Adran 6:** Dylai Adran 6.4 gael ei geirio mewn ffordd sy'n nodi'n glir y dylai fod gan aelwydydd wresogydd eilaidd nad oes angen iddo gael ei reoli gan reolydd y pwmp gwres, gan y byddai hyn yn anymarferol.
- **Diwygiadau i Adrannau 5.22 i 5.24:** Mae Adrannau 5.22 i 5.24 yn nodi rheolaethau a ddefnyddir ar gyfer boeleri tanwydd ffosil yn bennaf ac felly nad ydynt yn berthnasol i bympiau gwres.
- **Systemau gwresogi hybrid**: Dylid ystyried y gofynion rheoli sylfaenol ar gyfer systemau gwresogi hybrid, ac awgrymwyd y dylid cysoni fel rhan o safonau dylunio MCS MIS 3005-D.

### Pwyntiau a godwyd gan y rhai a ddewisodd “Ddim yn siŵr”

- **Rheolaethau clir a hygyrch**: Dylai unrhyw ganllawiau newydd ar reolaethau gael eu hadlewyrchu yng nghofnodlyfr yr adeilad neu ym mhasbort digidol yr adeilad er mwyn sicrhau y cânt eu cadw drwy gydol oes yr annedd.
- **Pryderon ynglŷn â dehongli**: Efallai y byddai'n fwy defnyddiol dyfynnu canllawiau eilaidd, megis safon Brydeinig. Byddai hyn yn atal y Ddogfen Gymeradwy rhag cynnwys gormod o ganllawiau technegol, a fyddai'n ei gwneud yn anodd ei dehongli.

### Ymateb y Llywodraeth i gwestiwn 29

3.10 Roedd mwyafrif sylweddol o'r ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig i gynnwys canllawiau ychwanegol ar reolaethau pympiau gwres ar gyfer anheddau, ac ni fynegodd yr un o'r ymatebwyr eu bod yn anghytuno. Felly, rydym yn bwriadu cyflwyno'r canllawiau ychwanegol hyn yn y Ddogfen Gymeradwy derfynol.

**Cwestiwn 30: A ydych yn cytuno y dylai gwybodaeth am weithredu a chynnal a chadw gael ei gosod ar unedau pympiau gwres mewn anheddau presennol?**

| Cwestiwn 30: A ydych yn cytuno y dylai gwybodaeth am weithredu a chynnal a chadw gael ei gosod ar unedau pympiau gwres mewn anheddau presennol? | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Pawb a ymatebodd | Pensaer | Adeiladwr/Datblygwr | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Gweithiwr Proffesiynol ym maes Adeiladu | Dylunydd/Peiriannydd/Syrfëwr | Asesydd Ynni | Sector ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/cadwyn gyflenwi | Parti Arall â Diddordeb (rhowch fanylion) | Rheolwr Eiddo/Cymdeithas Tai/Landlord | Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu | Adeiladwr bach/canolig | Heb ei nodi | Adeiladwr tai mawr |
| **Cyfanswm** | **43** | **3** | **2** | **0** | **1** | **5** | **1** | **1** | **8** | **5** | **13** | **3** | **1** | **0** | **0** | **0** |
| a. Ydw | 60% | 67% | 0% | 0% | 100% | 80% | 100% | 0% | 100% | 20% | 46% | 67% | 100% | 0% | 0% | 0% |
| b. Nac ydw | 9% | 0% | 0% | 0% | 0% | 20% | 0% | 0% | 0% | 40% | 8% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| c. Ddim yn siŵr | 30% | 33% | 100% | 0% | 0% | 0% | 0% | 100% | 0% | 40% | 46% | 33% | 0% | 0% | 0% | 0% |

3.11 O'r 43 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, roedd y mwyafrif (60%) yn cytuno â'r cynnig. O gymharu â hynny, roedd 9% yn anghytuno ac roedd 30% yn ansicr.

**Adborth gan y rhai a oedd yn cefnogi'r cynnig**

3.12 Awgrymiadau ar gyfer newidiadau neu ychwanegiadau i'r cynnig oedd yr adborth a gafwyd ar y cyfan.

- **Cynnwys gwybodaeth ar ffurfiau eraill**: Yn ogystal â gosod y cyfarwyddiadau ar y cyfarpar, dylai'r un wybodaeth gael ei chynnwys yng nghofnodlyfr neu basbort digidol yr adeilad.
- **Cynnwys gwybodaeth ychwanegol**: Yn ogystal â rhannu gwybodaeth am weithredu a chynnal a chadw, dylai data comisiynu'r cyfarpar hefyd gael eu cynnwys yn y pecyn.
- **Lleoliad gosod pecynnau'n sownd**: Mae'n bosibl na fydd yn briodol gosod pecynnau gwybodaeth mewn lleoliadau allanol. Hefyd, ceir risg y bydd gwybodaeth a gaiff ei diweddaru'n nes ymlaen yn cael ei storio mewn lleoliad gwahanol i'r wybodaeth wreiddiol, a fyddai'n peri dryswch.
- **Addysg i ddefnyddwyr**: Mae angen i berchnogion gael gwybodaeth ymarferol ac annhechnegol a chanllawiau hawdd eu deall.

**Rhesymau dros wrthwynebu'r cynnig**

- **Anymarferol**: Mae'r cynnig yn anymarferol, oherwydd gallai gosod y wybodaeth mewn lleoliad allanol arwain at ddifrod i'r pecyn yn sgil y tywydd, yn ogystal â phroblemau o ran rhoi hyn ar waith yn y ffatri.
- **Lleihau faint o wybodaeth sydd**: Mae'r wybodaeth arfaethedig yn hir ac mae'n bosibl na fydd yn addas i ddefnyddwyr o ran estheteg. Dylai gael ei

llunio gan y dylunydd a'r gosodwr, ac nid o reidrwydd y gwneuthurwr.

- **Darparu gwybodaeth amgen**: Gwnaed amrywiaeth o awgrymiadau yma. Un awgrym oedd y gellid cynnwys set fwy cyfyngedig o wybodaeth yn fewnol ar y cyfleuster storio dŵr poeth neu flwch rheoli'r pwmp gwres. Awgrym arall oedd y gellid cynnwys dogfennau comisiynu meincnod yn y pecyn, sydd wedi cael ei gyflwyno gan y Gymdeithas Pympiau Gwres.
- **Ymholiadau ynglŷn â'r wybodaeth i'w chyflwyno**: Ymholiadau ynglŷn ag eitemau b (tymheredd llif dyluniad y system pwmp gwres) a d (maint y gylched allyrru) a restrir yn y Ddogfen Gymeradwy ddrafft am ei bod yn ymddangos eu bod yn gofyn am yr un wybodaeth. Ar ben hynny, cafwyd cwestiwn ynghylch y disgwyliadau o ran pwy a fyddai'n cyfrifo'r tymereddau ailosod gofynnol a beth fyddai diben hyn gan nad yw'n rhan o unrhyw gyfrifiad arferol ar gyfer system wresogi.

**Pwyntiau ychwanegol a godwyd gan y rhai a ddewisodd "Ddim yn siŵr"**

- **Cofnodi data digidol**: Dylai'r wybodaeth hefyd gael ei chofnodi yng nghofnodlyfr a phasbort digidol yr adeilad, yn ogystal â chael ei rhoi ar y cyfarpar ei hun. Gall y fformat digidol roi'r wybodaeth arfaethedig, yn ogystal â data comisiynu, i ddefnyddwyr a pheirianwyr. Mae'n bosibl y byddai hyn yn ateb gwell na gosod y cyfarwyddiadau ar y cyfarpar.

### Cwestiwn 31: A ydych o'r farn bod y wybodaeth am weithredu a chynnal a chadw a nodir yn Adran 10 o'r fersiwn ddrafft o Ddogfen Gymeradwy L, Cyfrol 1: Anheddau yn ddigonol i sicrhau bod pympiau gwres yn cael eu gweithredu a'u cynnal a'u cadw'n gywir?

**Cwestiwn 31: A ydych o'r farn bod y wybodaeth am weithredu a chynnal a chadw a nodir yn Adran 10 o'r fersiwn ddrafft o Ddogfen Gymeradwy L, Cyfrol 1: Anheddau yn ddigonol i sicrhau bod pympiau gwres yn cael eu gweithredu a'u cynnal a'u cadw'n gywir?**

| | Pawb a ymatebodd | Pensaer | Adeiladwr/Datblygwr | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Gweithiwr Proffesiynol ym maes Adeiladu | Dylunydd/Peiriannydd/Syrfëwr | Asesydd Ynni | Sector ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/cadwyn gyflenwi | Parti Arall â Diddordeb (rhowch fanylion) | Rheolwr Eiddo/Cymdeithas Tai/Landlord | Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu | Adeiladwr bach/canolig | Heb ei nodi | Adeiladwr tai mawr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **45** | **3** | **2** | **0** | **1** | **4** | **1** | **1** | **8** | **6** | **14** | **3** | **1** | **0** | **0** | **1** |
| a. Ydw | 31% | 0% | 0% | 0% | 0% | 50% | 0% | 0% | 63% | 0% | 29% | 33% | 100% | 0% | 0% | 100% |
| b. Nac ydw | 22% | 0% | 0% | 0% | 100% | 25% | 0% | 100% | 13% | 33% | 14% | 67% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| c. Ddim yn siŵr | 47% | 100% | 100% | 0% | 0% | 25% | 100% | 0% | 25% | 67% | 57% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |

3.13 O'r 45 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, roedd 31% yn cytuno â'r cynnig ac roedd 22% yn anghytuno. Roedd nifer sylweddol (47%) yn ansicr.

**Adborth gan y rhai a oedd yn cefnogi'r cynnig**

3.14 Awgrymiadau ar gyfer newidiadau neu ychwanegiadau i'r cynnig oedd yr adborth a gafwyd ar y cyfan.

- **Trosglwyddo**: Dylai gosodwyr pympiau gwres gynnal sesiwn friffio drylwyr ar gyfer rheolwyr adeiladau ar adeg trosglwyddo, er mwyn iddynt ddeall sut i weithredu a chynnal a chadw'r system yn effeithiol gan y bydd llawer o ddefnyddwyr yn anghyfarwydd â phympiau gwres.
- **Addysg i ddefnyddwyr**: Mae angen i berchnogion gael dogfennau canllawiau annhechnegol a hawdd eu deall y dylent ei rhoi i feddianwyr bob tro y caiff pwmp gwres ei osod mewn annedd.

**Rhesymau dros wrthwynebu'r cynnig.**

- **Dim digon o ffocws ar ddefnyddwyr**: Mae angen cyfarwyddiadau ychwanegol sy'n canolbwyntio ar ddefnyddwyr a chanllawiau wedi'u symleiddio er mwyn i ddefnyddwyr weithredu pympiau gwres yn effeithiol. Ar ben hynny, awgrymwyd nad oes sicrwydd y bydd defnyddwyr yn defnyddio'r wybodaeth, yn enwedig mewn llety rhent cymdeithasol.
- **Mae angen gwybodaeth ychwanegol**: Dylai'r canllawiau hefyd gynnwys gwybodaeth arall. Mae hyn yn cynnwys y mesuriad o'r ynni a gollir, lle y bo'n hysbys, a sut yr eir i'r afael â gwahaniaethau rhwng y ffigur hwn a'r gwerth a gyfrifwyd. Hefyd, cyngor ar ddeunydd inswleiddio ar gyfer anheddau presennol sy'n cael eu hôl-osod â phwmp gwres ac addasrwydd technegol ar gyfer y mesuriadau cyn gosod y pwmp gwres. Dylai unrhyw gyngor o'r fath gynnwys asesiad o'r manteision ychwanegol ac arbedion ynni a ragwelir ynghyd â'r lleihad i filiau tanwydd yn sgil inswleiddio a'r rhyngweithio ag effeithlonrwydd pympiau gwres.
- **Dim digon o fanylder i wneuthurwyr allu cydymffurfio**: Ni fydd gwneuthurwyr yn gwybod ble y caiff pwmp gwres ei osod. Felly, ni fyddant yn gallu bodloni'r newid arfaethedig heb eglurhad pellach. Awgrymir y bydd angen i'r defnyddiwr terfynol gael esboniad gan beiriannydd comisiynu o'r ffordd y mae pwmp gwres yn gweithio bob tro y caiff un ei osod.
- **Cynnwys gwybodaeth berthnasol mewn safon**: Er mwyn sicrhau y rhoddir canllawiau digonol, dylai'r manylion gofynnol gael eu nodi mewn safon genedlaethol a ddelir gan y Sefydliad Safonau Prydeinig (BSI) a chyfeirio atynt yn y rheoliadau adeiladu.

**Pwyntiau a godwyd gan y rhai a ddewisodd "Ddim yn siŵr"**

- **Ffurflen gomisiynu safonol**: Dylid datblygu profforma comisiynu safonol i'w gyflwyno i'r corff rheoli adeiladu. Byddai'r profforma hwn yn cynnwys yr holl dystysgrifau comisiynu, a byddai copi'n cael ei roi i berchennog y tŷ ochr yn ochr â gwybodaeth am weithredu a chynnal a chadw sydd wedi'i gosod ar y pwmp gwres.

- **Cofnodi data**: Dylai'r wybodaeth hon gael ei chofnodi yng nghofnodlyfr a phasbort digidol yr adeilad er mwyn cefnogi perfformiad hirdymor.
- **Pryderon ynglŷn â dealltwriaeth**: Ni waeth pa mor glir fydd y cyfarwyddiadau gweithredu a chynnal a chadw, ni fydd pawb yn gallu eu deall yn ddigonol.

**Ymateb y Llywodraeth i gwestiynau 30 a 31**

3.15 Roedd mwyafrif o'r ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig y dylai gwybodaeth am weithredu a chynnal a chadw gael ei gosod ar unedau pympiau gwres mewn anheddau presennol. Felly, rydym yn bwriadu parhau â'r dull hwn. Ar sail yr adborth a gafwyd, byddwn yn adolygu'r canllawiau ac yn ystyried cynnwys darpariaethau ychwanegol ar gyfer sefyllfaoedd lle na fydd yn ymarferol gosod y wybodaeth ofynnol yn uniongyrchol ar yr uned pwmp gwres neu'r cyfleusterau storio dŵr poeth o bosibl.

3.16 Ymateb cymysg a gafwyd i'r cynnig bod y wybodaeth am weithredu a chynnal a chadw a nodir yn Adran 10 o'r fersiwn ddrafft o Ddogfen Gymeradwy L (Cyfrol 1: Anheddau) yn ddigonol i sicrhau bod pympiau gwres yn cael eu gweithredu a'u cynnal a'u cadw'n gywir. At ei gilydd, roedd yr adborth a gafwyd o blaid cynnwys y canllawiau hyn, ac felly cânt eu cynnwys yn y Ddogfen Gymeradwy derfynol. Yn sgil yr adborth i'r ymgynghoriad, byddwn hefyd yn ystyried ychwanegu eglurhad a manylion pellach yn y canllawiau terfynol er mwyn rhoi cymorth ychwanegol.

3.17 Rydym yn cydnabod y cais am ganllawiau pellach i berchnogion tai ar addasrwydd y mesurau effeithlonrwydd ynni, megis ôl-osod deunydd inswleiddio cyn gosod pympiau gwres mewn anheddau presennol. Mae Tabl 12.1 yn Adran 12 o'r fersiwn ddrafft o Ddogfen Gymeradwy L, Cyfrol 1, yn ogystal â'r nodyn yn dilyn paragraff 12.8 yn yr un adran, yn cynnwys gwybodaeth am hyn.[1]

[1] Gweler y wybodaeth hon yn Nhabl 11.1 a'r *nodyn* sy'n dilyn paragraff 11.8 yn y fersiwn gyfredol o Ddogfen Gymeradwy L, Cyfrol 1: Anheddau [22 Edition Approved Document L Volume 1- Dwellings]

## Cwestiwn 32: A ydych yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig i Adran 4 o'r fersiwn ddrafft o Ddogfen Gymeradwy L, Cyfrol 1: Anheddau, sydd â'r nod o gyfyngu ar y gwres a gollir o systemau gwresogi carbon isel?

**Cwestiwn 32: A ydych yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig i Adran 4 o'r fersiwn ddrafft o Ddogfen Gymeradwy L, Cyfrol 1: Anheddau, sydd â'r nod o gyfyngu ar y gwres a gollir o systemau gwresogi carbon isel?**

| | Pawb a ymatebodd | Pensaer | Adeiladwr/Datblygwr | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Gweithiwr Proffesiynol ym maes Adeiladu | Dylunydd/Peiriannydd/Syrfëwr | Asesydd Ynni | Sector ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/cadwyn gyflenwi | Parti Arall â Diddordeb (rhowch fanylion) | Rheolwr Eiddo/Cymdeithas Tai/Landlord | Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu | Adeiladwr bach/canolig | Heb ei nodi | Adeiladwr tai mawr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **44** | **3** | **2** | **0** | **1** | **4** | **1** | **0** | **8** | **7** | **14** | **3** | **0** | **0** | **0** | **1** |
| a. Ydw | 55% | 33% | 0% | 0% | 100% | 75% | 100% | 0% | 88% | 29% | 36% | 100% | 0% | 0% | 0% | 100% |
| b. Nac ydw | 9% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 14% | 21% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| c. Ddim yn siŵr | 36% | 67% | 100% | 0% | 0% | 25% | 0% | 0% | 13% | 57% | 43% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |

3.18 O'r 44 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, roedd y mwyafrif (55%) yn cytuno â'r cynnig gwreiddiol. O gymharu â hynny, roedd 9% yn anghytuno â'r cynnig ac roedd 36% yn ansicr.

### Adborth gan y rhai a oedd yn cefnogi'r cynnig

3.19 Awgrymiadau ar gyfer newidiadau neu ychwanegiadau i'r cynnig oedd yr adborth a gafwyd ar y cyfan.

- **Cyfyngiadau ar waith gosod**: Er bod cyfyngu ar yr ynni a gollir yn hollbwysig, rhaid ystyried cyfyngiadau ar waith gosod hefyd.

### Rhesymau dros wrthwynebu'r cynnig.

3.20 Awgrymodd yr ymatebwyr mai'r un pryderon â'r rhai a godwyd yng Nghwestiwn 21 oedd y rhain. Hefyd, awgrymodd rhai o'r ymatebwyr a oedd yn cefnogi'r cynnig y dylid bwrw golwg dros eu pryderon yng Nghwestiwn 21.

### Ymateb y Llywodraeth i gwestiwn 32

3.21 Roedd mwyafrif o'r ymatebwyr yn cefnogi'r newidiadau arfaethedig i Adran 4 o'r fersiwn ddrafft o ddrafft o Ddogfen Gymeradwy L, Cyfrol 1: Anheddau, sydd â'r nod o leihau'r gwres a gollir o systemau gwresogi carbon isel. Felly, rydym yn bwriadu ymgorffori'r newidiadau hyn yn y Ddogfen Gymeradwy derfynol. Fodd bynnag, yn sgil yr adborth a gafwyd, byddwn yn diwygio'r canllawiau i gael gwared ar y terfyn o 1m o'r annedd a awgrymir ar gyfer y pwmp gwres ac, yn lle hynny, yn cynghori y dylai'r pwmp gwres gael ei osod mor agos at yr annedd ag y bo'n ymarferol, gan ganiatáu mwy o hyblygrwydd/arloesedd yn y gwaith dylunio a gosod.

## Cwestiwn 33: A ydych yn cytuno â'r fethodoleg pennu maint ar gyfer cyfleusterau storio dŵr poeth mewn anheddau newydd?

| Cwestiwn 33: A ydych yn cytuno â'r fethodoleg pennu maint ar gyfer cyfleusterau storio dŵr poeth mewn anheddau newydd? | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Pawb a ymatebodd | Pensaer | Adeiladwr/Datblygwr | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Gweithiwr Proffesiynol ym maes Adeiladu | Dylunydd/Peiriannydd/Syrfëwr | Asesydd Ynni | Sector ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/cadwyn gyflenwi | Parti Arall â Diddordeb (rhowch fanylion) | Rheolwr Eiddo/Cymdeithas Tai/Landlord | Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu | Adeiladwr bach/canolig | Heb ei nodi | Adeiladwr tai mawr |
| **Cyfanswm** | **41** | **3** | **2** | **0** | **1** | **4** | **1** | **0** | **8** | **7** | **11** | **3** | **0** | **0** | **0** | **1** |
| a. Ydw | 46% | 33% | 0% | 0% | 100% | 50% | 100% | 0% | 75% | 0% | 45% | 100% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| b. Nac ydw | 12% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 43% | 9% | 0% | 0% | 0% | 0% | 100% |
| c. Ddim yn siŵr | 41% | 67% | 100% | 0% | 0% | 50% | 0% | 0% | 25% | 57% | 45% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |

3.22 O'r 41 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, roedd 46% yn cytuno â'r cynnig. O gymharu â hynny, roedd 12% yn anghytuno â'r cynnig ac roedd 41% yn ansicr.

**Rhesymau dros gefnogi'r cynnig.**

- **Y fethodoleg arfaethedig**: Mae'r fethodoleg pennu maint yn synhwyrol ac yn cyd-fynd â'r arferion gorau.

3.23 Hefyd, gwnaeth yr ymatebwyr yr argymhellion canlynol.

- **Egwyddorion sylfaenol**: Dylid cynnwys rhai egwyddorion sylfaenol yn hytrach na chyfeirio at safon allanol BS EN 12831-3 yn unig.
- **Dylid cynnwys canllawiau pellach**: Teimlai un ymatebydd nad oedd cyfeiriadau at Ran G yn rhoi digon o eglurder ynglŷn â'r gofynion. Argymhellodd y dylid rhoi canllawiau mwy perthnasol/penodol.

**Rhesymau dros wrthwynebu'r cynnig**

- **Llai o alw**: Mae cynnwys WWHR yn lleihau'r galw ar adeg defnyddio ac nid yw BS EN 12831-3 yn rhoi cyfrif am leihau'r galw ar adeg defnyddio.
- **Pryderon ynglŷn â chadwyni cyflenwi**: Awgrymwyd y byddai'r newid arfaethedig yn sylweddol ac yn golygu y byddai angen cynhyrchion newydd, a fyddai'n cymryd tair blynedd i gyrraedd y farchnad. Heb ddigon o amser i roi'r newidiadau hyn ar waith, byddai effaith andwyol ar y cyflenwad o gynhyrchion. Awgrymwyd y dylid pennu Dosbarth C fel gofyniad sylfaenol, a chysoni â safonau gofynnol Ecoddylunio a Rheoliadau Adeiladu Lloegr.

3.24 Yn ogystal â hynny, awgrymodd sawl ymatebydd hynny gan gyfeirio at y pryderon a godwyd ganddynt yng Nghwestiwn 22.

**Pwyntiau a godwyd gan y rhai a ddewisodd "Ddim yn siŵr"**

- **Mae angen darparu ar gyfer teuluoedd mwy o faint**: Mae'r cynnig yn seiliedig ar feddiannaeth gyfartalog ac nid yw'n darparu ar gyfer teuluoedd mwy o faint.
- **Cymhlethdod y wybodaeth a ddarperir**: Mae'r cyfeiriad at BS EN 12831-3 yn gymhleth ac yn anodd ei ddeall. Ceir risg na fydd gosodwyr yn rhoi'r safon ar waith yn llwyddiannus.

**Ymateb y Llywodraeth i gwestiwn 33**

3.25 Roedd y mwyafrif o'r ymatebion yn cefnogi'r cynnig hwn. Fodd bynnag, gan ystyried y sylwadau a wnaed, byddwn yn adolygu ac yn ailystyried y canllawiau i'w cynnwys yn y Ddogfen Gymeradwy derfynol. Fel rhan o hyn, byddwn yn ailystyried a yw'r amcangyfrifon dŵr poeth yn gywir er mwyn osgoi unrhyw achosion o bennu maint rhy fawr ar gyfer silindrau yn y methodolegau.

3.26 Rydym yn gwerthfawrogi'r pryderon a godwyd ynglŷn â heriau posibl i gadwyni cyflenwi, gan gynnwys adborth a oedd yn dweud y gall y safon newydd ei gwneud yn ofynnol i wneuthurwyr ailddylunio a chyflenwi cynhyrchion newydd, a all gymryd nifer o flynyddoedd i gyrraedd y farchnad. Fodd bynnag, yn dibynnu ar ganlyniadau ailystyried y broses o bennu maint silindrau, mae'n bosibl y bydd hyn yn lleihau'r pwysau ar gadwyni cyflenwi. Hefyd, fel yr amlinellir yn ein hymateb i Gwestiwn 67, rydym yn bwriadu cyflwyno cyfnod pontio hwy er mwyn rhoi amser i'r diwydiant addasu i'r newidiadau hyn.

## Cwestiwn 34: A ydych yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig i Ddogfen Gymeradwy F, Cyfrol 1: Anheddau i wella'r broses o osod a chomisiynu systemau awyru?

| **Cwestiwn 34: A ydych yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig i Ddogfen Gymeradwy F, Cyfrol 1: Anheddau i wella'r broses o osod a chomisiynu systemau awyru?** | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Pawb a ymatebodd | Pensaer | Adeiladwr/Datblygwr | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Gweithiwr Proffesiynol ym maes Adeiladu | Dylunydd/Peiriannydd/Syrfëwr | Asesydd Ynni | Sector ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/cadwyn gyflenwi | Parti Arall â Diddordeb (rhowch fanylion) | Rheolwr Eiddo/Cymdeithas Tai/Landlord | Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu | Adeiladwr bach/canolig | Heb ei nodi | Adeiladwr tai mawr |
| **Cyfanswm** | **42** | **3** | **2** | **0** | **1** | **5** | **1** | **0** | **7** | **7** | **12** | **3** | **0** | **0** | **0** | **1** |
| a. Ydw | 60% | 33% | 0% | 0% | 0% | 40% | 100% | 0% | 100% | 29% | 67% | 100% | 0% | 0% | 0% | 100% |
| b. Nac ydw | 7% | 0% | 0% | 0% | 100% | 20% | 0% | 0% | 0% | 14% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| c. Ddim yn siŵr | 33% | 67% | 100% | 0% | 0% | 40% | 0% | 0% | 0% | 57% | 33% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |

3.27 O'r 42 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, roedd y mwyafrif (60%) yn cytuno â'r cynnig. O gymharu â hynny, roedd 7% yn anghytuno â'r cynnig ac roedd 33% yn ansicr.

**Rhesymau dros gefnogi'r cynnig.**

- **Mae'n gwella perfformiad**: Byddai'r newidiadau'n gwella ansawdd aer dan do a pherfformiad systemau awyru.
- **Safonau cliriach**: Croesewir canllawiau cliriach er mwyn gwella ansawdd gwaith gosod a lleihau canlyniadau anfwriadol sy'n deillio o osod neu gomisiynu'n anghywir.

**Rhesymau dros wrthwynebu'r cynnig[2]**

- **Nid yw'n ymdrin â'r holl faterion allweddol**: Nid yw Dogfen Gymeradwy F yn mynd i'r afael â'r holl faterion allweddol yn llawn ar hyn o bryd. Er enghraifft, credwyd bod rhai canllawiau ar goll o Ddogfen Gymeradwy F (Adran 4: Comisiynu a rhoi gwybodaeth) megis sŵn ystafelloedd, terfynau colli gwasgedd pibellau, a dull dylunio integredig. Pwysleisiwyd ei bod yn rhaid i system gael ei dylunio'n dda cyn cael ei chomisiynu ac na ellid gwneud iawn am beidio â gwneud hynny drwy fesur yn well yn unig.
- **Dylunio cyn comisiynu**: Pwysleisiodd rhai ymatebwyr mai gweithgarwch ar gamau cynnar y broses ddylunio yw sicrhau maint pibellau, terfynau gwasgedd a pherfformiad acwstig. Mae gorddibyniaeth ar addasiadau comisiynu yn peri risg o guddio problemau dylunio sylfaenol.
- **Pryderon ynglŷn ag ymarferoldeb**: Nododd rhai ymatebwyr na chaiff cyfrifiadau gostyngiad mewn gwasgedd a mesuriadau cysylltiedig eu gwneud fel mater o drefn yn y diwydiant. Mae'n bosibl y bydd eu gwneud yn ofynnol yn cyflwyno costau heb fanteision cyfatebol.
- **Dulliau comisiynu**: Cwestiynodd yr ymatebwyr yr angen i gyflwyno cyflau modur yn lle anemomedrau â llafnau sy'n cylchdroi, gan ddadlau mai bach iawn yw'r manteision o ran cywirdeb a bod y goblygiadau cost yn sylweddol.

**Pwynt ychwanegol a godwyd gan y rhai a ddewisodd "Ddim yn siŵr"[3]**

- **Cadw cofnodion:** Dylai unrhyw ofynion gosod a chomisiynu newydd gael eu cofnodi mewn pasbort adeilad er mwyn i unrhyw ddata comisiynu a chofnodion gosod gael eu cadw drwy gydol oes yr eiddo.

**Codwyd pwyntiau ychwanegol gan ymatebwyr, ni waeth p'un a oeddent o blaid newid ai peidio**

- **Cymorth i BBaChau**: Bydd cost ynghlwm wrth gynnydd mewn gwaith

[2] Nodir hyn yn yr ymateb i Gwestiwn 23 hefyd
[3] Nodir hyn yn yr ymateb i Gwestiwn 23 hefyd

profi a chomisiynu, ac ni ddylai hyn gael effaith andwyol ar osodwyr llai. Gofynnir am grantiau neu gymorth ariannol tebyg i'r sector er mwyn lliniaru hyn.

- **Ystyriaethau ymarferol mewn perthynas â gwaith gosod**: Byddai caniatáu pibellau hyblyg (hyd at 200 mm) ar bwyntiau echdynnu a gwacáu lle y byddai troadau anhyblyg yn anymarferol.
- **Cymesuredd ar gyfer rhai systemau**: Gwyntyllau echdynnu ‘gosod a chwarae’ yn bennaf yw llawer o'r rhai dMEV ac ysbeidiol, ac mae'n bosibl na fydd angen eu comisiynu y tu hwnt i ddilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr.

**Ymateb y Llywodraeth i gwestiwn 34**

3.28 Roedd mwyafrif o'r ymatebwyr yn cefnogi'r newidiadau arfaethedig i wella'r ffordd y caiff systemau awyru eu gosod a'u comisiynu, gyda 60% yn cytuno a 7% yn gwrthwynebu. Felly, rydym yn bwriadu rhoi'r newidiadau arfaethedig ar waith yn y Ddogfen Gymeradwy derfynol, gan nodi bod y cynnig i fesur perfformiad systemau (pŵer trydanol) ar gyfer systemau awyru canolog yn cael ei ddileu.

**Cwestiwn 35: A ydych yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig i Ddogfen Gymeradwy F, Cyfrol 1: Anheddau ar gyfer (a) darparu canllawiau mewn perthynas â gofyniad i ddarparu disgyniadau mewn pibellwaith echdynnu llorweddol, a thrapiau cyddwysiad â system ddraenio ar gyfer pibellwaith fertigol er mwyn cael gwared ar ddŵr anwedd a all gronni yn y pibellwaith, a (b) cynnwys diagram esboniadol i atgyfnerthu egwyddorion y gofyniad?**

| **Cwestiwn 35: A ydych yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig i Ddogfen Gymeradwy F, Cyfrol 1: Anheddau ar gyfer (a) darparu canllawiau mewn perthynas â gofyniad i ddarparu disgyniadau mewn pibellwaith echdynnu llorweddol, a thrapiau cyddwysiad â system ddraenio ar gyfer pibellwaith fertigol er mwyn cael gwared ar ddŵr anwedd a all gronni yn y pibellwaith, a (b) cynnwys diagram esboniadol i atgyfnerthu egwyddorion y gofyniad?** | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Pawb a ymatebodd | Pensaer | Adeiladwr/Datblygwr | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Gweithiwr Proffesiynol ym maes Adeiladu | Dylunydd/Peiriannydd/Syrfëwr | Asesydd Ynni | Sector ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/cadwyn gyflenwi | Parti Arall â Diddordeb (rhowch fanylion) | Rheolwr Eiddo/Cymdeithas Tai/Landlord | Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu | Adeiladwr bach/canolig | Heb ei nodi | Adeiladwr tai mawr |
| **Cyfanswm** | **40** | **3** | **2** | **0** | **1** | **4** | **1** | **0** | **8** | **7** | **11** | **3** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| a. Ydw | 60% | 33% | 0% | 0% | 0% | 100% | 100% | 0% | 100% | 14% | 55% | 100% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| b. Nac ydw | 5% | 0% | 0% | 0% | 100% | 0% | 0% | 0% | 0% | 14% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| c. Ddim yn siŵr | 35% | 67% | 100% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 71% | 45% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |

3.29 O'r 40 o ymatebwyr, roedd y mwyafrif (60%) yn cytuno â'r cynnig. Dim ond 5% a oedd yn anghytuno â'r cynnig ac roedd 35% yn ansicr.

**Adborth gan y rhai a oedd yn cefnogi'r cynnig**

3.30 Rhesymau dros gefnogi'r cynnig.

- **Y defnydd o ddiagramau**: Mynegwyd cefnogaeth i'r diagram esboniadol a oedd wedi'i gynnwys, gan fod canllawiau gweledol yn debygol o wella ansawdd gwaith gosod.

3.31 Argymhellion ychwanegol.

- **Canllawiau ymarferol cliriach**: Byddai rhoi canllawiau penodol ar ddisgyniadau ar gyfer pibellau llorweddol a draenio cyddwysiad ar gyfer pibellau fertigol yn helpu i leihau gwallau gosod.

**Rhesymau dros wrthwynebu'r cynnig**

- **Targedu systemau awyru penodol yn unig**: Mae'r risg o gyddwysiad yn llawer is mewn systemau awyru parhaus, fel MVHR a MEV parhaus. Mae'n bosibl y bydd cymhwyso gofynion ar gyfer disgyniadau a thrapiau cyddwysiad yn gyffredinol yn ychwanegu cymhlethdod diangen. Dylai'r canllawiau dargedu systemau ysbeidiol yn benodol, lle mae'r risgiau cyddwysiad yn uwch ac yn dra hysbys.

**Ymateb y Llywodraeth i gwestiwn 35**

3.32 Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cefnogi'r newidiadau arfaethedig, a dim ond cyfran fach a fynegodd wrthwynebiad. Nodwn yr adborth sy'n dweud bod y risg o gyddwysiad fel arfer yn is mewn systemau awyru mecanyddol parhaus a bod y canllawiau arfaethedig yn fwy addas ar gyfer systemau ysbeidiol o bosibl. Fodd bynnag, rydym yn bwriadu cynnwys y canllawiau hyn yn y Ddogfen Gymeradwy derfynol oherwydd gall cyddwysiad ddigwydd mewn systemau awyru ysbeidiol a pharhaus, yn enwedig pan na chaiff y systemau eu gosod yn gywir na'u cynnal a'u cadw'n briodol. Bwriedir i'r canllawiau helpu i atal a lleihau'r risg hon ar gyfer pob math o system awyru.

## Cwestiwn 36: A ydych o'r farn bod y canllawiau ar gomisiynu cyfleusterau storio dŵr poeth yn Adran 8 o'r fersiwn ddrafft o Ddogfen Gymeradwy L, Cyfrol 1: Anheddau yn ddigonol i sicrhau eu bod yn cael eu comisiynu'n gywir?

**Cwestiwn 36: A ydych o'r farn bod y canllawiau ar gomisiynu cyfleusterau storio dŵr poeth yn Adran 8 o'r fersiwn ddrafft o Ddogfen Gymeradwy L, Cyfrol 1: Anheddau yn ddigonol i sicrhau eu bod yn cael eu comisiynu'n gywir?**

| | Pawb a ymatebodd | Pensaer | Adeiladwr/Datblygwr | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Gweithiwr Proffesiynol ym maes Adeiladu | Dylunydd/Peiriannydd/Syrfëwr | Asesydd Ynni | Sector ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/cadwyn gyflenwi | Parti Arall â Diddordeb (rhowch fanylion) | Rheolwr Eiddo/Cymdeithas Tai/Landlord | Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu | Adeiladwr bach/canolig | Heb ei nodi | Adeiladwr tai mawr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **41** | **3** | **2** | **0** | **1** | **4** | **1** | **1** | **8** | **7** | **11** | **3** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| a. Ydw | 49% | 33% | 0% | 0% | 0% | 50% | 100% | 0% | 75% | 29% | 45% | 100% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| b. Nac ydw | 5% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 100% | 0% | 0% | 9% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| c. Ddim yn siŵr | 46% | 67% | 100% | 0% | 100% | 50% | 0% | 0% | 25% | 71% | 45% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |

3.33 O'r 41 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, roedd 49% yn cytuno â'r cynnig. O gymharu â hynny, dim ond 5% oedd yn anghytuno â'r cynnig ac roedd 46% yn ansicr.

### Adborth gan y rhai a oedd yn cefnogi'r cynnig

3.34 Awgrymiadau ar gyfer newidiadau neu ychwanegiadau i'r cynnig oedd yr adborth a gafwyd ar y cyfan.

- **Canllawiau ar legionella**: Bydd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn cyhoeddi canllawiau i'r diwydiant pympiau gwres ar legionella oherwydd y tymereddau llif a storio is. Argymhellir y dylai'r Rheoliadau Adeiladu newydd gyd-fynd â'r canllawiau hyn.
- **Addasu'r geiriad**: Awgrym bod y gair 'sicrhau' yn absoliwt. Mae'n bosibl na fydd hyn yn gyflawnadwy mewn perthynas ag Adran 8, ac y dylid ystyried y gair 'dylai' yn lle hynny.

### Rhesymau dros wrthwynebu'r cynnig

- **Canllawiau annigonol**: Nid yw'r canllawiau'n ddigonol eto i sicrhau y caiff systemau sy'n seiliedig ar bympiau gwres ac unedau rhyngwyneb gwres (HIU) tymheredd isel eu comisiynu'n gywir. Ymhlith y materion allweddol a godwyd mae cyfarwyddiadau rhy gyffredinol y dylid eu hatgyfnerthu, absenoldeb canlyniadau wedi'u mesur ar gyfer perfformiad ynni a chysur (gwerthoedd wedi'u cofnodi), yr angen am integreiddio legionella, a'r ffaith nad yw'r rhyngweithio â phympiau gwres a HIUs wedi'i bennu'n ddigonol na'i ragnodi fel tystiolaeth ofynnol.

**Pwynt ychwanegol a godwyd gan y rhai a ddewisodd "Ddim yn siŵr"**

- **Comisiynu**: Er bod y canllawiau'n ddigonol, gellid cyflwyno rhestrau gwirio manylach ar gyfer comisiynu er mwyn sicrhau dull comisiynu cyson.

**Ymateb y Llywodraeth i gwestiwn 36**

3.35 Roedd yr adborth a gafwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn yn gyfyngedig. Fodd bynnag, ymhlith y rhai a ymatebodd, roedd y mwyafrif, sef 49% o ymatebwyr, yn cytuno bod y canllawiau drafft ar gomisiynu cyfleusterau storio dŵr poeth yn Adran 8 o Ddogfen Gymeradwy L, Cyfrol 1: Anheddau yn ddigonol i sicrhau eu bod yn cael eu comisiynu'n gywir, a dim ond 5% oedd yn anghytuno. Yn sgil yr adborth hwn, rydym yn bwriadu ymgorffori'r darpariaethau hyn yn y fersiwn derfynol o Ddogfen Gymeradwy L, Cyfrol 1: Anheddau. Wrth lunio'r fersiwn derfynol o'r Ddogfen Gymeradwy, byddwn hefyd yn mynd ati i dynnu sylw at ganllawiau priodol gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch mewn perthynas â legionella.

**Cwestiwn 37: A ydych o'r farn bod y canllawiau ar gyfer comisiynu systemau storio trydan ar y safle yn Adran 8 o'r fersiwn ddrafft o Ddogfen Gymeradwy L, Cyfrol 1: Anheddau yn ddigonol i sicrhau eu bod yn cael eu comisiynu'n gywir?**

| **Cwestiwn 37: A ydych o'r farn bod y canllawiau ar gyfer comisiynu systemau storio trydan ar y safle yn Adran 8 o'r fersiwn ddrafft o Ddogfen Gymeradwy L, Cyfrol 1: Anheddau yn ddigonol i sicrhau eu bod yn cael eu comisiynu'n gywir?** | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Pawb a ymatebodd | Pensaer | Adeiladwr/Datblygwr | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Gweithiwr Proffesiynol ym maes Adeiladu | Dylunydd/Peiriannydd/Syrfëwr | Asesydd Ynni | Sector ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/cadwyn gyflenwi | Parti Arall â Diddordeb (rhowch fanylion) | Rheolwr Eiddo/Cymdeithas Tai/Landlord | Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu | Adeiladwr bach/canolig | Heb ei nodi | Adeiladwr tai mawr |
| **Cyfanswm** | **41** | **3** | **2** | **0** | **1** | **4** | **1** | **1** | **8** | **7** | **11** | **3** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| a. Ydw | 37% | 33% | 0% | 0% | 0% | 25% | 100% | 0% | 63% | 0% | 36% | 100% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| b. Nac ydw | 10% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 100% | 13% | 0% | 18% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| c. Ddim yn siŵr | 54% | 67% | 100% | 0% | 100% | 75% | 0% | 0% | 25% | 100% | 45% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |

3.36 O'r 41 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, roedd 37% yn cytuno â'r cynnig. O gymharu â hynny, roedd 10% yn anghytuno â'r cynnig ac roedd y mwyafrif (54%) yn ansicr.

3.37 Yn ychwanegol at y sylwadau isod, cyfeiriodd sawl ymatebydd yn ôl at y pryderon a godwyd ganddynt yng Nghwestiwn 26.

### Rhesymau dros gefnogi'r cynnig

3.38 Ni roddwyd llawer o adborth.

### Rhesymau dros wrthwynebu'r cynnig

- **Awgrym ynglŷn â'r geiriad**: Awgrymwyd y gallai'r testun fod yn gamarweiniol. Cynigiwyd newid i "These systems should be installed in accordance with MIS 3012: The Battery Standard (Installation)"
- **Diogelu at y dyfodol**: Dylid cynnwys canllawiau ychwanegol er mwyn cefnogi datblygiadau ym maes technoleg batris.

### Pwyntiau ychwanegol a godwyd gan y rhai a ddewisodd "Ddim yn siŵr"

- **Pryderon ynglŷn â'r risg o dân**: Gofynnwyd a yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud unrhyw waith ymchwil i'r rhyngweithio rhwng systemau storio trydan ar y safle a diogelwch tân. Nodwyd pryderon posibl ynglŷn â diogelwch a chydymffurfiaeth systemau storio trydan ar y safle, yn enwedig y rhai a osodir mewn atigau heb fawr ddim ystyriaeth i ddiogelwch tân. Hefyd, mae CROSS-UK wedi cyhoeddi sawl adroddiad diogelwch ynglŷn â'r risgiau tân posibl a achosir gan systemau storio ynni mewn batris. Yn sgil hyn, awgrymir y dylid cynnwys canllawiau mwy perthnasol a phenodol, er enghraifft 'PAS 63100:2024 Electrical installations. Protection against fire of battery energy storage systems for use in dwellings. Specification' a gyhoeddwyd gan BSI o bosibl.
- **Manylion ychwanegol**: Dylid cynnwys manylion ychwanegol yn y Ddogfen Gymeradwy i fynd i'r afael â'r risgiau sy'n gysylltiedig â namau a thanau.

### Ymateb y Llywodraeth i gwestiwn 37

3.39 Roedd yr ymatebwyr yn gefnogol i'r canllawiau ar gomisiynu systemau storio trydan ar y safle, ac roedd 37% o'r ymatebwyr yn cytuno eu bod yn ddigonol a 10% yn anghytuno.

3.40 O ystyried yr adborth, byddwn yn gwneud y newid canlynol i'r testun drafft ym mharagraff 8.15, Adran 8 o Ddogfen Gymeradwy L, Cyfrol 1:

- "On-site electricity storage and battery systems that are connected to on-site electricity generation should be designed, installed and commissioned in accordance with the requirements of MCS' MIS 3012: The Battery Standard (Installation)."

3.41 Rydym yn cydnabod yr adborth a gafwyd a oedd yn sôn am bryderon ynglŷn â diogelwch tân sy'n gysylltiedig â systemau storio trydan. Mae'n bwysig nodi nad yw'r Rheoliadau Adeiladu a'r Dogfennau Cymeradwy cysylltiedig yn ei gwneud yn orfodol gosod y systemau hyn. Fodd bynnag, rydym yn bwriadu adolygu Rhan B (Diogelwch Tân) o'r Rheoliadau Adeiladu eleni a byddwn yn ystyried y pryderon hyn fel rhan o'r adolygiad hwnnw.

**Cwestiwn 38: A ydych yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig i Ddogfen Gymeradwy L, Cyfrol 1: Anheddau a Dogfen Gymeradwy F, Cyfrol 1: Anheddau i (a) egluro'r opsiynau ar gyfer ardystio gwasanaethau adeiladau sefydlog a gaiff eu gosod a (b) nodi'r opsiynau gorfodi sydd ar gael pan na fydd gwaith yn cyrraedd y safon ofynnol?**

| Cwestiwn 38: A ydych yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig i Ddogfen Gymeradwy L, Cyfrol 1: Anheddau a Dogfen Gymeradwy F, Cyfrol 1: Anheddau i (a) egluro'r opsiynau ar gyfer ardystio gwasanaethau adeiladau sefydlog a gaiff eu gosod a (b) nodi'r opsiynau gorfodi sydd ar gael pan na fydd gwaith yn cyrraedd y safon ofynnol? | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Pawb a ymatebodd | Pensaer | Adeiladwr/Datblygwr | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Gweithiwr Proffesiynol ym maes Adeiladu | Dylunydd/Peiriannydd/Syrfëwr | Asesydd Ynni | Sector ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/cadwyn gyflenwi | Parti Arall â Diddordeb (rhowch fanylion) | Rheolwr Eiddo/Cymdeithas Tai/Landlord | Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu | Adeiladwr bach/canolig | Heb ei nodi | Adeiladwr tai mawr |
| **Cyfanswm** | **43** | **3** | **2** | **0** | **1** | **4** | **1** | **0** | **8** | **8** | **13** | **3** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| a. Ydw | 44% | 33% | 0% | 0% | 0% | 50% | 100% | 0% | 38% | 38% | 46% | 100% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| b. Nac ydw | 16% | 0% | 0% | 0% | 100% | 25% | 0% | 0% | 38% | 13% | 8% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| c. Ddim yn siŵr | 40% | 67% | 100% | 0% | 0% | 25% | 0% | 0% | 25% | 50% | 46% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |

3.42 O'r 43 o ymatebwyr, roedd 44% yn cytuno â'r cynnig. O gymharu â hynny, roedd 16% yn anghytuno â'r cynnig ac roedd 40% yn ansicr.

**Adborth gan y rhai a oedd yn cefnogi'r cynnig**

3.43 Rhesymau dros gefnogi'r cynnig.

- **Gwell eglurder**: Bydd y newidiadau hyn yn helpu i roi eglurder i osodwyr er mwyn eu helpu i gydymffurfio â safonau, ac yn sicrhau atebolrwydd.

3.44 Yn ogystal â hynny, gwnaed yr argymhelliad canlynol.

- **Egluro'r cwmpas ar gyfer gwaith cynlluniau hunanardystio**: Mae angen canllawiau ychwanegol er mwyn amlinellu'r cwmpas yn glir o ran pa elfennau y bydd angen eu hardystio er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau, a phryd y gellir rhoi tystysgrif.

**Rhesymau dros wrthwynebu'r cynnig**

- **Adnoddau cyfyngedig ym maes Rheoli Adeiladu**: Oherwydd yr adnoddau cyfyngedig mewn timau Rheoli Adeiladu, nodwyd nad timau Rheoli Adeiladu ddylai fod yn gyfrifol am hyn ac mai gosodwr â chymwysterau addas neu unigolyn cyfatebol ddylai ysgwyddo'r cyfrifoldeb.
- **Hunanardystio**: Gall hunanardystio arwain at ffugio, hyd yn oed dan Gynllun Personau Cymwys. Felly, dylai trydydd parti annibynnol ardystio er mwyn sicrhau cydymffurfio.

**Gwnaed y pwyntiau cyffredinol canlynol gan ymatebwyr, ni waeth p'un a oeddent o blaid y newid ai peidio:**

- **Datganiad coll**: Mae Adran 0.23 o'r fersiwn ddrafft o Ddogfen Gymeradwy F, Cyfrol 1 yn nodi "…The local authority still retains inspection and enforcement powers in these circumstances". Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos bod darn cyfatebol o destun yn y fersiwn ddrafft o Ddogfen Gymeradwy L, Cyfrol 1.

**Ymateb y Llywodraeth i gwestiwn 38**

3.45 Roedd mwyafrif bach o'r ymatebwyr yn cefnogi'r newidiadau arfaethedig i egluro opsiynau ar gyfer ardystio gwasanaethau adeiladau sefydlog a gaiff eu gosod a'r mesurau gorfodi pan na fydd gwaith yn cyrraedd y safonau gofynnol. Felly, rydym yn bwriadu rhoi'r newidiadau hyn ar waith yn y Ddogfen Gymeradwy derfynol.

3.46 Rydym yn cydnabod yr adborth ynglŷn ag absenoldeb datganiad yn y fersiwn ddrafft o Ddogfen Gymeradwy L, Cyfrol 1, sy'n cyfateb i'r testun yn Adran 0.23 o'r fersiwn ddrafft o Ddogfen Gymeradwy F, Cyfrol 1. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, byddwn yn cynnwys y testun canlynol yn y fersiwn derfynol o Ddogfen Gymeradwy L, Cyfrol 1, er mwyn sicrhau cysondeb:

- "The local authority still retains inspection and enforcement powers in these circumstances".

**Cwestiwn 39: A ydych yn cytuno â'r cynnig i gyflwyno gofyniad i osod technoleg adnewyddadwy pan gaiff annedd ei hestyn yn sylweddol?**

| Cwestiwn 39: A ydych yn cytuno â'r cynnig i gyflwyno gofyniad i osod technoleg adnewyddadwy pan gaiff annedd ei hestyn yn sylweddol? | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Pawb a ymatebodd | Pensaer | Adeiladwr/Datblygwr | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Gweithiwr Proffesiynol ym maes Adeiladu | Dylunydd/Peiriannydd/Syrfëwr | Asesydd Ynni | Sector ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/cadwyn gyflenwi | Parti Arall â Diddordeb (rhowch fanylion) | Rheolwr Eiddo/Cymdeithas Tai/Landlord | Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu | Adeiladwr bach/canolig | Heb ei nodi | Adeiladwr tai mawr |
| **Cyfanswm** | **47** | **3** | **2** | **0** | **1** | **5** | **1** | **1** | **8** | **8** | **15** | **3** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| a. Ydw | 62% | 33% | 0% | 0% | 100% | 100% | 100% | 100% | 50% | 63% | 67% | 33% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| b. Nac ydw | 13% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 38% | 0% | 7% | 67% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| c. Ddim yn siŵr | 26% | 67% | 100% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 13% | 38% | 27% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |

3.47 O'r 47 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, roedd y mwyafrif (62%) yn cytuno â'r cynnig. O gymharu â hynny, roedd 13% yn anghytuno â'r cynnig ac roedd 26% yn ansicr.

**Adborth gan y rhai a oedd yn cefnogi'r cynnig**

3.48 Rhesymau dros gefnogi'r cynnig

- **Mae'n sicrhau cyn lleied â phosibl o darfu ychwanegol**: Dengys gwaith ymchwil mai tarfu yw un o'r prif rwystrau sy'n atal perchnogion tai rhag gwneud gwelliannau o ran effeithlonrwydd ynni. Mae estyniadau eisoes yn arwain at darfu. Felly, gall eu defnyddio fel sbardun rheoleiddiol helpu i sicrhau y caiff technolegau ynni adnewyddadwy eu mabwysiadu'n gyflymach.
- **Manteision o ran carbon a pherfformiad**: Bydd yn cyfrannu at leihau carbon a diogelu anheddau at y dyfodol.

3.49 Hefyd, gwneud yr argymhelliad canlynol.

- **Cyfyngiadau treftadaeth a chadwraeth**: Rhaid ystyried cyfyngiadau treftadaeth a chadwraeth. Mae'n bosibl y bydd dull hyblyg yn angenrheidiol er mwyn dangos cydymffurfiaeth.

**Rhesymau dros wrthwynebu'r cynnig**

- **Pryderon ynglŷn â chost**: Gallai gwneud technolegau ynni adnewyddadwy yn orfodol gynyddu costau estyniadau yn sylweddol. Gall hyn anghymell pobl rhag adnewyddu cartrefi presennol.
- **Risg o ganlyniadau anfwriadol**: Gallai diffinio trothwyon ar gyfer estyniadau a gwneud mesurau penodol yn orfodol arwain at ganlyniadau anfwriadol, oherwydd yr amrywiaeth o fathau o anheddau a senarios technegol.
- **Asesiad technegol**: Dylai penderfyniadau ynghylch technolegau priodol fod yn seiliedig ar asesiad technegol penodol i eiddo a gynhelir gan berson cymwysedig, yn hytrach na sbardunau rheoleiddiol rhagnodol.
- **Adeiladwaith yn gyntaf**: Mae'r cynnig yn blaenoriaethu ynni adnewyddadwy dros ffocws ar adeiladwaith yn gyntaf. Dylai dull ehangach, gan gynnwys amrywiaeth o dechnolegau carbon isel ac adeiladwaith, fod ar gael.

**Gwnaed y pwyntiau ychwanegol canlynol**

- **Effaith ar EPC**: Ni ddylai unrhyw fesurau ychwanegol leihau sgôr EPC y cartref.
- **Ystyriaethau gweledol a threftadaeth**: Bydd angen i effaith weledol gosod technoleg ynni adnewyddadwy, yn enwedig mewn ardaloedd cadwraeth ac ar gyfer adeiladau rhestredig, gael ei hystyried yn ofalus.

## Cwestiwn 40: A ydych yn cytuno â'r diffiniad arfaethedig ar gyfer ‘estyniad sylweddol’?

| Cwestiwn 40: A ydych yn cytuno â'r diffiniad arfaethedig ar gyfer ‘estyniad sylweddol’? | Pawb a ymatebodd | Pensaer | Adeiladwr/Datblygwr | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Gweithiwr Proffesiynol ym maes Adeiladu | Dylunydd/Peiriannydd/Syrfëwr | Asesydd Ynni | Sector ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/cadwyn gyflenwi | Parti Arall â Diddordeb (rhowch fanylion) | Rheolwr Eiddo/Cymdeithas Tai/Landlord | Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu | Adeiladwr bach/canolig | Heb ei nodi | Adeiladwr tai mawr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **46** | **3** | **2** | **0** | **1** | **5** | **1** | **1** | **8** | **9** | **13** | **3** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| a. Ydw | 43% | 33% | 0% | 0% | 100% | 60% | 100% | 100% | 25% | 44% | 46% | 33% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| b. Nac ydw | 20% | 0% | 0% | 0% | 0% | 20% | 0% | 0% | 50% | 0% | 15% | 67% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| c. Ddim yn siŵr | 37% | 67% | 100% | 0% | 0% | 20% | 0% | 0% | 25% | 56% | 38% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |

3.50 O'r 46 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, roedd 43% yn cytuno ac 20% yn anghytuno â'r cynnig. Roedd 37% yn ansicr ynglŷn â'r newidiadau arfaethedig.

### Rhesymau dros gefnogi'r cynnig

- **Dull cyson**: Mae'r dull yn cyd-fynd â deddfwriaeth arall a dulliau gwledydd eraill, megis yr Alban.
- **Eglurder**: Roedd y diffiniad 30m$^2$ sy'n gysylltiedig ag estyniad sylweddol yn glir, a chroesewir cael trothwy syml a chyson.

### Rhesymau dros wrthwynebu'r cynnig

- **Canlyniadau afresymegol**: Gallai'r geiriad seiliedig ar nifer y lloriau arwain at ganlyniadau afresymegol. Er enghraifft, nid yw estyniadau unllawr mawr i anheddau aml-lawr yn cael eu dosbarthu fel rhai “sylweddol”, ond byddai estyniadau aml-lawr llawer llai yn cael eu dosbarthu felly. Gall hyn, yn ei dro, olygu y bydd perchnogion tai yn ffafrio estyniadau unllawr mwy er mwyn osgoi sbarduno gofynion technoleg ynni adnewyddadwy, hyd yn oed lle y byddai opsiynau aml-lawr yn fwy effeithlon o ran gofod a gwres. Awgrymwyd y dylai'r newid hwn gwmpasu estyniadau unllawr.
- **Yr angen am fwy o eglurder**: Mae angen diffinio “llawr”. Ar ben hynny, mae angen egluro a fyddai estyniadau Dosbarth 7 30m$^2$ yn Atodlen 2 Rheoliadau Adeiladu 2010 yn cael eu cynnwys, ac a ddylai ardaloedd wedi'u haddasu (e.e. garejis ac atigau) gyfrif wrth gyfrifo arwynebedd llawr.
- **Trothwy rhy fach**: Awgrymodd tri ymatebydd fod 30m$^2$ yn rhy fach. Awgrymodd un ymatebydd y dylid cynyddu'r trothwy i 40m$^2$, ac ni wnaeth y ddau ymatebydd arall awgrymu gwerth trothwy diwygiedig.

- **Diwygio meini prawf y trothwy**: Argymhellodd un ymatebydd y dylai meini prawf y trothwy fod yn gyfwerth â 25% o'r annedd bresennol neu'n fwy na hynny. Drwy ddewis gwerth absoliwt (e.e. $30m^2$), gallai hynny olygu estyniad sylweddol mewn perthynas ag anheddau llai, ond llai na hynny ar gyfer anheddau mwy.

**Pwyntiau ychwanegol a godwyd gan y rhai a ddewisodd "Ddim yn siŵr"**

3.51 Ni wnaed pwyntiau ychwanegol sylweddol. Yn benodol, ailadroddodd dau ymatebydd yr argymhelliad y dylid pennu meini prawf y trothwy yn seiliedig ar ganran o arwynebedd llawr yr annedd bresennol.

**Ymateb y Llywodraeth i gwestiynau 39 a 40**

3.52 Roedd mwyafrif o'r ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig i gyflwyno gofyniad i osod technoleg ynni adnewyddadwy pan fydd estyniad sylweddol ar annedd, a chyfran gymharol fach a fynegodd anghytundeb.

3.53 Cododd rhai ymatebwyr bryderon ynglŷn â goblygiadau posibl y cynnig hwn o ran costau. Fodd bynnag, rydym yn bwriadu diwygio a chyflwyno diffiniad o "estyniad sylweddol" gyda'r bwriad o sicrhau bod y gofyniad yn parhau i fod yn gymesur. Yn ogystal â hynny, mae'r asesiad effaith rheoleiddio terfynol ar y cam ymgynghori yn nodi'r costau amcangyfrifedig ochr yn ochr â manteision a ragwelir yn sgil y mesur hwn. I'r rhai a fynegodd bryderon ynglŷn ag anheddau mewn ardaloedd cadwraeth neu a ddynodir fel adeiladau rhestredig, rydym wedi cynnig esemptiadau ar gyfer y mathau hyn o eiddo, yn amodol ar gytundeb â'r Swyddog Cadwraeth lleol a/neu adran Rheoli Datblygu'r awdurdod lleol, yn unol ag Adran O o Ddogfen Gymeradwy L, Cyfrol 1.

3.54 Roedd yr adborth yn dangos ymateb cymysg i'r diffiniad arfaethedig o 'estyniad sylweddol', ac roedd y gyfran fwyaf o'r ymatebwyr yn mynegi cefnogaeth.

3.55 Yn sgil yr adborth, yn enwedig gan y rhai a fynegodd bryderon ei bod yn bosibl nad yw'r diffiniad arfaethedig yn ddigon mawr i sicrhau bod gofyniad yn hyfyw, a chan gydnabod mai polisi newydd yw hwn, rydym yn bwriadu diwygio'r diffiniad arfaethedig o 'estyniad sylweddol' o gyfanswm arwynebedd llawr o $30m^2$ neu fwy i $40m^2$ neu fwy, a fel y cynigir yn yr ymgynghoriad, o leiaf yr un nifer o loriau â'r annedd bresennol. Bydd hyn yn sicrhau bod y costau'n aros yn gymesur. Fodd bynnag, mae hwn yn faes y byddwn yn ei adolygu'n rheolaidd ac mae'n bosibl y byddwn yn ei ailystyried mewn adolygiadau yn y dyfodol.

3.56 Rydym yn gwerthfawrogi'r adborth ynglŷn â'r canllawiau arfaethedig a geiriad y diffiniad o estyniad sylweddol. Mewn ymateb i'r pryderon a godwyd, caiff y canllawiau eu hegluro i gadarnhau na chaiff arwynebedd llawr ystafelloedd yn yr atig ei gynnwys wrth gyfrifo'r arwynebedd llawr, a nid yw llawr yn cynnwys ystafell yn yr atig at ddibenion y diffiniad. Ni fydd yn ofynnol i estyniadau sydd wedi'u heithrio o dan Atodlen 2 o'r Rheoliadau Adeiladu, gan gynnwys Dosbarth 7, gydymffurfio â'r canllawiau statudol hyn. Byddwn yn adolygu'r

canllawiau ac yn eu diweddaru'n briodol i'w cynnwys yn y Ddogfen Gymeradwy derfynol.

## Cwestiwn 41: A ydych yn cytuno â'r dulliau a gynigir ar gyfer y dulliau syml a hyblyg?

| Cwestiwn 41: A ydych yn cytuno â'r dulliau a gynigir ar gyfer y dulliau syml a hyblyg? | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Pawb a ymatebodd | Pensaer | Adeiladwr/Datblygwr | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Gweithiwr Proffesiynol ym maes Adeiladu | Dylunydd/Peiriannydd/Syrfëwr | Asesydd Ynni | Sector ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/cadwyn gyflenwi | Parti Arall â Diddordeb (rhowch fanylion) | Rheolwr Eiddo/Cymdeithas Tai/Landlord | Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu | Adeiladwr bach/canolig | Heb ei nodi | Adeiladwr tai mawr |
| **Cyfanswm** | **46** | **3** | **2** | **0** | **1** | **5** | **1** | **0** | **8** | **9** | **14** | **3** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| a. Ydw | 43% | 33% | 0% | 0% | 0% | 40% | 100% | 0% | 100% | 22% | 29% | 67% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| b. Nac ydw | 20% | 0% | 0% | 0% | 100% | 0% | 0% | 0% | 0% | 33% | 36% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| c. Ddim yn siŵr | 37% | 67% | 100% | 0% | 0% | 60% | 0% | 0% | 0% | 44% | 36% | 33% | 0% | 0% | 0% | 0% |

3.57 O'r 46 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, roedd 43% yn cytuno â'r cynnig. O gymharu â hynny, roedd 20% yn anghytuno â'r cynnig ac roedd 37% yn ansicr.

### Adborth gan y rhai a oedd yn cefnogi'r cynnig

3.58 Roedd y rhesymau dros gefnogi'r cynnig yn cyd-fynd â'r rhai a nodwyd yn y ddogfen ymgynghori. Yn benodol, roeddent yn croesawu'r dull hyblyg, sy'n briodol ar gyfer stoc dai amrywiol Cymru.

3.59 Hefyd, gwnaeth un ymatebydd yr argymhellion canlynol.

- **Addasu Paragraff 3.36 y Ddogfen Gymeradwy**: Mae paragraff 3.36 B yn nodi: “Installation of renewable technologies not listed under the simple approach, provided they serve both the dwelling and extension”. Gwnaethant gwestiynu pam ei bod yn rhaid i'r system wasanaethu'r naill a'r llall. Awgrymwyd, mewn achosion lle y bydd ateb ond yn gwasanaethu'r estyniad neu'r annedd, y dylai hyn fod yn dderbyniol o hyd pan fydd yn briodol yn dechnegol neu'n economaidd.
- **Addasu Paragraff 3.37 y Ddogfen Gymeradwy**: Mae'n bosibl bod paragraff 3.37 yn rhoi gormod o ddisgresiwn, am ei fod yn caniatáu i geiswyr osgoi'r dull hyblyg yn llwyr os rhoddir cyfiawnhad.

### Rhesymau dros wrthwynebu'r cynnig

- **Ffocws ar adeiladwaith yn gyntaf**: Dylai'r pwyslais fod ar wella adeiladwaith yr adeilad yn gyntaf cyn cyflwyno pympiau gwres, o ystyried

natur amrywiol y stoc adeiladau a'u cyflwr ledled Cymru.

- **Cynnwys pympiau gwres yn y dull wedi'i symleiddio**: Dylai pympiau gwres gael eu cynnwys yn y llwybr wedi'i symleiddio. Mae hyn yn cyd-fynd yn well â Strategaeth Gwres Cymru ac yn helpu i ddatgarboneiddio gwres yn fwy uniongyrchol.
- **Mae'r dull wedi'i symleiddio'n canolbwyntio'n ormodol ar dechnolegau solar**: Nid yw canolbwyntio ar gyfarpar ffotofoltäig neu solar thermol yn adlewyrchu sut y gellir sicrhau'r arbedion carbon mwyaf, ac mae hynny'n peri risg o anfon y neges anghywir ynglŷn â datgarboneiddio'n effeithiol.
- **Cyfateb i ofynion ynghylch cyfarpar ffotofoltäig ar gyfer adeiladau newydd**: Dylai'r gofynion ynghylch cyfarpar ffotofoltäig gyfateb i'r rhai ar gyfer adeiladau newydd. Dylent fod yn seiliedig ar ganran o gyfanswm yr arwynebedd llawr newydd gydag isafswm o 2kWp, neu'n gymesur â'r arwynebedd sydd ar gael ar y to.
- **Capasiti solar thermol**: Dylai pennu isafswm capasiti er mwyn atal gweithfeydd bach nad ydynt yn cael fawr ddim effaith.
- **Dull hyblyg – amrywiaeth ehangach o opsiynau carbon isel**: Dylai'r llwybr hyblyg gynnwys amrywiaeth ehangach o opsiynau gwresogi carbon isel, er enghraifft systemau gwresogi isgoch neu atebion hybrid, yn enwedig ar gyfer cartrefi lle nad yw pympiau gwres llawn yn ddichonadwy.
- **Ni ddylai'r dull hyblyg fod yn ddewisol**: Teimlai rhai ymatebwyr y dylai fod yn ofynnol i ddeiliaid tai na allant ddefnyddio'r llwybr wedi'i symleiddio ddilyn y llwybr hyblyg yn hytrach na bod modd iddynt optio allan, er mwyn osgoi colli cyfleoedd i ddatgarboneiddio.

**Pwyntiau ychwanegol a godwyd gan y rhai a ddewisodd “Ddim yn siŵr”**

- **Cynnwys mesurau awyru**: Dylai strategaethau awyru, gan gynnwys adfer gwres, hefyd gael eu cynnwys yn y dull hyblyg.
- **Ystyriaethau cost cyfalaf**: Byddai'r dulliau arfaethedig yn creu beichiau cost gormodol ar gyfer estyniadau sylweddol.
- **Pwyslais ar adeiladwaith yn gyntaf**: Roeddent yn croesawu'r cynnig mewn egwyddor, yn yr ystyr y gallai gwella perfformiad adeiladwaith wrthbwyso diffygion o ran ynni adnewyddadwy.

**Ymateb y Llywodraeth i gwestiwn 41**

3.60 Roedd mwyafrif cymharol o'r ymatebwyr o blaid y dulliau syml a hyblyg arfaethedig, gyda chyfran lai yn eu herbyn. Felly, rydym yn bwriadu cyflwyno'r dulliau hyn fel rhan o'r safonau newydd.

3.61 Rydym yn gwerthfawrogi'r adborth a roddwyd. Awgrymodd sawl ymatebydd fesurau mwy uchelgeisiol, megis cynyddu capasiti solar ffotofoltäig fel rhan o'r dull wedi'i symleiddio. Mae'r capasiti arfaethedig yn adlewyrchu'r angen i ddarparu ar gyfer cyfyngiadau dylunio posibl mewn eiddo presennol, na

fyddent yn berthnasol i anheddau newydd. Er bod yr awgrymiadau hyn yn cefnogi ein hamcanion datgarboneiddio, rhaid i unrhyw ofyniad newydd barhau i fod yn gymesur a sicrhau bod prosiectau'n parhau i fod yn ddichonadwy. Ein nod yw lleihau biliau ynni a chyfrannu at ddatgarboneiddio'r grid heb osod beichiau gormodol ar berchnogion tai.

3.62 Roedd yr adborth hefyd yn pwysleisio y dylai'r dull hyblyg gydnabod amrywiaeth ehangach o fesurau. Fel yr amlinellwyd yn yr ymgynghoriad, mae'r opsiwn hyblyg yn cynnig cyfle i osod technolegau adnewyddadwy y tu hwnt i'r rhai a restrir o dan y dull syml, ar yr amod eu bod yn gwasanaethu'r annedd a'r estyniad, neu osod mesurau nad ydynt yn dechnolegau adnewyddadwy (e.e. gwelliannau i adeiladwaith, megis aerglosrwydd a deunydd inswleiddio, neu uwchraddio gwasanaethau megis systemau awyru) yn yr annedd bresennol a/neu'r estyniad. Byddwn yn ceisio gwneud y testun yn y Ddogfen Gymeradwy derfynol yn fwy eglur er mwyn i'r canllawiau fod yn gliriach ynglŷn â'r opsiynau posibl o dan y dulliau syml ac amgen.

3.63 Cynigiodd rhai ymatebwyr y dylid gwneud y dull hyblyg yn orfodol lle nad yw'r dull wedi'i symleiddio yn ddichonadwy. Fel yr esboniwyd yn ein hymgynghoriad, mae'r dull hyblyg yn fwy cymhleth ac fe'i bwriedir ar gyfer achosion lle nad yw'r mesurau syml yn ddymunol (e.e. pryderon esthetig). Lle na fyddai'n rhesymol disgwyl i'r dull wedi'i symleiddio gael ei ddilyn, rhaid cyflwyno manylion a thystiolaeth i'r corff rheoli adeiladu.

3.64 Yn olaf, awgrymwyd y dylid cynnwys gwelliannau i effeithlonrwydd adeiladwaith fel rhan o'r dull wedi'i symleiddio. Mae'n bwysig nodi bod gofynion presennol Rhan L eisoes yn gwneud mesurau fel inswleiddio atigau a waliau ceudod ac uwchraddio deunydd insiwleiddio silindrau dŵr poeth lle bo hynny'n berthnasol, yn orfodol, wrth estyn annedd bresennol (fwy na $10m^2$).

### Cwestiwn 42: A ydych yn cytuno â'r esemptiadau arfaethedig?

| Cwestiwn 42: A ydych yn cytuno â'r esemptiadau arfaethedig? | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Pawb a ymatebodd | Pensaer | Adeiladwr/Datblygwr | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Gweithiwr Proffesiynol ym maes Adeiladu | Dylunydd/Peiriannydd/Syrfëwr | Asesydd Ynni | Sector ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/cadwyn gyflenwi | Parti Arall â Diddordeb (rhowch fanylion) | Rheolwr Eiddo/Cymdeithas Tai/Landlord | Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu | Adeiladwr bach/canolig | Heb ei nodi | Adeiladwr tai mawr |
| **Cyfanswm** | **47** | **3** | **2** | **0** | **1** | **5** | **1** | **0** | **8** | **9** | **15** | **3** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| a. Ydw | 45% | 33% | 0% | 0% | 0% | 40% | 100% | 0% | 63% | 44% | 40% | 67% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| b. Nac ydw | 21% | 0% | 0% | 0% | 100% | 20% | 0% | 0% | 38% | 11% | 27% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| c. Ddim yn siŵr | 34% | 67% | 100% | 0% | 0% | 40% | 0% | 0% | 0% | 44% | 33% | 33% | 0% | 0% | 0% | 0% |

3.65 O'r 47 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, roedd 45% yn cytuno â'r cynnig. O gymharu â hynny, roedd 21% yn anghytuno â'r cynnig ac roedd 34% yn ansicr.

**Adborth gan y rhai a oedd yn cefnogi'r cynnig**

3.66 Credid bod yr esemptiadau'n rhesymol ac wedi'u diffinio'n briodol. Roedd ambell ymatebydd yn cefnogi'r esemptiad yn benodol ar gyfer anheddau sydd â thechnoleg pwmp gwres eisoes wedi'i gosod.

3.67 Hefyd, gwnaeth un ymatebydd y pwynt canlynol:

- **Datblygiad a ganiateir**: O ystyried y gall hawliau datblygiad a ganiateir gael eu diddymu dan rai amodau, argymhellir lwfio rhywfaint ar gyfer hyn yn y Ddogfen Gymeradwy gan ei bod yn bosibl na fydd modd i rai perchnogion tai gael y gymeradwyaeth gynllunio angenrheidiol ar gyfer paneli solar ffotofoltäig a/neu bympiau gwres.

**Rhesymau dros wrthwynebu'r cynnig**

- **Cyfyngu ar yr esemptiad cadwraeth/treftadaeth**: Roedd tri ymatebydd yn pryderu y dylid cyfyngu ar yr esemptiad ar gyfer adeiladau o'r fath. Gwnaethant awgrymu bod amrywiaeth o fesurau i'w cael a all fod yn addas ar gyfer adeiladau traddodiadol y dylid eu harchwilio yn gyntaf. Mae hyn yn cynnwys gwelliannau i effeithlonrwydd ynni a chynnwys technolegau ynni adnewyddadwy, a all fod yn bosibl heb dynnu oddi ar gymeriad yr eiddo.
- **Caniatáu amrywiaeth ehangach o atebion**: Awgrymodd tri ymatebydd fod y technolegau a restrir yn yr esemptiad (paragraff 13.14d yn y cynnig) yn rhy gyfyngedig. Mae amrywiaeth ehangach o atebion carbon isel ar gael y dylid eu hystyried yn gyntaf ac a allai fod yn ddichonadwy.
- **Yr angen am asesiad dichonoldeb cliriach**: Awgrymodd tri ymatebydd fod yr esemptiad cyfyngiadau economaidd yn rhy amwys ac yn agored i gael ei gamddefnyddio. Er enghraifft, mae angen canllawiau i osod paramedrau ar gyfer yr asesiad dichonoldeb economaidd er mwyn osgoi gwahaniaethau rhwng cyrff rheoli adeiladu.
- **Cael gwared ar yr esemptiad ynni adnewyddadwy presennol**: Roedd dau ymatebydd yn anghytuno y dylai anheddau sydd â phympiau gwres yn barod gael eu heithrio rhag y gofyniad i osod paneli solar ffotofoltäig (ac yn y drefn arall hefyd). Byddai hyn yn arwain at golli cyfleoedd i sicrhau synergedd a lleihau carbon mewn ffordd gosteffeithiol.
- **Ffocws ar adeiladwaith yn gyntaf:** Pwysleisiodd un ymatebydd y dylai'r esemptiadau arfaethedig ei gwneud yn ofynnol i aelwydydd roi ffocws cynhwysfawr ar uwchraddio adeiladwaith yr adeilad yn gyntaf, gan gynnwys aerglosrwydd a systemau awyru.

### Pwyntiau a godwyd gan y rhai a ddewisodd “Ddim yn siŵr”

3.68 Gwnaethant nodi pryderon tebyg i'r rhai a oedd yn gwrthwynebu'r cynnig, yn enwedig o ran yr angen am esemptiad dichonoldeb economaidd gwell. Gwnaethant hefyd nodi y gall yr esemptiadau, mewn rhai achosion, gynnig hyblygrwydd i flaenoriaethu gwelliannau i adeiladwaith.

### Ymateb y Llywodraeth i gwestiwn 42

3.69 Cafwyd cefnogaeth gyffredinol i'r esemptiadau arfaethedig, er i rai ymatebwyr fynegi gwrthwynebiad. Felly, rydym yn bwriadu cynnwys yr esemptiadau hyn yn y Ddogfen Gymeradwy derfynol.

3.70 Codwyd pryderon ynglŷn â'r posibilrwydd o gamddefnyddio esemptiadau sy'n seiliedig ar ddichonoldeb economaidd. Fel yr amlinellwyd yn yr ymgynghoriad, rhaid cyflwyno tystiolaeth i'r corff rheoli adeiladu i ddangos pam na fyddai'n rhesymol disgwyl i ofynion gael eu bodloni. Roedd rhai ymatebwyr yn gwrthwynebu esemptiadau cyffredinol ar gyfer anheddau mewn ardaloedd cadwraeth. Fel y nodwyd yn yr ymgynghoriad, bydd yr esemptiadau hyn yn parhau i fod yn amodol ar gytundeb â'r Swyddog Cadwraeth lleol a/neu adran Rheoli Datblygu'r awdurdod lleol, yn unol ag Adran 0 o Ddogfen Gymeradwy L, Cyfrol 1.

3.71 Tynnodd yr adborth sylw at y posibilrwydd y bydd sefyllfaoedd lle y gallai caniatâd cynllunio gyfyngu ar y gallu i osod rhai o'r mesurau arfaethedig, megis paneli solar ffotofoltäig neu bympiau gwres, er enghraifft lle mae'r Awdurdodau Cynllunio Lleol wedi diddymu hawliau datblygiad a ganiateir. Mewn ymateb i hynny, byddwn yn diwygio canllawiau'r esemptiadau yn y Ddogfen Gymeradwy derfynol i lwfio ar gyfer amgylchiadau o'r fath, yn amodol ar gyflwyno'r dystiolaeth briodol i'r corff rheoli adeiladu.

**Cwestiwn 43: A oes unrhyw agweddau eraill ar y Rheoliadau Adeiladu neu ganllawiau'r Ddogfen Gymeradwy gysylltiedig, er enghraifft ar ddiogelwch neu safonau adeiladu eraill, y dylid eu hadolygu neu eu diweddaru er mwyn ystyried y cynnig hwn?**

3.72 **Nododd yr ymatebwyr y pwyntiau canlynol**

- **Rhan Q:** Gallai newidiadau dilynol i Ran Q effeithio ar fanylebau ffenestri y bydd y newidiadau arfaethedig i Rannau L ac O yn effeithio arnynt. Byddai'r diwydiant yn gwerthfawrogi ‘golwg ar y dyfodol’ er mwyn deall y newidiadau a'r amserlenni disgwyliedig.
- **Rhan A**: Mae'n bosibl y bydd y cynigion yr ymgynghorir arnynt yn effeithio ar lwythi strwythurol a gofynion cysylltiedig.
- **Rhan B**: Mae'n bosibl y bydd angen adolygu canllawiau diogelwch tân. Ymhlith y ceisiadau penodol roedd canllawiau ar bibellwaith sy'n mynd drwy fannau gwarchodedig ac ystyried goblygiadau diogelwch tân technolegau fel systemau ffotofoltäig a phaneli cladin anllosgadwy. Hefyd,

gofynnodd rhai a oedd gwaith ymchwil wedi cael ei wneud i'r risgiau tân sy'n gysylltiedig â phaneli ffotofoltäig.

- **Rhannau C ac F**: Yr angen i adolygu darpariaethau lleithder, aerglosrwydd ac awyru. Byddai hyn yn sicrhau na fydd cynnydd mewn lefelau inswleiddio, gwell aerglosrwydd a gwasanaethau newydd yn creu risgiau sy'n gysylltiedig â lleithder nac ansawdd aer dan do, yn enwedig yn y mannau lle mae anheddau hŷn ac estyniadau newydd yn cyfarfod.
- **Adeiladau hŷn**: Adolygu'r canllawiau ar ôl-osod deunydd inswleiddio a phontio thermol ar gyfer anheddau hŷn.
- **Storio trydan**: Mae angen canllawiau rheoleiddiol ar gyfer systemau storio trydan. Dylai'r rhain gyfeirio at argymhellion PAS:63100, ac awgrymwyd y dylid darparu gofodau sydd â sgôr tân ac sy'n barod ar gyfer batris.
- **Pasbortau adeilad**: Gwelwyd gwerth mewn cadw cofnodion gwell ar gyfer estyniadau, gan gynnwys cofnodi penderfyniadau dylunio, gwybodaeth am gynhyrchion a data comisiynu, i ategu asesiadau diogelwch a gwelliannau o ran ynni yn y dyfodol.
- **Polisi cynllunio a chydgysylltu**: Byddai cydgysylltu â pholisi cynllunio a gofynion lleol o ran ynni adnewyddadwy yn helpu i osgoi dyblygu neu ansicrwydd.
- **Cysondeb rhwng Dogfennau Cymeradwy**: Mae angen diweddariadau cyson i'r holl Ddogfennau Cymeradwyo cysylltiedig er mwyn osgoi dryswch ar y cam trosglwyddo.

**Ymateb y Llywodraeth i gwestiwn 43**

3.73 Rydym yn croesawu'r adborth a roddwyd. Cododd sawl ymatebydd bryderon ynglŷn â risgiau diogelwch tân posibl a fyddai'n gysylltiedig â gosod paneli solar ffotofoltäig a systemau storio trydan o dan y safonau arfaethedig. Rydym yn cynnig adolygu rhannau penodol o Ddogfen Gymeradwy B (Diogelwch Tân) yn y dyfodol agos, a chaiff y meysydd hyn eu hystyried fel rhan o'r adolygiad.

3.74 Rydym yn bwriadu cynnwys nodyn ychwanegol yn fersiwn derfynol Dogfen Gymeradwy L (cyfrol 1) ar gyfer gosod technoleg adnewyddadwy pan fydd annedd yn cael estyniad sylweddol. Bydd y sylwebaeth hon yn esbonio lle mae technoleg solar yn cael ei gosod ar doeau newydd neu bresennol, bydd angen ystyriaethau ar gyfer y gofynion yn Rhan A (Strwythur).

3.75 Lle y gwnaeth ymatebwyr sylwadau neu awgrymiadau ynghylch rhannau eraill o'r Rheoliadau Adeiladu, rydym yn cydnabod yr adborth hwn a byddwn yn ei gofnodi i'w ystyried mewn adolygiadau o'r meysydd hyn yn y dyfodol.

3.76 Rydym yn gwerthfawrogi'r sylwadau am gydgysylltu â pholisi cynllunio mewn perthynas â gofynion o ran ynni adnewyddadwy. Fel yr amlinellwyd yn ein hymateb i Gwestiwn 68, cyfeiriwn at ymgynghoriad ac ymateb gan Lywodraeth Cymru a oedd yn ystyried hawliau datblygiad a ganiateir penodol yn 2025. Cyhoeddwyd ymateb y Llywodraeth ar ddiwedd y llynedd ac mae'n

nodi sut rydym yn bwriadu bwrw ymlaen. Gellir gweld ymateb y Llywodraeth drwy ddilyn y ddolen ganlynol: Newidiadau i hawliau datblygu a ganiateir | LLYW.CYMRU

# 4. Safonau Rhan L ar gyfer Adeiladau Annomestig Newydd yn 2025

4.1 Roedd Pennod 4 yr ymgynghoriad yn cynnwys ein cynigion ar gyfer newidiadau i'r ffordd y caiff Rheoliadau Adeiladu eu cymhwyso at adeiladau annomestig. Gwnaethom gynnig y newidiadau canlynol:

- Codiad mewn safonau effeithlonrwydd ynni yn Rhan L. Yn benodol, gwnaethom gynnig bod system wresogi carbon isel yn rhan hanfodol o'r fanyleb adeilad.
- Mandadu tystiolaeth ffotograffig er mwyn dangos cydymffurfiaeth, gan ganolbwyntio ar feysydd risg uchel lle gallai ansawdd, newidiadau neu amnewidiadau adeiladu yn ystod y broses adeiladu effeithio ar y canlyniadau perfformiad a ragfynegwyd.

**Crynodeb o'r ymatebion**

**Cwestiwn 48: Pa lefel o welliant i'r safonau effeithlonrwydd ynni yn y Rheoliadau Adeiladu y dylid ei chyflwyno yn 2025?**

| Cwestiwn 48: Pa lefel o welliant i'r safonau effeithlonrwydd ynni yn y Rheoliadau Adeiladu y dylid ei chyflwyno yn 2025? | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Pawb a ymatebodd | Pensaer | Adeiladwr/Datblygwr | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Gweithiwr Proffesiynol ym maes Adeiladu | Dylunydd/Peiriannydd/Syrfëwr | Asesydd Ynni | Sector ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/cadwyn gyflenwi | Parti Arall â Diddordeb (rhowch fanylion) | Rheolwr Eiddo/Cymdeithas Tai/Landlord | Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu | Adeiladwr bach/canolig | Heb ei nodi | Adeiladwr tai mawr |
| **Cyfanswm** | **69** | **9** | **3** | **1** | **3** | **7** | **2** | **0** | **8** | **11** | **22** | **2** | **0** | **1** | **0** | **0** |
| a. Dim newid | 7% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 38% | 9% | 5% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| b. Opsiwn 1 – lleihau allyriadau $CO_2$ 78% | 26% | 0% | 0% | 0% | 0% | 29% | 50% | 0% | 63% | 27% | 27% | 50% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| c. Opsiwn 2 – lleihau allyriadau CO2 94% | 51% | 100% | 67% | 100% | 100% | 71% | 50% | 0% | 0% | 18% | 45% | 50% | 0% | 100% | 0% | 0% |
| d. Arall | 16% | 0% | 33% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 45% | 23% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |

4.2 O'r 69 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, dewisodd tua hanner (51%) Opsiwn 2. Dangoswyd llai o gefnogaeth i Opsiwn 1 (26% o'r ymatebwyr). Dewisodd 7% ‘Dim newid’ a dewisodd 16% ‘Arall’.

**Rhesymau a roddwyd gan y rhai a ddewisodd “dim newid”**

- **Goblygiadau cost:** Pryderon ynglŷn â'r gost ychwanegol i ddatblygwyr yn sgil codi'r safonau. Mae datblygwyr yn ei chael hi'n anodd cyrraedd targedau presennol Rhan L.

- **Amserlen y polisi.** Dylai'r codiad yn y safonau carbonau gyd-fynd â'r amserlen a nodir yng nghyhoeddiadau Llywodraeth y DU ar y newid i dechnolegau carbon isel, gan ystyried yr heriau o ran sgiliau a wynebir ar hyn o bryd.

**Rhesymau dros gefnogi Opsiwn 1**

- **Gwell Hyblygrwydd**: Mae Opsiwn 1 yn cynnig ateb sy'n taro cydbwysedd rhwng perfformiad da a hyfywedd economaidd.
- **Cost is**: Credir bod effaith economaidd Opsiwn 1 ar brosiectau adeiladu yn fach iawn. Mae'n llai beichus ac yn haws ei gyflawni nag Opsiwn 2.
- **Cynnwys ynni adnewyddadwy ar y safle**: Mae'n ymddangos bod gosod paneli ffotofoltäig ar y to yn hollbwysig er mwyn cydymffurfio. Fodd bynnag, mae angen taro cydbwysedd rhwng cyflwyno paneli ffotofoltäig ac elfennau eraill fel ffenestri to er mwyn darparu golau dydd, a thoeau gwyrdd neu las er mwyn helpu i reoli dŵr glaw. Mae'n bosibl y byddai angen llai o baneli ffotofoltäig ar y to ar gyfer Opsiwn 1 o gymharu ag Opsiwn 2.

**Rhesymau dros gefnogi Opsiwn 2**

- **Mwy uchelgeisiol**: Roedd Opsiwn 2 yn cael ei ffafrio o ystyried yr angen taer am leihau allyriadau carbon a gwneud Cymru'n fwy gwydn o ran ynni, yn enwedig gan fod Cymru wedi datgan argyfwng ynni yn ffurfiol ac am y dylai gyflymu'r rheoliadau cymaint â phosibl.
- **Ffocws ar adeiladwaith yn gyntaf**: Ystyrir y byddai Opsiwn 1 yn hyrwyddo gwelliannau i amlen, aerglosrwydd a phontio thermol adeiladau a fydd yn cael effaith hirdymor, gan leihau'r angen am waith ôl-osod drud yn y dyfodol. Mae gwella'r amlen yn cyd-fynd â methodolegau AECB CarbonLite a Passivhaus sydd â'r nod o leihau'r galw am wresogi a lleihau'r bwlch perfformiad.
- **Cynhyrchu mwy o ynni gan ddefnyddio paneli ffotofoltäig**: Mae hyn yn ffordd effeithiol o fynd i'r afael â thlodi tanwydd ac argyfwng yr hinsawdd gan alluogi technolegau gwresogi carbon isel ar yr un pryd.
- **Osgoi ôl-osod**: Nod rhoi'r cynigion mwy datblygedig ar waith fydd osgoi'r angen am waith ôl-osod pellach pan fydd y rheoliadau'n newid eto os eir ar drywydd Opsiwn 1 yn unig nawr.

**Pwyntiau a godwyd gan y rhai a ddewisodd "Arall"**

- **Fawr ddim gwelliant i lefelau adeiladwaith, os o gwbl:** Tybir nad yw'r naill opsiwn na'r llall yn rhoi llawer o bwyslais ar y dull adeiladwaith yn gyntaf. Gallai hyn olygu y bydd angen gwaith ôl-osod yn y dyfodol.
- **Cyfuniad o Opsiwn 1 a 2**: Dylai'r manylebau adeilad tybiannol fabwysiadu'r gofynion adeiladwaith uwch o Opsiwn 1 a'r gofynion

ffotofoltäig uwch o Opsiwn 2. Dylai hyn arwain at y lleihad mwyaf mewn biliau ynni ac allyriadau carbon.

- **Mae angen mwy o ffocws ar ansawdd gwaith adeiladu**: Mae angen i'r perfformiad a ddylunnir fod yn agos at y perfformiad pan gaiff yr adeilad ei ddefnyddio.
- **Dull gweithredu cyfannol**: Dylai fod codiad a arweinir gan adeiladwaith, ynghyd â gwelliant ym mherfformiad systemau, gwell dealltwriaeth o garbon ymgorfforedig a mwy o ffocws ar ganlyniadau a fesurir. Bydd hyn yn sicrhau bod adeiladau annomestig newydd yn cyd-fynd ag amcanion sero net hirdymor ac yn parhau i fod yn effeithlon, yn wydn ac yn fforddiadwy i'r gweithredu.

**Pwyntiau eraill a godwyd**

- **Mae dibyniaeth ar baneli ffotofoltäig yn her i gydymffurfiaeth**: Roedd pryder y gall y targed uchel yn Rhan L olygu y bydd angen gosod systemau ffotofoltäig er mwyn cydymffurfio. Mae'n bosibl na fydd modd gwneud hyn ym mhob senario. Codwyd ffactorau fel cyfeiriadaeth, siâp y to, cysgod a diogelwch tân, i gyd fel materion sy'n benodol i safleoedd a allai fod yn rhwystr rhag cyflawni'r lefel a nodir yn y fanyleb adeilad dybiannol o ran systemau ffotofoltäig.
- **Arwynebedd paneli ffotofoltäig:** Dywedodd un ymatebydd yn benodol nad yw paneli ffotofoltäig sy'n gorchuddio 75% o arwynebedd y to yn gadael digon o le ar gyfer ffenestri to, mynediad diogel a mynediad ar gyfer gwaith cynnal a chadw ar gyfer y ffenestri to a phaneli, landeri, systemau diogelwch to a chyfarpar arall y gall fod eu hangen.
- **Canllawiau a chymorth**: Mae angen canllawiau clir ar fanylebau adeilad tybiannol, pympiau gwres cymeradwy a thybiaethau ynghylch ynni adnewyddadwy ar gyfer prosesau gwirio a chomisiynu.
- **Hyblygrwydd dylunio**: Cydnabuwyd bod y cynigion yn dal i gynnig rhywfaint o hyblygrwydd dylunio i fodloni gofynion y Rheoliadau Adeiladu.
- **Safonau Passivhaus**: Nodir bod yr ymatebwyr wedi cyfeirio at safonau Passivhaus, ardystiad methodoleg PHPP ac ardystiad CarbonLite yn aml.

**Ymateb y Llywodraeth i gwestiwn 48**

4.3 Roedd yn well gan fwy o'r ymatebwyr Opsiwn 2, ond gallai'r pryderon a godwyd ynglŷn ag Opsiwn 2 a'i ofyniad i baneli ffotofoltäig orchuddio 75% o arwynebedd to adeiladau Math 3 a oleuir o'r to (tabl 8) gyflwyno goblygiadau pellgyrhaeddol megis llai o olau to naturiol, cyfyngiadau ar fynediad ar gyfer gwaith cynnal a chadw, glanhau ac archwilio, ac mae'n debygol y bydd pwysau trymach y paneli'n arwain at oblygiadau i ddurwaith adeileddol a chryfder cynheiliaid paneli to.

4.4 Gwnaethom hefyd ystyried adeiladau Mathau 1 a 2 a oleuir o'r ochr a chyfyngiadau posibl y gofyniad i baneli ffotofoltäig orchuddio 50% o'r to o dan Opsiwn 2 ar adeiladau yn y categori hwnnw.

4.5 I gloi, credir y byddai'n ymarferol mynd ar drywydd Opsiwn 2 yn unol â'r adborth, ond gan leihau'r gofyniad o ran arwynebedd paneli ffotofoltäig (yn Nhabl 7 methodoleg y Fethodoleg Gyfrifo Genedlaethol) ar gyfer adeiladau Math 1 a 2 o 50% i 40%, a lleihau'r gofyniad o ran arwynebedd paneli ffotofoltäig yn Nhabl 8 ar gyfer adeiladau Math 3 o 75% i 60%. Bydd yr holl baramedrau eraill o dan Opsiwn 2 yn aros yr un fath â'r papurau ymgynghori.

4.6 Nodir fod yr ymatebwyr wedi cyfeirio at safonau Passivhaus, ardystiad methodoleg PHPP ac ardystiad CarbonLite yn aml. Fodd bynnag, nid yw'r mater hwn yn destun ymgynghoriad ar hyn o bryd ac ni ellir ei ystyried ar yr adeg hon, ond caiff ei nodi i gael ei ystyried mewn unrhyw adolygiad o'r ymgynghoriad yn y dyfodol.

### Cwestiwn 49: A ydych yn cytuno â'r fethodoleg a amlinellir yn y canllaw ar fodelu'r Fethodoleg Gyfrifo Genedlaethol ar gyfer Safon Rhan L 2025?

| **Cwestiwn 49: A ydych yn cytuno â'r fethodoleg a amlinellir yn y canllaw ar fodelu'r Fethodoleg Gyfrifo Genedlaethol ar gyfer Safon Rhan L 2025?** | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Pawb a ymatebodd | Pensaer | Adeiladwr/Datblygwr | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Gweithiwr Proffesiynol ym maes Adeiladu | Dylunydd/Peiriannydd/Syrfëwr | Asesydd Ynni | Sector ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/cadwyn gyflenwi | Parti Arall â Diddordeb (rhowch fanylion) | Rheolwr Eiddo/Cymdeithas Tai/Landlord | Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu | Adeiladwr bach/canolig | Heb ei nodi | Adeiladwr tai mawr |
| **Cyfanswm** | **61** | **8** | **2** | **1** | **3** | **7** | **2** | **0** | **8** | **9** | **18** | **2** | **0** | **1** | **0** | **0** |
| a. Ydw | 36% | 0% | 0% | 0% | 0% | 14% | 50% | 0% | 75% | 56% | 39% | 100% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| b. Nac ydw | 44% | 100% | 50% | 100% | 100% | 57% | 50% | 0% | 0% | 33% | 28% | 0% | 0% | 100% | 0% | 0% |
| c. Ddim yn siŵr | 20% | 0% | 50% | 0% | 0% | 29% | 0% | 0% | 25% | 11% | 33% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |

4.7 O'r 61 o ymatebwyr, roedd mymryn yn fwy yn anghytuno (44%) â'r fethodoleg nag a oedd yn cytuno (36%). Roedd 20% o'r ymatebwyr yn ansicr.

#### Rhesymau dros gefnogi'r cynnig

4.8 Ni roddwyd llawer o fanylion yn yr ymatebion.

#### Rhesymau dros wrthwynebu'r cynnig

- **Pryderon cyffredinol ynglŷn â chywirdeb**: Dywedodd rhai fod SBEM yn llai cywir na SAP. Roedd gan eraill bryderon ynglŷn â SBEM a SAP. Yn fwy cyffredinol, nodwyd bod bylchau sylweddol wedi cael eu gweld o fewn

SBEM a SAP rhwng y perfformiad a fodelwyd a'r perfformiad gwirioneddol.

- **Pryderon mwy penodol** Awgrymwyd nad yw SBEM yn adlewyrchu perfformiad adeiladau hynod inswleiddiedig, aerglos, ynni isel neu safon Passivhaus. Hefyd, awgrymwyd bod SBEM yn amcangyfrif y galw am wresogi gofod yn rhy isel ac yn amcangyfrif effaith technolegau ynni adnewyddadwy neu wasanaethau adeiladau tra effeithlon yn rhy uchel.

**Argymhellion ynghylch sut y dylid gwella'r fethodoleg**

- **Dilysu**: Dylai'r fethodoleg gael ei dilysu yn erbyn data go iawn.
- **Perfformiad go iawn**: Dylai'r fethodoleg ddatblygu i adlewyrchu perfformiad adeiladwaith ac arbedion effeithlonrwydd systemau gwresogi go iawn, gan gynnwys colledion dosbarthu a storio.
- **Cydbwysedd rhwng adeiladwaith ac ynni adnewyddadwy**: Ni ddylai'r fethodoleg ganiatáu i adeiladwaith gwael gael ei wrthbwyso gan dechnolegau ynni adnewyddadwy neu gyfarpar perfformiad uchel.
- **Cynnwys pob defnydd gweithredol o ynni**: Dylai'r fethodoleg gynnwys ffyrdd rheoleiddiedig ac anrheoleiddiedig o ddefnyddio ynni er mwyn rhoi darlun llawn o'r defnydd o ynni.

**Pecyn Cynllunio Passivhaus (PhPP)**: **Dylai Pecyn Cynllunio Passivhaus gael ei gydnabod fel methodoleg gymeradwy. (noder: gweler yr un sylw perthnasol ar PHPP o dan Gwestiwn 48) Ymhlith y sylwadau eraill a wnaed gan ymatebwyr roedd y canlynol.**

- **Systemau Awtomeiddio a Rheoli Adeiladau (BACS)**: Nid yw'r fethodoleg yn ystyried Systemau Awtomeiddio a Rheoli Adeiladau'n ddigonol.
- **Carbon ymgorfforedig**: Dylai'r fethodoleg helpu i adrodd ar garbon ymgorfforedig fel mater o drefn.
- **Goleuadau**: Wrth gymhwyso'r Fethodoleg Gyfrifo Genedlaethol at oleuadau, dylai tybiaethau ynghylch effeithiolrwydd a pharamedrau modelu gael eu cysoni â'r Dogfennau Cymeradwy.
- **Cysondeb â Lloegr**: Dylai'r fethodoleg barhau i fod yr un fath yng Nghymru a Lloegr.

**Ymateb y Llywodraeth i gwestiwn 49**

4.9 Ymateb cymysg a gafwyd, ac roedd llawer o'r ymatebion yn ymwneud â SBEM fel y fethodoleg gyfrifo genedlaethol yn hytrach na'r canllaw modelu. Er mwyn ymgorffori llawer o sylwadau’r ymgynghoriad ym mherthynol i SBEM, byddai angen llawer o waith cysoni ochr yn ochr â Llywodraeth y DU i ddiwygio SBEM a’r Fethodoleg Gyfrifo Genedlaethol, yn ogystal â phroses ymgynghori ar wahân, felly ni ellir darparu ar gyfer hyn fel rhan o'r

ymgynghoriad hwn, ond caiff yr ymatebion eu cofnodi er mwyn iddynt gael eu hystyried yn y dyfodol.

4.10 Byddwn yn mynd ar drywydd y fethodoleg arfaethedig a amlinellir yng nghanllaw modelu'r Fethodoleg Gyfrifo Genedlaethol ar gyfer safon Rhan L 2025, gan wneud rhai diwygiadau i'r adeilad tybiannol er mwyn adlewyrchu'r ymateb i gwestiwn 48.

**Cwestiwn 50: Rhowch unrhyw sylwadau pellach ar adnodd cSBEM sy'n dangos y Fethodoleg Gyfrifo Genedlaethol yn cael ei rhoi ar waith.**

4.11 Gwnaeth yr ymatebwyr sylwadau ar welliannau neu newidiadau yn y fethodoleg sydd wedi gwella cywirdeb a defnyddioldeb:

- Cyfrifo arbedion effeithlonrwydd tymhorol systemau pympiau gwres yn well.
- Datblygiadau fel goleuadau deufalent.

4.12 Ailadroddodd sawl un o'r ymatebwyr y pryderon a amlinellwyd ganddynt yng Nghwestiwn 49, gan gynnwys ynglŷn â chywirdeb SBEM a thybiaethau ynghylch effeithiolrwydd goleuadau. Hefyd, argymhellwyd y dylid mabwysiadu Pecyn Cynllunio Passivhaus (PhPP).

**Cwestiwn 51: Rhowch unrhyw sylwadau pellach ar y dogfennau ymchwil a ddarparwyd ar y cyd ag adnodd cSBEM ac sy'n cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r Fethodoleg Gyfrifo Genedlaethol, SBEM ac iSBEM.**

4.13 Roedd yr ymateb i'r cwestiwn hwn yn gyfyngedig. Roedd y sylwadau yn cynnwys:

- Mae'r dogfennau ymchwil yn gynhwysfawr, ond bydd angen eu diweddaru'n barhaus mewn perthynas â pherfformiad go iawn.
- Ailadroddwyd pryderon a wnaed mewn ymateb i gwestiynau 49 a 50 nad yw SBEM yn gywir, ac y dylid mabwysiadu Pecyn Cynllunio Passivhaus (PhPP).
- Roedd y sylwadau a wnaed ynglŷn â cSBEM yn awgrymu bod angen i ddata a gwybodaeth am berfformiad go iawn gael eu datblygu, gan gynnwys defnydd rheoleiddiedig ac anrheoleiddiedig o ynni er mwyn adnabod defnydd adeilad nodweddiadol o ynni.

**Ymateb y Llywodraeth i gwestiynau 50 a 51**

4.14 Penseiri a/neu ddylunwyr Passivhaus oedd nifer sylweddol o'r ymatebwyr a oedd yn annog y defnydd o PHPP fel dull cyfrifo a ffefrir.

4.15 Y pryderon eraill a godwyd oedd y byddai safonau effeithlonrwydd goleuadau uwch yn anodd eu cyflawni yn gorfforol, ac y gallai pwyso am lefelau perfformiad anghyraeddadwy gael effaith andwyol ar wneuthurwyr yn y DU.

4.16 O ran yr ymatebwyr a ddewisodd "Ddim yn siŵr", y rheswm dros hynny mewn nifer o achosion oedd eu bod yn canolbwyntio ar ddomestig yn unig oeddent ac, ar sail hynny, ni allai eu hymateb effeithio ar y ffafriaeth o blaid yr ymatebion "Ydw" na "Nac ydw".

4.17 Mae'r ymatebion a gyflwynwyd wedi cael eu hystyried yn ofalus mewn perthynas â phryderon ynglŷn â safonau ar gyfer effeithiolrwydd goleuadau ac, yn dilyn adolygiad pellach, rydym wedi penderfynu egluro canllawiau'r cynigion ynghylch goleuadau i adlewyrchu hyn. Felly, byddwn yn addasu'r gofynion arfaethedig ar gyfer effeithiolrwydd ffynonellau golau yn unol â hynny fel rhan o'r fersiwn derfynol o Ddogfen Gymeradwy L a gyhoeddir.

4.18 Gwerthfawrogir y sylwadau ar SBEM sydd wedi cael eu nodi am ystyriaeth ochr yn ochr ag unrhyw adolygiad o SBEM yn y dyfodol.

4.19 Yn seiliedig ar yr ymatebion hyn i'r ymgynghoriad, byddwn yn ystyried yr ymatebion wrth wneud penderfyniad terfynol ynghylch y fethodoleg arfaethedig a amlinellir yng nghanllaw modelu'r Fethodoleg Gyfrifo Genedlaethol ar gyfer safon Rhan L 2025 fel y'i cyflwynir yn yr ymgynghoriad.

**Cwestiwn 52: A ydych yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig i effeithlonrwydd a rheolaethau gofynnol gwasanaethau adeiladau a nodir yn Adran 6 o'r fersiwn ddrafft o Ddogfen Gymeradwy L, Cyfrol 2: Adeiladau heblaw anheddau?**

| **Cwestiwn 52: A ydych yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig i effeithlonrwydd a rheolaethau gofynnol gwasanaethau adeiladau a nodir yn Adran 6 o'r fersiwn ddrafft o Ddogfen Gymeradwy L, Cyfrol 2: Adeiladau heblaw anheddau?** | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Pawb a ymatebodd | Pensaer | Adeiladwr/Datblygwr | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Gweithiwr Proffesiynol ym maes Adeiladu | Dylunydd/Peiriannydd/Syrfëwr | Asesydd Ynni | Sector ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/cadwyn gyflenwi | Parti Arall â Diddordeb (rhowch fanylion) | Rheolwr Eiddo/Cymdeithas Tai/Landlord | Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu | Adeiladwr bach/canolig | Heb ei nodi | Adeiladwr tai mawr |
| **Cyfanswm** | **47** | **2** | **2** | **0** | **1** | **4** | **1** | **0** | **8** | **10** | **17** | **2** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| a. Ydw | 53% | 0% | 0% | 0% | 0% | 50% | 100% | 0% | 100% | 50% | 41% | 100% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| b. Nac ydw | 17% | 0% | 0% | 0% | 100% | 25% | 0% | 0% | 0% | 30% | 18% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| c. Ddim yn siŵr | 30% | 100% | 100% | 0% | 0% | 25% | 0% | 0% | 0% | 20% | 41% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |

4.20 Atebodd 47 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. O'r rhain, roedd lleiafrif bach (53%) yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig, ac roedd 17% yn anghytuno. Roedd 30% yn ansicr.

**Rhesymau dros gefnogi'r cynnig**

- **Gwell perfformiad ynni**: Bydd y newidiadau arfaethedig i effeithlonrwydd gofynnol yn gwella perfformiad adeiladau, ac yn helpu i gyflawni amcanion lleihau ynni.
- **Gwelliannau technolegol**: Mae'r newidiadau arfaethedig yn gyflawnadwy yn dechnegol ac yn cynnwys gwelliannau o ran effeithlonrwydd a rheolaethau technolegau fel pympiau gwres a goleuadau.
- **Cysondeb â Lloegr:** Mae'r newidiadau arfaethedig yn cysoni gofynion ar gyfer adeiladau annomestig â safonau y disgwylir iddynt gael eu mabwysiadu yn Lloegr. Bydd cysondeb yn ei gwneud yn haws rhoi'r newidiadau ar waith, gan gynnwys i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio yng Nghymru ac yn Lloegr.
- **Cysondeb â Rheoliadau Ecoddylunio**: Mynegwyd cefnogaeth o blaid sicrhau bod y gofynion yn parhau i fod yn gyson â Rheoliadau Ecoddylunio. Gofynnodd yr ymatebwyr am ganllawiau clir ar safonau cynnyrch derbyniol ar gyfer systemau nad ydynt o fewn cwmpas Rheoliadau Ecoddylunio.
- **Rheolaethau pympiau gwres:** Mynegwyd cefnogaeth o blaid y gofyniad arfaethedig i bympiau gwres gadw rheolaethau gwreiddiol gwneuthurwyr cyfarpar fel y prif reolaethau. Dywedodd yr ymatebwyr fod y rhain yn aml yn cael eu hepgor pan fydd systemau annomestig mwy yn dibynnu ar systemau rheoli adeiladau trydydd parti sydd â switshys i'w troi ymlaen a'u diffodd. Felly, cafodd y gofyniad arfaethedig na ddylai unrhyw reolaethau ychwanegol leihau ymarferoldeb rheolaethau gwreiddiol gwneuthurwyr cyfarpar, gan gynnwys modiwleiddio, ei groesawu.

**Rhesymau dros wrthwynebu'r cynnig**

- **Effeithlonrwydd pympiau gwres**: Dywedodd un ymatebydd fod y ffigurau SCOP arfaethedig ar gyfer pympiau gwres yn rhy isel. Cynigiodd un arall fod angen i systemau pympiau gwres gael eu rheoleiddio o ran darparu ffactor perfformiad tymhorol, ac nid dim ond sgôr y pwmp gwres ei hun ar wahân i'r system allyrru gwres.
- **Is-adran ar gyfer gwres rheiddiol**: Gofynnodd un ymatebydd am is-adran annibynnol ar gyfer gwres rheiddiol isgoch sy'n cydnabod ei ffordd wahanol o wresogi a'r arbedion ynni o gymharu â dulliau gwresogi trydan eraill.
- **Cynnwys Adfer Gwres o Ddŵr Gwastraff (WWHR)**: Dywedodd un ymatebydd y dylai WWHR masnachol gael ei gynnwys ar gyfer adeiladau sydd â dyletswydd i ddarparu ystafelloedd ymolchi.
- **Pryderon ynglŷn â goleuadau arbenigol**: Mynegodd sawl ymatebydd o'r diwydiant goleuadau bryder ynglŷn ag effaith y newidiadau arfaethedig ar oleuadau arbenigol. Gallai'r gwerth effeithiolrwydd arfaethedig gyfyngu'n anfwriadol ar y defnydd o oleuadau arbenigol o ansawdd da, er enghraifft mewn ysbytai, cartrefi gofal, orielau, amgueddfeydd a theatrau. Nid yw

lwfio yn y fethodoleg ar gyfer cyfartaleddu effeithiolrwydd bob amser yn diogelu goleuadau arbenigol. Mae'r defnydd o effeithiolrwydd unedau goleuo yn hytrach nag effeithiolrwydd ffynonellau golau yn ei gwneud yn anos cyrraedd y trothwyon arfaethedig. Mae ymatebwyr yn argymell cadw'r gwerth effeithiolrwydd presennol, sef 85 lwmen fesul watt cylched ar gyfer goleuadau arddangos. Awgrymwyd y gallai'r safonau gofynnol gynnwys esemptiad ar gyfer goleuadau arbenigol.

**Sylwadau eraill**

- **Systemau Rheoli Adeiladau (BMS)**: Pwysleisiodd sawl ymatebydd bwysigrwydd rheoli systemau adeiladau'n dda er mwyn sicrhau cynyddu arbedion ynni a chysur thermol i'r eithaf.
- **Safonau adeiladwaith gofynnol**: Amlinellodd un ymatebydd ei wrthwynebiad i'r penderfyniad i gynnal safonau adeiladwaith gofynnol ar gyfer adeiladau annomestig newydd. Nid oedd cwestiwn amgen ar gael iddo roi'r adborth. Dywedodd fod canolbwyntio ar werthoedd U damcaniaethol yn unig yn rhy gyfyngedig ac y gall hynny arwain at ganlyniadau anfwriadol, megis perfformiad go iawn gwael ac esgeuluso ffactorau hollbwysig eraill fel ansawdd aer, diogelwch tân, perfformiad acwstig, a chynaliadwyedd. Yn lle hynny, gwnaeth sylwadau o blaid dull cyfannol sy'n integreiddio iechyd, diogelwch a llesiant mewn safonau adeiladu. Dylid ystyried gwydnwch a hyd oes deunydd inswleiddio hefyd. Argymhellodd y dylid ymgynghori ar dargedau adeiladwaith adeilad cyfan gan ddefnyddio metrig kWh/m² y flwyddyn, a fyddai'n sicrhau cysylltiad gwell rhwng perfformiad adeiladwaith a'r galw am wresogi, yn gwella tryloywder, ac yn hwyluso camau gorfodi.

**Ymateb y Llywodraeth i gwestiwn 52**

4.21 Gan ystyried yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad, byddwn yn bwrw ymlaen â mabwysiadu'r newidiadau arfaethedig i effeithlonrwydd a rheolaethau gofynnol gwasanaethau adeiladau a nodir yn Adran 6 o'r fersiwn ddrafft o Ddogfen Gymeradwy L, Cyfrol 2: Anheddau: Adeiladau heblaw anheddau, ond byddwn yn diwygio'r canllawiau yn y cynigion ynghylch goleuadau mewn ymateb i'r adborth. Felly, byddwn yn addasu'r gofynion arfaethedig ar gyfer effeithiolrwydd ffynonellau golau yn unol â hynny fel rhan o'r fersiwn derfynol o Ddogfennau Cymeradwy L a gyhoeddir.

## Cwestiwn 53: A ydych yn cytuno â'r newid arfaethedig yn y gofynion ar gyfer pan fydd BACS yn ofynnol mewn adeiladau?

| Cwestiwn 53: A ydych yn cytuno â'r newid arfaethedig yn y gofynion ar gyfer pan fydd BACS yn ofynnol mewn adeiladau? | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Pawb a ymatebodd | Pensaer | Adeiladwr/Datblygwr | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Gweithiwr Proffesiynol ym maes Adeiladu | Dylunydd/Peiriannydd/Syrfëwr | Asesydd Ynni | Sector ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/cadwyn gyflenwi | Parti Arall â Diddordeb (rhowch fanylion) | Rheolwr Eiddo/Cymdeithas Tai/Landlord | Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu | Adeiladwr bach/canolig | Heb ei nodi | Adeiladwr tai mawr |
| **Cyfanswm** | **38** | **2** | **2** | **0** | **1** | **4** | **1** | **0** | **8** | **6** | **11** | **2** | **1** | **0** | **0** | **0** |
| a. Ydw | 53% | 0% | 0% | 0% | 100% | 25% | 100% | 0% | 75% | 67% | 45% | 100% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| b. Nac ydw | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| c. Ddim yn siŵr | 47% | 100% | 100% | 0% | 0% | 75% | 0% | 0% | 25% | 33% | 55% | 0% | 100% | 0% | 0% | 0% |

4.22 O'r 38 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, roedd ychydig dros hanner yr ymatebwyr (53%) yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig. Nid oedd neb yn anghytuno â'r newidiadau arfaethedig ac roedd y gweddill yn ansicr.

### Adborth gan y rhai a oedd yn cefnogi'r cynnig

4.23 Rhesymau dros gefnogi'r cynnig

- **Mwy o arbedion ynni**: Bydd gostwng y trothwy yn dod â rhagor o adeiladau o fewn cwmpas y gofynion, a bydd hynny'n arwain at fwy o arbedion ynni.
- **Budd economaidd net:** Mae'r asesiad effaith yn dangos y byddai'r newid yn arwain at fudd net.
- **Gwell perfformiad adeiladau**: Bydd cynyddu'r gofynion ar gyfer BACS yn helpu i wella perfformiad go iawn drwy ymateb yn ddynamig i feddiannaeth ac amodau allanol.

4.24 Gwnaeth yr ymatebwyr yr awgrymiadau canlynol hefyd.

- **Gwella eglurder a chyflawnadwyedd**: Egluro'r galluoedd BACS sylfaenol disgwyliedig sy'n ofynnol. Ei gwneud yn ofynnol i ddogfennau comisiynu a throsglwyddo sicrhau bod perchnogion adeiladau'n cael canllawiau gweithredol. Caniatáu amser paratoi cyn rhoi'r newidiadau ar waith er mwyn rhoi cyfle i gaffael a gwella sgiliau.
- **Cynyddu uchelgais a chysoni â'r UE**: Awgrymodd un ymatebydd y dylai'r gofyniad fod yn berthnasol i bob adeilad sydd ag allbwn gwresogi, awyru ac aerdymheru o fwy na 70 kW. Byddai hyn yn gyson â'r gofynion mwy helaeth ar gyfer BACS a gyflwynwyd gan yr Undeb Ewropeaidd drwy'r Gyfarwyddeb Perfformiad Ynni Adeiladau (EPBD).

4.25 Ni wnaed sylwadau o sylwedd gan ymatebwyr a oedd yn ansicr.

### Ymateb y Llywodraeth i gwestiwn 53

4.26 O'r rhai a ddewisodd “Ddim yn siŵr”, rhoddodd tri ymatebydd adborth a oedd yn cynnwys: Ddim yn gallu gweld mantais yr asesiad effaith – nid eu maes arbenigedd – ac mae angen eglurhad pellach ynghylch adeiladau defnydd cymysg. Ni ellid ystyried mai sylwadau negyddol yw'r rhain ac felly nid ydynt yn newid y canrannau sydd o blaid neu yn erbyn y cynigion. Ni wnaed sylwadau i gyd-fynd â'r ymatebion “Ddim yn siŵr” eraill.

4.27 Yn seiliedig ar y ffaith bod 53% o blaid o gymharu â neb yn anghytuno, byddwn yn bwrw ymlaen ar sail y newid arfaethedig i'r gofynion o ran pryd y bydd BACS yn ofynnol mewn adeiladau fel y'i cyflwynir yn yr ymgynghoriad. Rydym hefyd yn nodi'r allbwn gwresogi, awyru ac aerdymheru o fwy na 70 kW o ofynion a gyflwynwyd gan yr Undeb Ewropeaidd, sy'n dod i rym yn 2029, a byddant yn cael eu hystyried fel rhan o unrhyw adolygiad Rhan L yn y dyfodol.

## Cwestiwn 54: A ydych yn cytuno â'r canllawiau arfaethedig ar y safon inswleiddio ar gyfer systemau dosbarthu gwres adeiladau yn Nogfen Gymeradwy L, Cyfrol 2: Adeiladau heblaw anheddau?

**Cwestiwn 54: A ydych yn cytuno â'r canllawiau arfaethedig ar y safon inswleiddio ar gyfer systemau dosbarthu gwres adeiladau yn Nogfen Gymeradwy L, Cyfrol 2: Adeiladau heblaw anheddau?**

| | Pawb a ymatebodd | Pensaer | Adeiladwr/Datblygwr | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Gweithiwr Proffesiynol ym maes Adeiladu | Dylunydd/Peiriannydd/Syrfëwr | Asesydd Ynni | Sector ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/cadwyn gyflenwi | Parti Arall â Diddordeb (rhowch fanylion) | Rheolwr Eiddo/Cymdeithas Tai/Landlord | Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu | Adeiladwr bach/canolig | Heb ei nodi | Adeiladwr tai mawr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **38** | **2** | **2** | **0** | **1** | **4** | **1** | **0** | **8** | **7** | **10** | **2** | **1** | **0** | **0** | **0** |
| a. Ydw | 66% | 0% | 0% | 0% | 100% | 100% | 100% | 0% | 75% | 71% | 50% | 100% | 100% | 0% | 0% | 0% |
| b. Nac ydw | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| c. Ddim yn siŵr | 34% | 100% | 100% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 25% | 29% | 50% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |

4.28 Atebodd 38 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Roedd mwyafrif o'r ymatebwyr (66%) yn cytuno â'r canllawiau arfaethedig. Roedd y gweddill yn ansicr (34%).

### Rhesymau dros gefnogi'r cynnig

- **Colli llai o wres**: Bydd y canllawiau arfaethedig ar gyfer cyfleusterau storio dŵr poeth a phibellau dosbarthu gwres yn lleihau colli gwres ac yn cynyddu effeithlonrwydd, gan arwain at leihau carbon.
- **Llai o orgynhesu**: Mantais lleihau colli gwres mewn pibellau dosbarthu fydd lleihau gorgynhesu o fewn ardaloedd cymunedol anheddau.
- **Cefnogaeth i ddefnyddio CP1**: Mae CIBSE CP1 yn ganllaw cydnabyddedig a chynhwysfawr. Hefyd, CP1 yw'r sail ar gyfer y Cynllun

Sicrwydd Technegol Rhwydweithiau Gwresogi (HNTAS) sydd i ddod. Croesewir y cysondeb hwn â HNTAS a CP1. Nodwyd y gellir defnyddio BS 5422 pan na fydd CP1 yn berthnasol.

4.29 Ni chafwyd sylwadau ychwanegol o sylwedd gan ymatebwyr a oedd yn ansicr ynglŷn â'r canllawiau arfaethedig.

**Ymateb y Llywodraeth i gwestiwn 54**

4.30 Ni chafwyd sylwadau gan y mwyafrif o ymatebwyr a oedd yn ansicr, ac felly ni ellir ystyried bod y 34% o ymatebion "Ddim yn siŵr" yn dylanwadu ar yr ymateb o blaid "Ydw" na "Nac ydw".

4.31 Yn seiliedig ar y mwyafrif o 66% o ymatebion o blaid y cynigion, byddwn yn bwrw ymlaen ar sail mabwysiadu canllawiau arfaethedig yr ymgynghoriad ar y safon inswleiddio ar gyfer systemau dosbarthu gwres adeiladau yn Nogfen Gymeradwy L, Cyfrol 2: Adeiladau heblaw anheddau.

### Cwestiwn 55: A ydych yn cytuno y dylid cadw'r canllawiau presennol ar gyfer adeiladau â galw isel am ynni nad ydynt wedi'u hesemptio rhag y Rheoliadau Adeiladu, fel y disgrifir yn Nogfen Gymeradwy L, Cyfrol 2: Adeiladau heblaw anheddau, heb eu diwygio?

**Cwestiwn 55: A ydych yn cytuno y dylid cadw'r canllawiau presennol ar gyfer adeiladau â galw isel am ynni nad ydynt wedi'u hesemptio rhag y Rheoliadau Adeiladu, fel y disgrifir yn Nogfen Gymeradwy L, Cyfrol 2: Adeiladau heblaw anheddau, heb eu diwygio?**

| | Pawb a ymatebodd | Pensaer | Adeiladwr/Datblygwr | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Gweithiwr Proffesiynol ym maes Adeiladu | Dylunydd/Peiriannydd/Syrfëwr | Asesydd Ynni | Sector ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/cadwyn gyflenwi | Parti Arall â Diddordeb (rhowch fanylion) | Rheolwr Eiddo/Cymdeithas Tai/Landlord | Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu | Adeiladwr bach/canolig | Heb ei nodi | Adeiladwr tai mawr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **37** | **2** | **2** | **0** | **1** | **3** | **1** | **0** | **8** | **7** | **11** | **2** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| a. Ydw | 54% | 0% | 0% | 0% | 100% | 67% | 100% | 0% | 88% | 43% | 45% | 50% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| b. Nac ydw | 3% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 9% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| c. Ddim yn siŵr | 43% | 100% | 100% | 0% | 0% | 33% | 0% | 0% | 13% | 57% | 45% | 50% | 0% | 0% | 0% | 0% |

4.32 Cafwyd 37 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd ychydig dros hanner yr ymatebwyr (54%) yn cytuno â'r cynnig. Roedd un ymatebydd (3%) yn anghytuno â'r cynnig ac roedd 43% yn ansicr.

**Adborth gan y rhai a oedd yn cefnogi'r cynnig**

4.33 Rhesymau dros gefnogi'r cynnig

- **Symlrwydd** Mae cadw'r canllawiau yn osgoi cymhlethdod diangen.
- **Addasrwydd**: Mae'r canllawiau presennol yn briodol am fod math, natur a

nifer yr adeiladau hyn yn golygu y byddai'n afresymol cymhwyso safonau ychwanegol.

4.34 Hefyd, dywedodd dau ymatebydd fod y canllawiau'n briodol ar yr amod na fydd newidiadau i alw'r adeilad am ynni yn ystod oes yr adeilad. Awgrymodd dau ymatebydd y gall fod cyfle i leihau'r amser rhagnodedig o dan baragraff 0.10 b. o ddwy flynedd.

**Rhesymau dros beidio â chefnogi'r cynnig**

- **Cael gwared ar yr esemptiad**: Dywedodd un ymatebydd y dylai fod yn ofynnol i safleoedd diwydiannol, gweithdai ac adeiladau amaethyddol amhreswyl osod system wresogi carbon isel sy'n cyrraedd lefel ofynnol o effeithlonrwydd o hyd. Cyfeiriodd at osod gwresogyddion isgoch trydan fel opsiwn addas.

**Ymateb y Llywodraeth i gwestiwn 55**

4.35 Roedd 54% o'r ymatebwyr o blaid i gymharu â 3% yn erbyn y cynnig. Er bod 43% o'r ymatebwyr 'Ddim yn siwr', dim ond un ymateb a roddodd farn, sef y dylid ystyried rhyw fath o fesur diogelu rhag addasiadau neu newidiadau mewn polisïau hinsawdd yn y dyfodol.

4.36 Yn seiliedig ar y gefnogaeth sylweddol o blaid y cynigion, sef 54%, o gymharu â'r 3% a oedd yn eu herbyn, byddwn yn bwrw ymlaen ar y sail na fydd newidiadau'n cael eu gwneud i'r canllawiau presennol ar gyfer adeiladau â galw isel am ynni nad ydynt wedi'u hesemptio rhag y Rheoliadau Adeiladu, (fel y disgrifir yn Nogfen Gymeradwy L, Cyfrol 2: Adeiladau heblaw anheddau), ac rydym yn cadarnhau y dylid eu cadw heb eu diwygio.

### Cwestiwn 56: A ydych yn cytuno y dylai lifftiau, grisiau symudol a rhodfeydd symudol mewn adeiladau newydd (ond nid pan gânt eu gosod mewn annedd) gael eu cynnwys yn y diffiniad o wasanaeth adeiladau sefydlog?

| Cwestiwn 56: A ydych yn cytuno y dylai lifftiau, grisiau symudol a rhodfeydd symudol mewn adeiladau newydd (ond nid pan gânt eu gosod mewn annedd) gael eu cynnwys yn y diffiniad o wasanaeth adeiladau sefydlog? | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Pawb a ymatebodd | Pensaer | Adeiladwr/Datblygwr | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Gweithiwr Proffesiynol ym maes Adeiladu | Dylunydd/Peiriannydd/Syrfëwr | Asesydd Ynni | Sector ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/cadwyn gyflenwi | Parti Arall â Diddordeb (rhowch fanylion) | Rheolwr Eiddo/Cymdeithas Tai/Landlord | Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu | Adeiladwr bach/canolig | Heb ei nodi | Adeiladwr tai mawr |
| **Cyfanswm** | **37** | **3** | **2** | **0** | **1** | **4** | **1** | **0** | **8** | **6** | **9** | **2** | **1** | **0** | **0** | **0** |
| a. Ydw | 54% | 33% | 0% | 0% | 0% | 100% | 100% | 0% | 75% | 17% | 44% | 100% | 100% | 0% | 0% | 0% |
| b. Nac ydw | 3% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 13% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| c. Ddim yn siŵr | 43% | 67% | 100% | 0% | 100% | 0% | 0% | 0% | 13% | 83% | 56% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |

4.37 Cafwyd 37 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd ychydig dros hanner yr ymatebwyr (54%) yn cytuno â'r cynnig. Roedd un ymatebydd (3%) yn anghytuno ac roedd 43% yn ansicr.

**Adborth gan y rhai a oedd yn cefnogi'r cynnig**

4.38 Rhesymau dros gefnogi'r cynnig

- **Cyfran sylweddol o'r galw am ynni**: Dylai lifftiau, grisiau symudol a rhodfeydd symudol gael eu cynnwys yn y diffiniad oherwydd gallant gyfrif am gyfran sylweddol o alw adeilad am ynni.
- **Gwell effeithlonrwydd**: Bydd eu cynnwys yn y diffiniad yn arwain at gaffael cyfarpar mwy effeithlon a gwell gwybodaeth am gynnal a chadw i berchnogion.
- **Cysondeb**: Bydd cynnwys lifftiau, grisiau symudol a rhodfeydd symudol yn y diffiniad yn sicrhau cysondeb o ran effeithlonrwydd ynni â gwasanaethau adeiladau eraill.

4.39 Hefyd, gofynnodd sawl ymatebydd a ddylai lifftiau, grisiau symudol a rhodfeydd symudol gael eu cynnwys yn y Fethodoleg Gyfrifo Genedlaethol.

4.40 Rhannodd un ymatebydd y pryderon canlynol, er ei fod yn cefnogi'r bwriad sy'n sail i'r newid arfaethedig:

- **Mannau gwan posibl**: Dim ond i adeiladau newydd y mae'r diffiniad arfaethedig yn berthnasol, sy'n golygu y gallai gwaith ôl-osod a gwaith amnewid gael eu heithrio rhag gofynion Rhan L. Gallai hyn arwain at fannau gwan:
  - Gallai datblygwyr osod y gwasanaethau hyn ar ôl y gwaith adeiladu er mwyn osgoi cydymffurfio.
  - Gallai cyfarpar diffygiol gael ei amnewid am fersiynau llai effeithlon heb reolaeth reoleiddiol.
- **Canlyniadau anfwriadol**: Gallai newid dosbarthiad lifftiau, grisiau symudol a rhodfeydd symudol ryngweithio â rheoliadau eraill neu newid y ffordd y mae rheoliadau eraill yn berthnasol iddynt, gan arwain at ganlyniadau anfwriadol.

4.41 Roedd un ymatebydd, er ei fod yn cytuno â'r cynigion, yn teimlo na fyddai'n lleihau allyriadau carbon yn sylweddol.

**Ni chafwyd sylwadau o sylwedd gan yr ymatebwyr a oedd yn ansicr na'r rhai na wnaethant ateb**.

- O'r rhai a ddewisodd “Ddim yn siŵr”, dim ond tri a roddodd adborth, ac roedd yr adborth hwn yn cynnwys: *Dim barn am mai adeiladwyr tai yn unig ydyn nhw*, *nid eu maes arbenigedd,* a *ddim yn berthnasol*. Nid ellid

ystyried bod y sylwadau hyn yn gadarnhaol nac yn negyddol ac felly nid ydynt yn dylanwadu ar y pleidleisiau eraill o blaid nac yn erbyn. Ni wnaed sylwadau i gyd-fynd â'r ymatebion “Ddim yn siŵr” eraill, felly'r 54% a oedd o blaid y cynnig oedd yn cynrychioli'r farn sylweddol.

**Ymateb y Llywodraeth i gwestiwn 56:**

4.42 O ystyried y pryderon ynglŷn â'r mannau gwan posibl, byddwn yn ychwanegu canllawiau a all fod yn berthnasol i ddatblygiadau ‘cragen a chraidd’ newydd, lle y caiff lifftiau, grisiau symudol a rhodfeydd symudol eu gosod fel rhan o waith dodrefnu dilynol ar adeiladau neu rannau o adeiladau.

4.43 Ar sail cryfder y gefnogaeth o blaid cynnwys lifftiau, grisiau symudol a rhodfeydd symudol mewn adeiladau newydd (ond nid pan gânt eu gosod mewn annedd) i gael ei gynnwys yn y diffiniad o wasanaeth adeiladau sefydlog, byddwn yn bwrw ymlaen â mabwysiadu cynigion yr ymgynghoriad.

**Cwestiwn 57: A ydych yn cytuno â'r canllawiau arfaethedig ar gyfer lifftiau i deithwyr, grisiau symudol a rhodfeydd symudol yn y fersiwn ddrafft o Ddogfen Gymeradwy L, Cyfrol 2: Adeiladau heblaw anheddau?**

**Cwestiwn 57: A ydych yn cytuno â'r canllawiau arfaethedig ar gyfer lifftiau i deithwyr, grisiau symudol a rhodfeydd symudol yn y fersiwn ddrafft o Ddogfen Gymeradwy L, Cyfrol 2: Adeiladau heblaw anheddau?**

| | Pawb a ymatebodd | Pensaer | Adeiladwr/Datblygwr | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Gweithiwr Proffesiynol ym maes Adeiladu | Dylunydd/Peiriannydd/Syrfëwr | Asesydd Ynni | Sector ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/cadwyn gyflenwi | Parti Arall â Diddordeb (rhowch fanylion) | Rheolwr Eiddo/Cymdeithas Tai/Landlord | Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu | Adeiladwr bach/canolig | Heb ei nodi | Adeiladwr tai mawr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **35** | **2** | **2** | **0** | **1** | **3** | **1** | **0** | **8** | **6** | **9** | **2** | **1** | **0** | **0** | **0** |
| a. Ydw | 46% | 0% | 0% | 0% | 0% | 33% | 100% | 0% | 75% | 17% | 44% | 100% | 100% | 0% | 0% | 0% |
| b. Nac ydw | 3% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 13% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| c. Ddim yn siŵr | 51% | 100% | 100% | 0% | 100% | 67% | 0% | 0% | 13% | 83% | 56% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |

4.44 Cafwyd 35 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd ychydig o dan hanner yr ymatebwyr (46%) yn cytuno â'r cynnig. Roedd un ymatebydd (3%) yn anghytuno â'r cynnig ac roedd 51% yn ansicr.

**Adborth a roddwyd gan y rhai a oedd yn cefnogi'r cynnig**

4.45 Rhesymau dros gefnogi'r cynnig.

- **Effeithlonrwydd ynni**: Gall lifftiau, grisiau symudol a rhodfeydd symudol gynrychioli cyfran sylweddol o alw adeilad am ynni. Mae'n bwysig eu

cynnwys wrth fodelu a rheoleiddio adeiladau er mwyn arbed cymaint o ynni â phosibl.

- **Cwmpas gwaith modelu**: Mae'r canllawiau arfaethedig yn llenwi'r bwlch modelu presennol.
- **Safonau perthnasol**: Mae safon BS EN ISO 25745 yn safon gydnabyddedig ar gyfer perfformiad y gwasanaethau hyn o ran ynni felly mae'n sail briodol ar gyfer y canllawiau arfaethedig.

4.46 Gwnaed yr awgrymiadau canlynol gan ambell un o'r ymatebwyr hefyd.

- **Monitro**: Dylai'r canllawiau gynnwys camau mesur a gwirio realistig ar gyfer defnydd gweithredol o ynni a disgwyliadau o ran cynnal a chadw drwy gydol y cylch oes.
- **Dangos cydymffurfiaeth**: Dylai'r canllawiau gynnwys enghreifftiau o'r mathau o ddogfennau a thystiolaeth y gellir eu defnyddio i ddangos cydymffurfiaeth.

4.47 Ni chafwyd sylwadau technegol gan yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno neu'n ansicr.

**Ymateb y Llywodraeth i gwestiwn 57**

4.48 Am fod y mwyafrif o'r ymatebion yn ansicr, rydym wedi asesu eu hymatebion er mwyn ymchwilio i'r rhesymau pam y gwnaethant ddewis yr opsiwn "Ddim yn siŵr", ac roedd yr ymatebion yn cynnwys y canlynol:

- Nid ydynt yn teimlo y byddai'n ychwanegu gwerth sylweddol i'r lleihad mewn allyriadau carbon (1 ymatebydd)
- Ddim o fewn eu maes arbenigedd (1 ymatebydd)
- Heb wneud sylw (25 o ymatebwyr)
- Dim ond yng Nghymru y mae'r ymatebydd yn darparu tai ac felly ni all ymateb i'r cwestiwn hwn am nad yw'n berthnasol i'w weithgarwch (2 ymatebydd)

4.49 I gloi, dim ond un ymateb yn y categori "Ddim yn siŵr" ('*ni fyddai'n ychwanegu gwerth sylweddol i'r lleihad mewn allyriadau carbon')* yr ystyriwyd <u>nad</u> yw o blaid y cynnig ac felly a fyddai'n ychwanegu at y categori "Nac ydw". Fodd bynnag, gan fod y nifer yn y categori "Nac ydw" yn dal mor fach o gymharu â'r rhai a oedd o blaid (3% a ddewisodd "Nac ydw" o gymharu â 46% a ddewisodd "Ydw"), ac o ystyried nad oedd gan y rhan fwyaf o'r rhai a ddewisodd "Ddim yn siŵr" farn o gwbl, down i'r casgliad mai'r bleidlais o blaid yw'r farn ystyrlon fwyafrifol ar gyfer ystyried y cwestiwn hwn.

4.50 Felly, byddwn yn bwrw ymlaen ar y sail mai barn y mwyafrif yw'r rhai sy'n cytuno â'r canllawiau arfaethedig ar gyfer lifftiau i deithwyr, grisiau symudol a rhodfeydd symudol yn y fersiwn ddrafft o Ddogfen Gymeradwy L, Cyfrol 2: Adeiladau heblaw anheddau.

**Cwestiwn 58: A oes gennych unrhyw sylwadau pellach ar unrhyw newidiadau eraill i'r canllawiau arfaethedig yn y fersiwn ddrafft o Ddogfen Gymeradwy L, Cyfrol 2: Adeiladau heblaw anheddau?**

| Cwestiwn 58: A oes gennych unrhyw sylwadau pellach ar unrhyw newidiadau eraill i'r canllawiau arfaethedig yn y fersiwn ddrafft o Ddogfen Gymeradwy L, Cyfrol 2: Adeiladau heblaw anheddau? | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Pawb a ymatebodd | Pensaer | Adeiladwr/Datblygwr | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Gweithiwr Proffesiynol ym maes Adeiladu | Dylunydd/Peiriannydd/Syrfëwr | Asesydd Ynni | Sector ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/cadwyn gyflenwi | Parti Arall â Diddordeb (rhowch fanylion) | Rheolwr Eiddo/Cymdeithas Tai/Landlord | Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu | Adeiladwr bach/canolig | Heb ei nodi | Adeiladwr tai mawr |
| **Cyfanswm** | **42** | **2** | **2** | **1** | **1** | **5** | **0** | **0** | **8** | **9** | **12** | **2** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| a. Oes (rhowch sylwadau) | 29% | 0% | 0% | 100% | 0% | 40% | 0% | 0% | 50% | 22% | 25% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| b. Nac oes | 48% | 0% | 50% | 0% | 100% | 20% | 0% | 0% | 38% | 67% | 50% | 100% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| c. Ddim yn siŵr | 24% | 100% | 50% | 0% | 0% | 40% | 0% | 0% | 13% | 11% | 25% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |

4.51 Cafwyd 42 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. O'r rhain, atebodd 29% fod ganddynt sylwadau pellach ar newidiadau eraill i'r canllawiau arfaethedig.

**Sylwadau cyffredinol a wnaed gan ymatebwyr**

4.52 Gwnaed sylwadau cyffredinol a oedd yn ailadrodd sylwadau cynharach ar y cyfan. Er cyflawnrwydd, caiff y rhain eu crynhoi yma.

- **Cefnogaeth gyffredinol**: Mynegwyd cefnogaeth i'r nod cyffredinol o wella effeithlonrwydd ynni a lleihau allyriadau carbon mewn adeiladau annomestig.
- **Cefnogaeth i egwyddorion adeiladwaith yn gyntaf**: Gwnaed sylwadau o blaid egwyddorion adeiladwaith yn gyntaf, gan gynnwys lefelau uchel o inswleiddio, aerglosrwydd, cyn lleied o bontio thermol â phosibl, a gwydro effeithlon.
- **Gwirio**: Pwysleisiwyd yr angen am brosesau gwirio cadarn er mwyn sicrhau y caiff adeiladau eu codi yn unol â'r safonau bwriadedig. Bydd hyn yn gwella perfformiad ac yn cau'r bwlch perfformiad.
- **Risg o orgynhesu**: Dylai'r canllawiau sicrhau y caiff strategaethau cysur yn ystod yr haf, fel cysgodi, awyru naturiol neu awyru a reolir, ac oeri goddefol, eu hintegreiddio o'r cychwyn cyntaf.
- **Ansawdd a chwmpas**: Dylai'r canllawiau sicrhau prosesau gwirio a sicrhau ansawdd cadarn ar gyfer modelu, dylunio, a pherfformiad fel y'i hadeiladwyd. Dylai colledion dosbarthu a storio a cholledion systemau gwresogi, oeri ac awyru, yn enwedig ar gyfer technolegau carbon isel ac adnewyddadwy, gael eu cynnwys.
- **PhPP:** Cafwyd cefnogaeth i fethodoleg PhPP ar gyfer cydymffurfiaeth.

- **Ystyriaethau ychwanegol**: Gwnaed ceisiadau i'r canllawiau gynnwys meysydd penodol gan gynnwys systemau gwresogi, awyru ac aerdymheru hybrid, cysylltiadau rhwydweithiau gwresogi carbon isel, a golau dydd ac awyru o ffenestri to.

### Sylwadau a cheisiadau mwy penodol

4.53 Cafwyd rhai sylwadau mwy penodol. Unwaith eto, roedd sawl un o'r rhain yn ailadrodd sylwadau cynharach.

- **Ehangu'r canllawiau ar ffenestri to**: Tynnodd un ymatebydd sylw at yr angen i ehangu'r disgrifiad o ffenestri to yn y canllawiau i gynnwys mathau a ddefnyddir mewn adeiladau annomestig. Hefyd, cynigiodd y dylid diweddaru'r derminoleg ar gyfer perfformiad thermol ffenestri to i gyd-fynd ag EN1873 a safonau diwydiant.
- **Rhoi canllawiau asesu**: Tynnodd un ymatebydd sylw at yr angen i atgyfnerthu'r gofynion comisiynu a thystiolaeth ar gyfer gwasanaethau adeiladau sefydlog. Gofynnodd am eglurhad ynghylch pryd y byddai llwybrau cydymffurfio amgen yn dderbyniol a sut i ddangos tystiolaeth ohonynt. Hefyd, gofynnodd am enghreifftiau ymarferol o fanylebau adeilad tybiannol ar gyfer mathau nodweddiadol o adeiladau annomestig er mwyn lleihau'r amrywiadau wrth ddehongli.
- **Ehangu canllawiau BACS**: Roedd un ymatebydd yn cefnogi'r fanyleb arfaethedig ar gyfer BACS, ond cynigiodd y dylai fod yn gyson â Chyfarwyddeb Perfformiad Ynni Adeiladau'r UE (EPBD), sy'n ei gwneud yn ofynnol, erbyn 29 Mai 2026, i bob BACS gynnwys swyddogaeth ar gyfer monitro ansawdd amgylcheddol dan do (IEQ).
- **Gwneud tystiolaeth ffotograffig yn orfodol**: Roedd un ymatebydd o blaid gwneud tystiolaeth ffotograffig sy'n canolbwyntio ar fanylion adeiladu risg uchel yn orfodol er mwyn cau bylchau perfformiad. Awgrymwyd y dylai'r gofynion adlewyrchu dull Dogfen Gymeradwy L Cyfrol 1 ar gyfer anheddau, sy'n gysylltiedig â dogfennaeth Adran 10. Rhaid dangos tystiolaeth o luniadau fel y'i hadeiladwyd bob amser, a pheidio byth â'u rhagdybio.
- **Safonau annigonol**: Roedd un ymatebydd yn pryderu nad yw'r safonau arfaethedig ar gyfer gwerth U ac aerglosrwydd waliau yn ddigonol. Roedd o blaid safonau uwch, er enghraifft i gyd-fynd ag AECB CarbonLite.

### Ymateb y Llywodraeth i gwestiwn 58

4.54 Ar ôl bwrw golwg dros y pwyntiau a godwyd yn y sylwadau pellach, rydym wedi dod i'r casgliad canlynol:

- *Pwysleisiwyd yr angen am brosesau gwirio cadarn i sicrhau y caiff adeiladau eu codi yn unol â'r safonau bwriadedig er mwyn gwella perfformiad a chau'r bwlch perfformiad* – Bydd ein cynigion i gynnwys gofynion ar gyfer tystiolaeth ffotograffig yn Nogfen Gymeradwy L cyfrol 2

yn anelu at sicrhau gwirio deunyddiau ac adeiladwaith.

- *Gorgynhesu* – Cynigir y bydd yr ymgynghoriad ar Ddogfen Gymeradwy O yn cael ei gynnal ar wahân yn ystod 2026, ac fe'i hadolygir bryd hynny yn erbyn y sylwadau a wnaed yn yr ymgynghoriad hwn, ac eir i'r afael â'r mater yn unol â hynny.
- *Safonau Passivhaus* – Nodir bod ymatebwyr wedi cyfeirio at safonau Passivhaus, ardystiad methodoleg PHPP ac ardystiad CarbonLite yn aml. Fodd bynnag, nid yw'r cynnig hwnnw yn rhan o'r ymgynghoriad hwn ac felly ni ellir ei ystyried ar yr adeg hon, ond caiff yr ymatebion eu nodi i gael eu hystyried o bosibl os bydd ymgynghoriad yn y dyfodol yn ceisio mynd i'r afael â'r materion hynny yn benodol.
- *Ehangu canllawiau ar ffenestri to, rhoi canllawiau comisiynu ac asesu, ehangu canllawiau BACS*: Byddwn yn adolygu'r cynigion yng ngoleuni'r sylwadau a wnaed, a byddwn yn ceisio diweddaru'r cynigion hyn lle bo hynny'n ymarferol. Noder: os bydd maint y gwaith neu'r newid sy'n gysylltiedig â rhai o'r sylwadau yn mynd y tu hwnt i gylch gwaith yr ymgynghoriad hwn (e.e. BACS), byddwn yn ffeilio'r sylwadau ac yn eu nodi er mwyn eu hystyried o bosibl os bydd ymgynghoriad yn y dyfodol yn ceisio mynd i'r afael â'r materion hynny yn benodol.
- Gwneud tystiolaeth ffotograffig yn orfodol – Mae ein cynigion ar gyfer tystiolaeth ffotograffig yn deillio o'r fframwaith presennol sydd eisoes wedi'i fabwysiadu yn Nogfen Gymeradwy L Cyfrol 1 ac wedi'u haddasu ar gyfer adeiladau annomestig.

### Cwestiwn 59: A ydych yn cytuno y dylid cyflwyno tystiolaeth ffotograffig fel gofyniad ar gyfer llunio asesiad ynni fel y'i hadeiladwyd ar gyfer adeiladau annomestig newydd?

**Cwestiwn 59: A ydych yn cytuno y dylid cyflwyno tystiolaeth ffotograffig fel gofyniad ar gyfer llunio asesiad ynni fel y'i hadeiladwyd ar gyfer adeiladau annomestig newydd?**

| | Pawb a ymatebodd | Pensaer | Adeiladwr/Datblygwr | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Gweithiwr Proffesiynol ym maes Adeiladu | Dylunydd/Peiriannydd/Syrfëwr | Asesydd Ynni | Sector ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/cadwyn gyflenwi | Parti Arall â Diddordeb (rhowch fanylion) | Rheolwr Eiddo/Cymdeithas Tai/Landlord | Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu | Adeiladwr bach/canolig | Heb ei nodi | Adeiladwr tai mawr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **61** | **8** | **2** | **1** | **3** | **7** | **2** | **0** | **8** | **9** | **17** | **2** | **1** | **1** | **0** | **0** |
| a. Ydw | 92% | 88% | 50% | 100% | 100% | 100% | 100% | 0% | 100% | 89% | 88% | 100% | 100% | 100% | 0% | 0% |
| b. Nac ydw | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| c. Ddim yn siŵr | 8% | 13% | 50% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 11% | 12% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |

4.55 Cafwyd 61 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd mwyafrif helaeth (92%) yn cytuno â'r cynnig, nid oedd neb yn anghytuno ac roedd 8% yn ansicr.

**Adborth gan y rhai a oedd yn cefnogi'r cynnig**

4.56 Rhesymau dros gefnogi'r cynnig.

- **Gwirio elfennau allweddol**: Credwyd bod tystiolaeth ffotograffig yn ddull cadarn o ddangos bod adeiladwaith ac elfennau gwasanaethau allweddol megis deunydd inswleiddio, aerglosrwydd, manylion pontio thermol a chyfarpar yn cael eu gosod yn gywir.

4.57 Hefyd, gwnaeth yr ymatebwyr hyn yr argymhellion canlynol.

- **Mae angen adnoddau ar gyfer sicrhau ansawdd**: Rhaid i adnoddau digonol fod ar gael i fwrw golwg dros y dystiolaeth hon er mwyn sicrhau ei bod yn ategu proses sicrhau ansawdd gadarn.
- **Rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir**: Mae angen canllawiau clir ar bwy sy'n gyfrifol am dynnu ffotograffau a'u cyflwyno, pryd y bydd angen tystiolaeth, a sut i fynd i'r afael â chyfyngiadau dilyniannu ar y safle.
- **Defnydd o basbortau adeilad**: Nododd sawl ymatebydd y byddai pasbortau (neu gofnodlyfrau) adeilad yn lleoliad synhwyrol ar gyfer storio cofnodion ffotograffig a chyfeirio atynt.
- **Cymhwyso at elfennau risg uchel**: Ar gyfer elfennau risg uchel, argymhellodd yr ymatebwyr y dylid gwneud ffotograffau â stampiau amser a geotagiau arnynt yn orfodol, wedi'u hategu gan restr ddiffiniedig o ddelweddau gorfodol a meini prawf derbyn.
- **Gosod disgwyliadau**: Dylid gosod disgwyliadau clir ar gyfer sefyllfaoedd lle mae cam adeiladu wedi cael ei golli neu lle mae'r dystiolaeth ffotograffig a gyflwynwyd yn amhendant.
- **Dull clir pan fydd ffotograffau ar goll**: Os na fydd ffotograffau ar gael, dylai fod modd ardystio adeilad o hyd. Dylid caniatáu tystiolaeth amgen (archwiliad, mesuriadau neu ddatganiadau ar lw) fel na fydd ardystio'n dibynnu ar argaeledd ffotograffau yn unig.
- **Yr angen am fonitro perfformiad**: Pwysleisiodd yr ymatebwyr na all tystiolaeth ffotograffig gau'r bwlch perfformiad ar ei phen ei hun. Dylid defnyddio prosesau monitro perfformiad adeiladau pan gânt eu defnyddio ochr yn ochr â thystiolaeth ffotograffig, a gwneud hynny'n orfodol mewn rhai achosion.

4.58 Ni chafwyd sylwadau gan yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn ansicr.

**Ymateb y Llywodraeth i gwestiwn 59**

4.59 Nododd llawer o ymatebwyr fod cyflwyno tystiolaeth ffotograffig eisoes yn gweithio'n dda ar gyfer y sector preswyl, a bod ymestyn y dull hwn i'r sector annomestig yn gam rhesymegol ymlaen er mwyn helpu i wella cydymffurfiaeth a pherfformiad adeiladau.

4.60 Aethpwyd i'r afael â phryderon a godwyd yn yr ymgynghoriad, megis geotagio, ffotograffau coll, dulliau storio, a gweithdrefnau cyflwyno tystiolaeth,

yn Adran C.6 o ddrafft ymgynghori Dogfen Gymeradwy L, Cyfrol 2. Bydd y darpariaethau hyn yn destun adolygiad terfynol cyn iddi gael ei chyflwyno.

4.61 Gan fod 92% o'r ymatebwyr yn cytuno, dim un o'r ymatebion yn gwrthwynebu'r cynnig, a'r ymatebwyr sy'n weddill yn ansicr, byddwn yn bwrw ymlaen â chynnwys y gofyniad hwn yng nghanllawiau terfynol y Ddogfen Gymeradwy.

# 5. Safonau Rhan L ar gyfer Adeiladau Annomestig Presennol yn 2025

5.1 Roedd Pennod 5 yr ymgynghoriad yn cynnwys ein cynigion ar gyfer newidiadau i'r ffordd y caiff y Rheoliadau Adeiladu eu cymhwyso at adeiladau annomestig presennol. Y prif newidiadau a gynigiwyd oedd codiad yn safonau effeithlonrwydd ynni gwasanaethau adeiladau.

**Cwestiwn 60: A ydych yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig i effeithlonrwydd a rheolaethau gofynnol gwasanaethau adeiladau a nodir yn Adran 6 o'r fersiwn ddrafft o Ddogfen Gymeradwy L, Cyfrol 2: Adeiladau heblaw anheddau?**

| **Cwestiwn 60: A ydych yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig i effeithlonrwydd a rheolaethau gofynnol gwasanaethau adeiladau a nodir yn Adran 6 o'r fersiwn ddrafft o Ddogfen Gymeradwy L, Cyfrol 2: Adeiladau heblaw anheddau?** | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Pawb a ymatebodd | Pensaer | Adeiladwr/Datblygwr | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Gweithiwr Proffesiynol ym maes Adeiladu | Dylunydd/Peirianydd/Syrfëwr | Asesydd Ynni | Sector ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/cadwyn gyflenwi | Parti Arall â Diddordeb (rhowch fanylion) | Rheolwr Eiddo/Cymdeithas Tai/Landlord | Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu | Adeiladwr bach/canolig | Heb ei nodi | Adeiladwr tai mawr |
| **Cyfanswm** | **43** | **2** | **2** | **0** | **1** | **4** | **1** | **0** | **8** | **8** | **15** | **2** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| a. Ydw | 63% | 0% | 0% | 0% | 100% | 50% | 100% | 0% | 100% | 63% | 53% | 100% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| b. Nac ydw | 9% | 0% | 0% | 0% | 0% | 25% | 0% | 0% | 0% | 13% | 13% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| c. Ddim yn siŵr | 28% | 100% | 100% | 0% | 0% | 25% | 0% | 0% | 0% | 25% | 33% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |

5.2 O'r 43 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, roedd y mwyafrif (63%) yn cytuno â'r cynnig. Roedd 9% yn anghytuno â'r cynnig, ac roedd 28% yn ansicr.

**Awgrymiadau gan y rhai a oedd yn cefnogi'r newidiadau arfaethedig**

- **BACS uwch:** Awgrymodd un ymatebydd y dylid cynnwys gofyniad sy'n rhagnodi gosod systemau BACS uwch ym mhob adeilad presennol sydd ag allbwn gwresogi, awyru ac aerdymheru o fwy na 70kW. Dylai hyn gyd-fynd â'r hyn a ragnodir yn Adran 6, sef system Dosbarth A BS EN ISO 52120, oni phrofir fod hynny'n annichonadwy ar gyfer yr adeilad penodol, a fyddai'n golygu y byddai system Dosbarth B yn ofynnol. Mae system BACS uwch yn hollbwysig er mwyn optimeiddio perfformiad gwasanaethau adeiladau a rheolaethau cysylltiedig.
- **Gwneud gwelliannau fesul cam**: Awgrymodd un ymatebydd, ar gyfer y stoc bresennol, y dylai'r canllawiau gydnabod cyfyngiadau ymarferol (er enghraifft safonau ôl-osod megis PAS2038, neu gylchoedd mynediad ac amnewid cyfarpar). Ffefrir dull fesul cam gyda throthwyon costeffeithiol clir a mesurau amgen lle bo hynny'n anymarferol. Ar y cyd â hyn, dylid cyflwyno prosesau comisiynu a gwirio gorfodol pan gaiff gwaith

uwchraddio ei wneud.

- **Rheolaethau ychwanegol**: Nododd un ymatebydd, yn ychwanegol at y canllawiau cyffredinol arfaethedig ar gyfer rheolaethau a'r parthau yn Adran 5, y dylai unrhyw wyntyllau awyr agored, gan gynnwys tyrau oeri ac oeryddion sych, gael eu rheoli.

5.3 Hefyd, cyfeiriodd sawl ymatebydd at yr awgrymiadau a wnaed yn eu hymateb i gwestiwn 52.

**Rhesymau dros anghytuno â'r newidiadau arfaethedig**

- **Cyfyngiadau ar effeithiolrwydd goleuadau:** Awgrymodd dau ymatebydd y dylid cynnal lefel effeithiolrwydd o 85 lm/W ar gyfer goleuadau arddangos er mwyn i gynhyrchion goleuo arbenigol o ansawdd da barhau i fod yn ddichonadwy. Fel arall, awgrymwyd egluro'r nodyn presennol ar oleuadau arbenigol er mwyn atal camddehongli gan y rhai sy'n llunio manylebau ac awdurdodau gorfodi. Byddai hyn yn osgoi cyfyngu'n anfwriadol ar y defnydd o oleuadau arbenigol o ansawdd da. Er y credir bod effaith y cynhyrchion hyn o ran ynni yn fach iawn yn genedlaethol, mae'r manteision economaidd a diwylliannol yn sylweddol gan eu bod yn cael eu creu gan wneuthurwyr a BBaChau ym Mhrydain.
- **Effeithlonrwydd pympiau gwres:** Awgrymodd un ymatebydd nad yw'r newidiadau arfaethedig yn mynd i'r afael ag effeithiolrwydd cyffredinol systemau pympiau gwres o ran faint o egni sy'n angenrheidiol i gynhyrchu'r gwres gofynnol. Awgrymodd fod angen i'r rheoliadau ystyried ffactor perfformiad tymhorol neu SCOP yn hytrach na pherfformiad unedau er mwyn pennu proffil galw, yn unol â safonau'r UE.
- **Gwres rheiddiol trydan:** Dywedodd un ymatebydd y dylai gwres rheiddiol trydan gael ei gadw ar wahân i systemau gwresogi trydan eraill a'i gynnwys fel is-adran o fewn Adran 6. Dylai hyn fod yn seiliedig ar y protocolau prawf drafft a ddatblygwyd gan y diwydiant ar gyfer asesu gwresogyddion isgoch, drwy ymgynghori â'r Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BRE), yr Adran Diogeledd Ynni a Sero Net, ac academyddion blaenllaw.

**Pwynt a godwyd gan y rhai a ddewisodd yr opsiwn “Ddim yn siŵr”**

- **Dim newid i'r terfynau adeiladwaith**: Dywedodd un ymatebydd y gallai'r newid cyfyngedig i lefelau adeiladwaith arwain at filiau ynni uwch na'r disgwyl o gymharu â dilyn dull ‘adeiladwaith yn gyntaf’.

**Ymateb y Llywodraeth i gwestiwn 60**

5.4 Rydym wedi bwrw golwg dros yr ymatebion ac rydym yn cynnig gwneud y newidiadau canlynol.

5.5 Ynghylch effeithlonrwydd goleuadau, rydym wedi ystyried yr awgrymiadau a wnaed mewn perthynas â chynhyrchion goleuadau arbenigol a byddwn yn

diwygio'r canllawiau fel y bo angen i adlewyrchu'r sylwadau hyn, yn y Ddogfen Gymeradwy L2 terfynol.

5.6 Ar sail cryfder y gefnogaeth o blaid y cynigion hyn, ac o ystyried na chafwyd sylwadau na barn gan y rhan fwyaf o'r rhai a ddewisodd “Ddim yn siŵr”, byddwn yn bwrw ymlaen â'r newidiadau arfaethedig i effeithlonrwydd a rheolaethau gofynnol gwasanaethau adeiladau sefydlog a nodir yn Adran 6 o'r fersiwn ddrafft o Ddogfen Gymeradwy L, Cyfrol 2: Adeiladau heblaw anheddau ond gan gynnwys y diwygiadau i'r cynigion ar gyfer goleuadau.

**Cwestiwn 61: A ydych yn cytuno y dylid cadw'r canllawiau presennol ar gyfer adeiladau â galw isel am ynni nad ydynt wedi'u hesemptio rhag y Rheoliadau Adeiladu, fel y disgrifir yn Nogfen Gymeradwy L, Cyfrol 2: Adeiladau heblaw anheddau, heb eu diwygio?**

| **Cwestiwn 61: A ydych yn cytuno y dylid cadw'r canllawiau presennol ar gyfer adeiladau â galw isel am ynni nad ydynt wedi'u hesemptio rhag y Rheoliadau Adeiladu, fel y disgrifir yn Nogfen Gymeradwy L, Cyfrol 2: Adeiladau heblaw anheddau, heb eu diwygio?** | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Pawb a ymatebodd | Pensaer | Adeiladwr/Datblygwr | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Gweithiwr Proffesiynol ym maes Adeiladu | Dylunydd/Peiriannydd/Syrfëwr | Asesydd Ynni | Sector ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/cadwyn gyflenwi | Parti Arall â Diddordeb (rhowch fanylion) | Rheolwr Eiddo/Cymdeithas Tai/Landlord | Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu | Adeiladwr bach/canolig | Heb ei nodi | Adeiladwr tai mawr |
| **Cyfanswm** | **36** | **3** | **2** | **0** | **1** | **3** | **1** | **0** | **8** | **7** | **9** | **2** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| a. Ydw | 53% | 33% | 0% | 0% | 100% | 33% | 100% | 0% | 88% | 57% | 33% | 50% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| b. Nac ydw | 3% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 11% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| c. Ddim yn siŵr | 44% | 67% | 100% | 0% | 0% | 67% | 0% | 0% | 13% | 43% | 56% | 50% | 0% | 0% | 0% | 0% |

5.7 O'r 36 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, roedd lleiafrif bach (53%) yn cytuno â'r cynnig. O gymharu â hynny, roedd 3% yn anghytuno â'r cynnig ac roedd 44% yn ansicr.

**Pwyntiau a godwyd gan y rhai a oedd yn cefnogi'r cynnig**

- **Cefnogaeth i'r status quo**: Byddai cadw'r canllawiau yn atal baich cydymffurfio diangen, ac nid oes llawer i'w ennill mewn adeilad o'r fath.
- **Gwell cydymffurfiaeth**: Dylai fod yn ofynnol i adeiladau sydd wedi'u hesemptio fynd asesiad ynni ffurfiol o hyd, a dylid cyflwyno EPC ar ôl iddo gael ei gwblhau. Bydd hyn yn cynnig tryloywder i berchnogion a meddianwyr adeiladwyr ynglŷn â pherfformiad ynni ac yn galluogi gwaith cynllunio ar gyfer ôl-osod yn y dyfodol.
- **Adeiladau dros dro**: Mae'n bosibl y bydd cyfle i leihau'r uchafswm hyd oes bwriadedig ar gyfer ystyried bod adeiladau'n rhai dros dro (ac felly eu

hesemptio rhag Rhan L) o ddwy flynedd i gyfnod byrrach.

**Rhesymau dros anghytuno â'r cynnig**

- **Adeiladau â galw isel am ynni**: Awgrymwyd y dylid diwygio'r canllawiau presennol ar gyfer adeiladau â galw isel am ynni, yn benodol ar gyfer safleoedd diwydiannol, gweithdai ac adeiladau amaethyddol amhreswyl. Dylai fod yn ofynnol iddynt osod systemau gwresogi carbon isel sy'n bodloni gofynion effeithlonrwydd sylfaenol.

5.8 Ni chafwyd awgrymiadau pellach gan yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn ansicr ynglŷn â'r newidiadau arfaethedig.

**Ymateb y Llywodraeth i gwestiwn 61**

5.9 Mae'r cwestiwn hwn yn union yr un fath â Chwestiwn 55 ond ar gyfer adeiladau presennol, ac felly mae'r rhan fwyaf o'r ymatebion hefyd yr un peth, ac mae'r canrannau ar gyfer yr ymatebion bron yn union yr un peth (C55 – 54% / 3% / 43% a C61 – 53% / 3% / 44%).

5.10 Nid yw sylwadau sy'n ymwneud ag EPCs yn berthnasol wrth ystyried y cwestiwn hwn, gan nad yw'r ddeddfwriaeth sy'n nodi pryd mae angen EPC ar gyfer adeiladau presennol yn fater datganoledig.

5.11 Nid oes unrhyw gynlluniau cyfredol ar gyfer newid yr amserlenni sy'n berthnasol i'r diffiniad o adeilad dros dro, a byddai angen i unrhyw newidiadau o'r fath fod yn destun ymgynghoriad ar wahân.

5.12 Mae'r diffiniad o adeiladau ynni isel a'u hesemptiadau'n seiliedig ar y ffaith nad ydynt yn defnyddio fawr ddim ynni, os o gwbl, i weithredu'n arferol, ac felly nid ystyrid bod yr enillion bach iawn mewn effeithlonrwydd ynni ar gyfer y mathau hyn o adeiladau yn fater i'w adolygu'n fanwl na'i newid ar hyn o bryd.

5.13 Yn seiliedig ar gryfder y gefnogaeth o blaid y cynnig, does dim newidiadau i’r canllawiau presennol ar gyfer adeiladau â galw isel am ynni nad ydynt wedi'u hesemptio rhag y Rheoliadau Adeiladu, (fel y disgrifir yn Nogfen Gymeradwy L, Cyfrol 2) yn cael ei gynnig.

**Cwestiwn 62: A oes gennych unrhyw sylwadau ar y newidiadau i'r canllawiau arfaethedig yn y fersiwn ddrafft o Ddogfen Gymeradwy L, Cyfrol 2: Adeiladau heblaw anheddau?**

| Cwestiwn 62: A oes gennych unrhyw sylwadau ar y newidiadau i'r canllawiau arfaethedig yn y fersiwn ddrafft o Ddogfen Gymeradwy L, Cyfrol 2: Adeiladau heblaw anheddau? | Pawb a ymatebodd | Pensaer | Adeiladwr/Datblygwr | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Gweithiwr Proffesiynol ym maes Adeiladu | Dylunydd/Peiriannydd/Syrfëwr | Asesydd Ynni | Sector ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/cadwyn gyflenwi | Parti Arall â Diddordeb (rhowch fanylion) | Rheolwr Eiddo/Cymdeithas Tai/Landlord | Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu | Adeiladwr bach/canolig | Heb ei nodi | Adeiladwr tai mawr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **41** | **2** | **2** | **0** | **1** | **3** | **0** | **0** | **8** | **9** | **14** | **2** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| a. Oes (rhowch sylwadau) | 34% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 63% | 22% | 43% | 50% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| b. Nac oes | 41% | 0% | 0% | 0% | 100% | 67% | 0% | 0% | 38% | 56% | 36% | 50% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| c. Ddim yn siŵr | 24% | 100% | 100% | 0% | 0% | 33% | 0% | 0% | 0% | 22% | 21% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |

5.14 O'r 41 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, awgrymodd 34% fod ganddynt sylwadau eraill i'w cynnwys.

**Gwnaeth yr ymatebwyr y sylwadau canlynol**

- **Trefniadau trosiannol**: Awgrymodd un ymatebydd fod angen i'r amseriadau trosiannol roi digon o amser paratoi ar gyfer sgiliau diwydiant, cadwyni cyflenwi a galluoedd profi/comisiynu. Bydd hyn yn arbennig o berthnasol ar gyfer BACs, pympiau gwres a gwasanaethau arbenigol.
- **Cyfyngiadau ar effeithiolrwydd goleuadau**: Cafwyd tri sylw tebyg o'r diwydiant goleuadau a oedd yn awgrymu y dylid cynnal y terfynau effeithiolrwydd presennol er mwyn i gynhyrchion goleuadau arbenigol o ansawdd da allu parhau i fod yn ddichonadwy. Fel arall, gwnaethant awgrymu y dylid egluro'r nodyn presennol ar oleuadau arbenigol er mwyn atal camddehongli gan y rhai sy'n llunio manylebau ac awdurdodau gorfodi. Byddai hyn yn osgoi cyfyngu'n anfwriadol ar y defnydd o oleuadau arbenigol o ansawdd da.
- **Newid teitl adran**: Awgrymodd dau ymatebydd fod y teitl ar dudalen 81 a thudalen 82 y dogfennau arfaethedig yn cyfeirio at adran 6. Adran 7 ddylai'r teitl fod.
- **Ceisiadau am wybodaeth neu ganllawiau ychwanegol:** Cafwyd dau gais am wybodaeth ychwanegol. Roedd hyn yn cynnwys ychwanegu canllawiau ar integreiddio systemau ynni adnewyddadwy mewn adeiladau annomestig hŷn. Hefyd, canllawiau ychwanegol ar bympiau systemau gwresogi ac oeri, goleuadau gwestai a systemau BACS er mwyn cynnig atebion mwy cadarn.
- **Pryder ynglŷn â chael gwared ar Adran 3**: Roedd un ymatebydd yn

anghytuno â'r cynnig i gael gwared ar adran 3 a rheoliadau 25A a 25B. Roedd yn pryderu bod gorddibyniaeth ar systemau gwresogi carbon isel a phaneli solar ffotofoltäig i sicrhau cydymffurfiaeth, ac yn credu nad dyna'r ffordd orau o leihau allyriadau carbon bob amser. Teimlwydd bod rheoliadau 25A a 25B yn caniatáu mwy o hyblygrwydd dylunio i ymchwilio i dechnolegau neu fesurau amgen fesul prosiect er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau.

- **Ystyriaethau o ran ffenestri gwydr triphlyg**: Dywedodd un ymatebydd y bydd gwerthoedd U is yn hybu'r defnydd o ffenestri gwydr triphlyg â manylebau uwch. Bydd angen ystyried effaith hyn ar bwysau ychwanegol ac felly ar faterion yn ymwneud â chodi a chario a'r costau cysylltiedig.
- **Manylebau ffenestri to**: Dywedodd un ymatebydd nad oes modd bodloni'r gofynion trosglwyddo golau a gwerth G ar gyfer ffenestri to mewn adeiladau a oleuir o'r to gan nad yw ffenestri arbenigol yn addas fel arfer.
- **Dylunio systemau awyru**: Dywedodd un ymatebydd nad yw'r Ddogfen Gymeradwy yn ystyried systemau haenu ac awyru mewn adeiladau mawr, megis warysau a ffatrïoedd, gan arwain at ddyluniadau sy'n dibynnu ar oleuadau artiffisial ategol.
- **BACS uwch:** Awgrymodd un ymatebydd y dylid gwneud y gofyniad i gael systemau BACS uwch yn orfodol yn Adran 6 o'r Ddogfen Gymeradwy, fel ateb datgarboneiddio costeffeithiol ar gyfer adeiladau annomestig. Ar hyn o bryd, dim ond systemau BACS Dosbarth A y mae'r Ddogfen Gymeradwy yn eu hargymell mewn adeiladau annomestig presennol. Mae'r ymatebydd yn cynnig newid i ofyniad i systemau BACS Dosbarth A (neu Ddosbarth B mewn adeiladau lle nad yw Dosbarth A yn ddichonadwy) yn yr holl adeiladau newydd a phresennol sydd ag allbwn gwresogi, awyru ac aerdymheru o fwy na 70kW. Byddai hyn yn cyd-fynd â'r gofynion ar gyfer BACS yn yr UE, lle mae EPBD yn ei gwneud yn ofynnol gosod BACS yn yr holl adeiladau newydd a phresennol sydd ag allbwn gwresogi, awyru ac aerdymheru o fwy na 70kW erbyn diwedd 2029.
- **Cysondeb â Rhan F**: Cynigiodd un ymatebydd y dylid cysoni Rhan L a Rhan F â'i gilydd yn well drwy integreiddio strategaethau awyru a gwresogi yn fwy effeithlon.
- **Cysondeb â pholisïau ehangach yng Nghymru**: Awgrymodd un ymatebydd fod Rhan L yn gyson â pholisïau ehangach yng Nghymru, er enghraifft y Strategaeth Gwres, a'i bod yn rhoi cyllid a chymorth ar gyfer hyfforddiant ac uwchsgilio lle bo angen.
- **Gwerthuso adeiladau a ddefnyddir**: Dywedodd un ymatebydd y dylid ystyried gwerthusiadau o adeiladau a ddefnyddir ynghyd ag adborth er mwyn rhoi tystiolaeth ar gyfer diwygiadau o'r Dogfennau Cymeradwy yn y dyfodol.

**Ymateb y Llywodraeth i gwestiwn 62**

5.15 Ar hyn o bryd, nid yw'r camau ar ôl i'r gwaith adeiladu gael ei gwblhau a phan gaiff yr adeilad ei ddefnyddio yn fater i'r Rheoliadau Adeiladu, a ddaw i ben pan gaiff tystysgrif cwblhau ei chyflwyno; fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd y camau hyn o fewn cwmpas mathau eraill o ddeddfwriaeth a gofynion statudol lle y bônt yn berthnasol.

5.16 Mae gweddill y pwyntiau a godwyd yn yr adran hon ac sy'n briodol yn ein barn ni hefyd wedi cael eu codi mewn amrywiol adrannau eraill ac wedi cael sylw yn yr adrannau hynny. Nid oes gennym unrhyw beth pellach i'w ychwanegu yn yr adran hon.

5.17 Nodir: bod rhai sylwadau'n golygu bod angen cynnal proses ymgynghori ar wahân ac felly ni ellir mynd i'r afael â nhw fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, ond caiff y sylwadau eu cofnodi rhag ofn i ymgyngoriadau godi ar yr un pynciau yn y dyfodol.

# 6. Newidiadau deddfwriaethol i'r gofynion effeithlonrwydd ynni

6.1 Roedd Pennod 6 yr ymgynghoriad yn esbonio cefndir deddfu Safon Rhan L 2025 a'r ffaith y bydd yn ymwneud yn bennaf â newidiadau i'r Dogfennau Cymeradwy a'r fanyleb adeilad dybiannol. Gwnaethom hefyd nodi sut rydym yn bwriadu gwneud rhai newidiadau i'r Rheoliadau Adeiladu er mwyn sicrhau eu bod yn cynrychioli ein nodau deuol o dan Safon Rhan L 2025 sef lleihau allyriadau carbon ac arbed ynni. Gwnaethom hefyd gynnig diddymu rheoliadau a fydd yn mynd yn ddiangen yn sgil y newidiadau hyn.

**Diwygiadau i Ran L1 o Atodlen 1 er mwyn cyfeirio at leihau allyriadau nwyon tŷ**

**Cwestiwn 63: A ydych yn cytuno y dylid diwygio Rhan L1 o Atodlen 1, fel y nodir uchod, er mwyn ei gwneud yn ofynnol i ddarpariaeth resymol gael ei gwneud i arbed ynni a lleihau allyriadau carbon?**

| **Cwestiwn 63: A ydych yn cytuno y dylid diwygio Rhan L1 o Atodlen 1, fel y nodir uchod, er mwyn ei gwneud yn ofynnol i ddarpariaeth resymol gael ei gwneud i arbed ynni a lleihau allyriadau carbon?** | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Pawb a ymatebodd | Pensaer | Adeiladwr/Datblygwr | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Gweithiwr Proffesiynol ym maes Adeiladu | Dylunydd/Peiriannydd/Syrfëwr | Asesydd Ynni | Sector ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/cadwyn gyflenwi | Parti Arall â Diddordeb (rhowch fanylion) | Rheolwr Eiddo/Cymdeithas Tai/Landlord | Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu | Adeiladwr bach/canolig | Heb ei nodi | Adeiladwr tai mawr |
| **Cyfanswm** | **47** | **3** | **2** | **0** | **1** | **5** | **1** | **0** | **8** | **6** | **16** | **3** | **1** | **0** | **0** | **1** |
| a. Ydw | 70% | 33% | 0% | 0% | 0% | 80% | 100% | 0% | 88% | 67% | 75% | 67% | 100% | 0% | 0% | 100% |
| b. Nac ydw | 6% | 0% | 0% | 0% | 100% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 13% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| c. Ddim yn siŵr | 23% | 67% | 100% | 0% | 0% | 20% | 0% | 0% | 13% | 33% | 13% | 33% | 0% | 0% | 0% | 0% |

6.2 Rhoddodd cyfanswm o 47 o ymatebwyr adborth ar y cwestiwn hwn. O'r rhain, roedd 70% yn cytuno y dylai Atodlen 1 gael ei diwygio fel y nodir uchod. Roedd 6% yn anghytuno â'r cynnig ac roedd 23% o'r ymatebwyr yn ansicr.

- **Mwy o eglurder**: Roedd y rhai a oedd yn cefnogi'r cynigion yn cytuno y bydd y diwygiadau i Ran L1 o Atodlen 1 yn ceisio rhoi mwy o eglurder ynglŷn â gofynion y Rheoliadau.
- **Cydnabod pwysigrwydd lleihau allyriadau carbon**: Roedd cefnogwyr y cynigion yn teimlo y bydd y diwygiadau'n helpu i atgyfnerthu ymrwymiad Cymru i dargedau a rhwymedigaethau lleihau carbon. Roeddent hefyd yn gwerthfawrogi, er bod Dogfen Gymeradwy L yn ymwneud ag arbed tanwydd a phŵer yn bennaf, fod cyfeirio at allyriadau carbon a lleihau

nwyon tŷ gwydr yn gam sylweddol ymlaen o ran cydnabod goblygiadau ehangach rôl Rheoliadau Adeiladu wrth godi a gweithredu adeiladau yng Nghymru.

- **Carbon ymgorfforedig a charbon pan gaiff adeilad ei ddefnyddio**: Mynegodd rhai ymatebwyr awydd i'r cynigion gael eu hymestyn i gynnwys carbon ymgorfforedig (camau adeiladu) a charbon pan gaiff adeilad ei ddefnyddio (meddiannaeth). Nid oedd y rhain yn rhan o'r ymgynghoriad, ond cânt eu cofnodi er mwyn iddynt gael eu hystyried yn y dyfodol.
- **Paratoi tai i fod yn garbon niwtral**: Roedd cefnogaeth gref o blaid y cynigion a fydd yn sicrhau y bydd tai newydd a godir yng Nghymru yn y dyfodol yn 'Barod i fod yn Garbon Niwtral' ac yn gallu defnyddio technolegau carbon niwtral ac, yn bwysicaf oll, yn dod yn 'wyrddach' wrth i'r rhwydwaith cyflenwi ynni gyrraedd 100% o ynni adnewyddadwy gwyrdd yn y pen draw. Bydd defnyddio dulliau gwresogi, goleuo ac awyru sydd ond yn defnyddio trydan yn golygu y daw'r adeiladau'n garbon niwtral ar yr un pryd ag y sicrheir 100% o ynni carbon niwtral.
- **Cysondeb ag amcanion ehangach ar gyfer yr hinsawdd**: Roedd sawl ymatebydd yn cefnogi'r pwynt bod diwygio'r Rheoliadau i gynnwys cyfeiriadau at leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a bod yn garbon niwtral yn dangos bod y Rheoliadau yn newid mewn ffordd ystyrlon tuag at amcanion ehangach ar gyfer yr hinsawdd.
- **Dewis unigolion**: Roedd un ymatebydd yn teimlo mai'r unigolyn ddylai fod yn gyfrifol am benderfynu ceisio lleihau nwyon tŷ gwydr, ond amheuir ei fod wedi camddeall y cynnig o bosibl.
- **Diwygiad amserol:** Roedd llawer o'r ymatebwyr yn teimlo ei bod yn hen bryd cyflwyno'r diwygiad hwn i gynnwys lleihau nwyon tŷ gwydr.
- **Cefnogi ymrwymiadau polisi Sero Net Cymru:** Bydd hyn yn helpu Cymru i gyflawni ei hymrwymiad cyfreithiol i fod yn garbon niwtral erbyn 2050.
- **Anallu i reoli allyriadau nwyon tŷ gwydr**: Roedd dau ymatebydd yn anghytuno â'r cynigion am eu bod yn credu nad oes modd rheoli allyriadau nwyon tŷ gwydr ac na ddylent gael eu cynnwys yn y Rheoliadau Adeiladu, a ddylai ganolbwyntio ar leihau'r defnydd o ynni. Nid oeddent yn teimlo y byddai lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yn lleihau allyriadau carbon.
- **Cysondeb rheoleiddiol**: Bydd y diwygiad hwn yn helpu i sicrhau cysondeb rhwng y gweinyddiaethau datganoledig, gan fod Lloegr a'r Alban eisoes yn symud i'r cyfeiriad hwn, ac yn lleihau cymhlethdod yn y gweithle rheoleiddiol i ddatblygwyr a dylunwyr.
- **Annog y defnydd o dechnolegau carbon isel neu garbon niwtral**: Bydd y newid hwn yn hyrwyddo'r defnydd o dechnolegau carbon isel neu ddi-garbon mewn adeiladau yng Nghymru.
- **Costau rhedeg is**: Dylai'r cynnig helpu aelwydydd incwm isel a busnesau i leihau costau gwresogi, goleuo ac awyru eu hadeiladau.

**Ymateb y Llywodraeth i gwestiwn 63**

6.3 Nodir na chynigiwyd sylwadau o blaid nac yn erbyn y cynnig i gyd-fynd â'r ymatebion "Ddim yn siŵr" ac felly nad ydynt yn cael effaith sylweddol ar y 70% a oedd yn cytuno y dylid diwygio Rhan L1 o Atodlen 1.

6.4 Gan fod 70% yn cytuno y dylid diwygio Rhan L1 o Atodlen 1, 23% yn ansicr a dim ond 6% yn gwrthwynebu'r cynnig, byddwn yn bwrw ymlaen â chynnwys y cynnig hwn yng nghanllawiau'r Ddogfen Gymeradwy.

**Rheoliadau 25A a 25B**

**Cwestiwn 64: A ydych yn cytuno y bydd rheoliadau 25A a 25B yn ddiangen ar ôl i Safon Rhan L 2025 gael ei chyflwyno ac y gellir eu diddymu?**

| Cwestiwn 64: A ydych yn cytuno y bydd rheoliadau 25A a 25B yn ddiangen ar ôl i Safon Rhan L 2025 gael ei chyflwyno ac y gellir eu diddymu? | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Pawb a ymatebodd | Pensaer | Adeiladwr/Datblygwr | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Gweithiwr Proffesiynol ym maes Adeiladu | Dylunydd/Peiriannydd/Syrfëwr | Asesydd Ynni | Sector ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/cadwyn gyflenwi | Parti Arall â Diddordeb (rhowch fanylion) | Rheolwr Eiddo/Cymdeithas Tai/Landlord | Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu | Adeiladwr bach/canolig | Heb ei nodi | Adeiladwr tai mawr |
| **Cyfanswm** | **44** | **3** | **2** | **0** | **1** | **4** | **1** | **0** | **8** | **7** | **13** | **3** | **1** | **0** | **0** | **1** |
| a. Ydw | 59% | 33% | 50% | 0% | 0% | 25% | 100% | 0% | 88% | 57% | 46% | 100% | 100% | 0% | 0% | 100% |
| b. Nac ydw | 5% | 0% | 0% | 0% | 0% | 25% | 0% | 0% | 0% | 0% | 8% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| c. Ddim yn siŵr | 36% | 67% | 50% | 0% | 100% | 50% | 0% | 0% | 13% | 43% | 46% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |

6.5 Cyflwynwyd cyfanswm o 44 o ymatebion ar gyfer y cwestiwn hwn. Roedd mwyafrif o'r ymatebwyr (59%) yn cytuno y byddai rheoliadau 25A a 25B yn ddiangen ac y gellir eu diddymu, o gymharu â 5% a oedd yn anghytuno. Roedd 36% o'r ymatebwyr yn ansicr.

- **Eglurder y rheoliadau**: bydd eu diddymu'n gwneud y rheoliadau'n glir ac yn ddiamwys.
- **Bydd adeiladau newydd yn barod i fod yn ddi-garbon**: roedd cytundeb cyffredinol na fydd angen gofyniad i gael diffiniadau fel y rhai a geir yn 25A a 25B wrth i adeiladau ddod yn barod i fod yn ddi-garbon.
- **Hyblygrwydd**: roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod 25A a 25B yn dal yn ddilys er mwyn cynnig rhywfaint o hyblygrwydd dull fesul achos, yn enwedig wrth ystyried pa fethodoleg i'w defnyddio.
- **Dim llawer o ymatebion**: Ar y cyfan, ychydig iawn o sylwadau a gyflwynwyd.

**Ymateb y Llywodraeth i gwestiwn 64**

6.6 Roedd 59% o'r ymatebion yn cefnogi'r cynnig, a dim ond 5% oedd yn ei wrthwynebu. O'r 36% a ddewisodd yr opsiwn “Ddim yn siŵr”, dim ond un sylw a wnaed, ac ni wnaed sylw o gwbl gan y rhan fwyaf o'r gweddill. Byddai hyn yn awgrymu nad oedd y rhai a oedd yn ansicr yn cefnogi nac yn gwrthwynebu'r cynnig ac, yn seiliedig ar hynny, nid ydynt yn cael effaith sylweddol ar y mwyafrif o 59% a oedd o blaid y cynnig.

6.7 Felly, down i'r casgliad bod y mwyafrif o blaid diddymu rheoliadau 25A a 25B, a byddwn yn bwrw ymlaen ar y sail y caiff rheoliadau 25A a 25B eu diddymu.

# 7. Adborth ar yr Asesiad Effaith

7.1 Roedd Pennod 7 yr ymgynghoriad yn ystyried yr Asesiad Effaith ar y cam ymgynghori. Mae Rheoliadau Adeiladu yn dylanwadu'n fawr ar y ffordd y caiff ein hadeiladau eu codi a'u defnyddio. Felly, maent yn helpu i sicrhau manteision sylweddol i gymdeithas. Gall fod costau i fusnesau ac unigolion yn gysylltiedig â gweithgarwch rheoleiddio hefyd. Gwnaethom gyhoeddi Asesiad Effaith gyda'r ymgynghoriad a oedd yn ystyried costau a manteision y newidiadau arfaethedig i'r Rheoliadau Adeiladu.

**Cwestiwn 65: Mae'r Asesiad Effaith yn gwneud nifer o dybiaethau ynglŷn â chostau adeiladwaith/gwasanaethau/ynni adnewyddadwy, cyfraddau adeiladau newydd, cyfraddau cyflwyno fesul cam, cyfraddau dysgu, ac ati ar gyfer anheddau newydd. A yw'r tybiaethau hyn yn deg ac yn rhesymol, yn eich barn chi?**

| Cwestiwn 65: Mae'r Asesiad Effaith yn gwneud nifer o dybiaethau ynglŷn â chostau adeiladwaith/gwasanaethau/ynni adnewyddadwy, cyfraddau adeiladau newydd, cyfraddau cyflwyno fesul cam, cyfraddau dysgu, ac ati ar gyfer anheddau newydd. A yw'r tybiaethau hyn yn deg ac yn rhesymol, yn eich barn chi? | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Pawb a ymatebodd | Pensaer | Adeiladwr/Datblygwr | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Gweithiwr Proffesiynol ym maes Adeiladu | Dylunydd/Peiriannydd/Syrfëwr | Asesydd Ynni | Sector ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/cadwyn gyflenwi | Parti Arall â Diddordeb (rhowch fanylion) | Rheolwr Eiddo/Cymdeithas Tai/Landlord | Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu | Adeiladwr bach/canolig | Heb ei nodi | Adeiladwr tai mawr |
| **Cyfanswm** | **44** | **3** | **2** | **1** | **1** | **5** | **0** | **0** | **8** | **6** | **13** | **3** | **1** | **0** | **0** | **1** |
| a. Ydynt | 27% | 0% | 0% | 0% | 0% | 20% | 0% | 0% | 100% | 33% | 8% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| b. Nac ydynt | 23% | 0% | 50% | 100% | 0% | 40% | 0% | 0% | 0% | 17% | 31% | 33% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| c. Ddim yn siŵr | 50% | 100% | 50% | 0% | 100% | 40% | 0% | 0% | 0% | 50% | 62% | 67% | 100% | 0% | 0% | 100% |

7.2 Roedd cyfanswm o 44 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn. O'r rhain, roedd nifer tebyg yn cytuno (27%) ac yn anghytuno (23%) â'r tybiaethau. Roedd 50% yn ansicr p'un a yw'r tybiaethau'n deg ac yn rhesymol ai peidio.

### Sylwadau ar y tybiaethau

7.3 Gwnaeth yr ymatebwyr nad oeddent yn credu bod y tybiaethau a ddefnyddir yn yr asesiad effaith yn deg ac yn rhesymol, neu a oedd yn ansicr ynglŷn â hynny, y pwyntiau canlynol. Gwnaeth y ddwy set o ymatebwyr bwyntiau tebyg.

- **Amcangyfrif costau adeiladu yn rhy isel**: Awgrymodd chwe ymatebydd fod yr asesiad yn amcangyfrif yr effeithiau ar gostau adeiladu sy'n gysylltiedig â'r newidiadau yn rhy isel. Yn benodol, nodwyd heriau posibl i'r gadwyn gyflenwi a'r angen am osodwyr arbenigol.
- **Tanbrisio'r manteision polisi**: Awgrymodd pum ymatebydd fod y

dadansoddiad yn tanbrisio manteisio gwell adeiladwaith. Yn benodol, gwnaethant nodi'r manteision i iechyd a chysur a'r arbedion ynni hirdymor yn sgil dull “adeiladwaith yn gyntaf”.

- **Perfformiad paneli ffotofoltäig**: Dywedodd pedwar ymatebydd fod perfformiad paneli solar ffotofoltäig yn cael ei orbwysleisio oherwydd materion yn ymwneud â chynnal a chadw a dichonoldeb technegol.
- **Ehangu'r asesiad**: Awgrymodd dau ymatebydd y dylai'r asesiad gynnwys amrywiaeth ehangach o dechnolegau carbon isel. Dylid hefyd ystyried amrywiadau o ran mathau o dai a'u dyluniadau, oherwydd gall y gwahaniaethau hyn beri heriau wrth geisio bodloni'r gofynion arfaethedig.

**Cwestiwn 66: Ar y cyfan, a yw'r asesiad effaith yn asesiad teg a rhesymol o gostau a manteision posibl yr opsiynau arfaethedig ar gyfer anheddau newydd, yn eich barn chi?**

| Cwestiwn 66: Ar y cyfan, a yw'r asesiad effaith yn asesiad teg a rhesymol o gostau a manteision posibl yr opsiynau arfaethedig ar gyfer anheddau newydd, yn eich barn chi? | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Pawb a ymatebodd | Pensaer | Adeiladwr/Datblygwr | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Gweithiwr Proffesiynol ym maes Adeiladu | Dylunydd/Peiriannydd/Syrfëwr | Asesydd Ynni | Sector ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/cadwyn gyflenwi | Parti Arall â Diddordeb (rhowch fanylion) | Rheolwr Eiddo/Cymdeithas Tai/Landlord | Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu | Adeiladwr bach/canolig | Heb ei nodi | Adeiladwr tai mawr |
| **Cyfanswm** | **55** | **9** | **2** | **1** | **3** | **6** | **1** | **0** | **8** | **7** | **13** | **3** | **0** | **1** | **0** | **1** |
| a. Ydy | 18% | 0% | 0% | 0% | 0% | 17% | 0% | 0% | 75% | 29% | 8% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| b. Nac ydy | 49% | 89% | 100% | 100% | 67% | 83% | 100% | 0% | 0% | 29% | 31% | 33% | 0% | 100% | 0% | 0% |
| c. Ddim yn siŵr | 33% | 11% | 0% | 0% | 33% | 0% | 0% | 0% | 25% | 43% | 62% | 67% | 0% | 0% | 0% | 100% |

7.4 Roedd cyfanswm o 55 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn. O'r rhain, roedd 18% yn cytuno â'r asesiad ac roedd 49% yn anghytuno. Roedd 33% o'r ymatebwyr yn ansicr.

**Sylwadau ar yr asesiad**

7.5 Gwnaeth yr ymatebwyr nad oeddent yn credu bod yr asesiad o gostau a manteision yn deg ac yn rhesymol, neu a oedd yn ansicr ynglŷn â hynny, y pwyntiau canlynol. Gwnaeth y ddwy set o ymatebwyr bwyntiau tebyg.

- **Mae'r dadansoddiad yn amcangyfrif mantais gwell adeiladwaith yn rhy isel**: Roedd 19 o ymatebwyr yn credu nad yw'r dadansoddiad yn ystyried holl fanteision gwell adeiladwaith yn llawn. Mae hyn yn cynnwys gwelliannau iechyd, gwelliannau i berfformiad pympiau gwres mewn cartrefi â galw isel am ynni, a gallu adeiladwaith i sicrhau gwelliannau cyson o ran effeithlonrwydd ynni.

- **Caiff perfformiad systemau ynni adnewyddadwy ei orbwysleisio o gymharu â gwelliannau i adeiladwaith**: Awgrymodd 13 o ymatebwyr nad yw'r dadansoddiad yn ystyried gwaith cynnal a chadw gwael neu heriau technegol a allai waethygu perfformiad hirdymor paneli solar ffotofoltäig. Nododd yr ymatebwyr fod gwelliannau i adeiladwaith yn cynnig ateb mwy dibynadwy.
- **Nid yw manteision systemau awyru MVHR yn cael eu mesur**: Tynnodd 10 ymatebydd sylw at y ffaith nad yw'r dadansoddiad yn adlewyrchu potensial MVHR i wella ansawdd aer dan do o gymharu â systemau awyru eraill.
- **Tybiaethau manylach**: Gofynnodd pedwar ymatebydd am dybiaethau manylach ynghylch costau megis cyfraddau fesul metr sgwâr fesul adeilad.
- **Amcangyfrif costau adeiladu yn rhy isel**: Awgrymodd tri ymatebydd fod yr asesiad yn amcangyfrif yr effeithiau ar gostau adeiladu sy'n gysylltiedig â'r newidiadau yn rhy isel. Yn benodol, nodwyd yr angen am osodwyr arbenigol.
- **Ehangu'r asesiad**: Dywedodd un ymatebydd nad yw'r asesiad yn ystyried materion gwledig yn llawn.

7.6 Hefyd, tynnwyd sylw at y pwynt canlynol.

- **Goleuadau arbenigol**: Rhoddodd un ymatebydd wybodaeth ategol a oedd yn tynnu sylw at yr effeithiau andwyol ar wneuthurwyr goleuadau arbenigol na fydd eu cynhyrchion yn bodloni'r manylebau mwyach o bosibl. Cynigiwyd y dylid rhoi cyfrif am hyn yn yr asesiad.

**Ymateb y Llywodraeth i gwestiynau 65 a 66**

7.7 Y farn fwyafrifol gyffredinol yw bod yr ymgyngoreion yn ansicr ynglŷn â'r tybiaethau ynghylch costau adeiladwaith/gwasanaethau/ynni adnewyddadwy, cyfraddau gwaith adeiladu newydd, cyfraddau cyflwyno'n raddol cyfraddau dysgu ac ati ar gyfer anheddau newydd ac, mewn rhai ymatebion, ceir gwrth-honiadau sy'n dweud bod costau gwirioneddol yn sylweddol uwch na'r rhai a nodir yn yr Asesiad Effaith (AE).

7.8 Rydym yn cydnabod yr ansicrwydd, ond mae asesiadau effaith rheoleiddiol o reidrwydd yn ddibynnol ar wneud tybiaethau gwrthrychol i arfarnu opsiynau polisi ac felly cynrychiolaeth o effaith gymharol yr opsiynau arfaethedig ydynt.

7.9 Cafwyd barn gref gyffredinol yn erbyn rhesymoldeb yr asesiad o'r costau a'r manteision yn yr asesiad effaith, fel yr adlewyrchir yn y ffaith bod 49% wedi pleidleisio yn erbyn yr asesiad effaith, bod 33% yn ansicr a dim ond 18% yn cytuno ei fod yn adlewyrchiad teg o gostau a manteision posibl.

7.10 Yn sgil yr ymatebion i gwestiynau 65 a 66, byddwn yn mynd ati'n ofalus i ailystyried y costau a'r manteision yn yr asesiad effaith, a'r sylwadau o sylwedd lle y bônt yn berthnasol, er mwyn llywio'r asesiad effaith terfynol.

# 8. Trefniadau Trosiannol

8.1 Roedd Pennod 8 yr ymgynghoriad yn esbonio bod y trefniadau trosiannol ar gyfer codiad 2022 i Ran L yn fwy llym na threfniadau trosiannol blaenorol ar gyfer Rhan L. Roeddent yn gymwys i adeiladau unigol yn hytrach na datblygiad cyfan. Ar gyfer codiad Rhan L 2022, roedd cyfnod o chwe mis rhwng dyddiad cyflwyno'r ddeddfwriaeth newydd a'r dyddiad y daeth y ddeddfwriaeth i rym. Dilynwyd hyn gan gyfnod trosiannol o 12 mis.

8.2 Gwnaethom hefyd gydnabod y bydd angen i drefniadau trosiannol fod yn gymesur â graddfa'r her gyflawni, gan ddarparu cyfnod rhesymol o amser i'r diwydiant addasu a gwneud yn siŵr y cynhelir y momentwm tuag at ein targedau sero net. Gwnaethom esbonio, er bod y gofynion o ran adeiladwaith a darparu paneli solar ffotofoltäig yn debyg i'r hyn rydym yn disgwyl i ddatblygwyr ei gyflawni er mwyn bodloni codiad Rhan L 2022, ein bod yn cydnabod bod yr opsiynau domestig ac annomestig arfaethedig yn cynrychioli newid sylweddol tuag at ddefnyddio technolegau carbon isel.

8.3 Roedd y bennod hon yn yr ymgynghoriad yn cynnig rhagor o fanylion ac yn gofyn i'r ymatebwyr roi eu barn ar ddau opsiwn ar gyfer trefniadau trosiannol rhwng cyflwyno'r rheoliadau a'r dyddiad dod i rym. Byddai'r ddau opsiwn yn arwain at gyfnod trosiannol o 12 mis.

**Cwestiwn 67: Pa opsiwn sy'n disgrifio'r amserlen rhwng cyflwyno'r rheoliadau a'r dyddiad dod i rym ar gyfer Safon Rhan L 2025 a ffefrir gennych?**

| **Cwestiwn 67: Pa opsiwn sy'n disgrifio'r amserlen rhwng cyflwyno'r rheoliadau a'r dyddiad dod i rym ar gyfer Safon Rhan L 2025 a ffefrir gennych?** | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Pawb a ymatebodd | Pensaer | Adeiladwr/Datblygwr | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Gweithiwr Proffesiynol ym maes Adeiladu | Dylunydd/Peiriannydd/Syrfëwr | Asesydd Ynni | Sector ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/cadwyn gyflenwi | Parti Arall â Diddordeb (rhowch fanylion) | Rheolwr Eiddo/Cymdeithas Tai/Landlord | Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu | Adeiladwr bach/canolig | Heb ei nodi | Adeiladwr tai mawr |
| **Cyfanswm** | **56** | **4** | **2** | **1** | **2** | **5** | **1** | **0** | **8** | **8** | **21** | **3** | **0** | **0** | **0** | **1** |
| a. Opsiwn 1 | 41% | 75% | 0% | 0% | 100% | 40% | 0% | 0% | 13% | 38% | 57% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| b. Opsiwn 2 | 59% | 25% | 100% | 100% | 0% | 60% | 100% | 0% | 88% | 63% | 43% | 100% | 0% | 0% | 0% | 100% |
| c. Arall | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |

8.4 Cafwyd 56 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd y mwyafrif (59%) yn ffafrio Opsiwn 2, ac roedd 41% yn ffafrio Opsiwn 1.

**Rhesymau dros gefnogi Opsiwn 1**

- **Safonau llai uchelgeisiol**: Dywedodd un ymatebydd y bydd Opsiwn 1 yn ddigonol os bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno'r lefel leiaf uchelgeisiol o godiad i'r safonau effeithlonrwydd ynni.
- **Cysondeb â chodiad / cynsail Rhan L 2022**: Dywedodd dau ymatebydd y byddai Opsiwn 1 yn cyd-fynd â'r cyfnod a ddarperir ar gyfer codiad Rhan L 2022, gan bwysleisio bod y safonau Rhan L presennol eisoes yn codio safonau adeiladwaith i lefelau heriol, ac felly mae datblygwyr eisoes yn gweithredu ar y lefel honno. Nododd un ymatebydd mai'r newid mawr yw cynnwys systemau gwresogi carbon isel yn y fanyleb adeilad dybiannol. Mae hyn eisoes wedi awgrymu ers o leiaf bum mlynedd, ac felly mae digon o amser paratoi wedi cael ei roi.
- **Parodrwydd ar gyfer Rhan L 2025 a'r defnydd o HEM/SAP**: Dywedodd un ymatebydd, pe bai SAP yn cael ei ddefnyddio ochr yn ochr â'r Model Ynni Cartrefi i ddangos cydymffurfiaeth â'r safonau effeithlonrwydd ynni, y byddai Opsiwn 1 yn rhoi digon o amser i'r diwydiant baratoi ar gyfer y safonau newydd.
- **Y brys i ddatgarboneiddio / sero net / biliau is**: Pwysleisiodd tri ymatebydd y dylai'r safonau newydd gael eu cyflwyno cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau y caiff cynifer â phosibl o gartrefi eu hadeiladu sy'n cyrraedd safonau uwch ac sy'n barod ar gyfer sero net. Hefyd, nododd un o'r ymatebwyr bod y safonau newydd yn debygol o greu swyddi a thyfu'r carbon sector isel cyfan er budd Cymru i gyd.
- **Osgoi safonau mwy llym**: Dywedodd un ymatebydd y bydd Opsiwn 1 yn rhoi ffocws i ddatblygwyr a dylunwyr, a bod y cynigion cyffredinol wedi bod yn hysbys ers peth amser, gan roi amser i baratoi ac addasu. Mae'n bosibl y bydd oedi cyn i'r newidiadau gael eu rhoi ar waith yn golygu y bydd datblygwyr yn cyflwyno ceisiadau er mwyn osgoi gorfod cyrraedd safonau dylunio mwy beichus, a byddai cyfnod trosiannol byr yn helpu i wrthbwyso hyn.
- **Diffiniad o'r term "cychwyn"**: Roedd un ymatebydd o blaid defnyddio diffiniad cyson o'r term "cychwyn", ond dywedodd fod angen eglurder, gan godi sawl pwynt ynglŷn â'r diffiniad a gynigiwyd yn wreiddiol.
- **Cysondeb â Lloegr / Safon Cartrefi'r Dyfodol**: Dywedodd un ymatebydd y dylai Opsiwn 1 roi digon o amser i'r diwydiant ffenestri roi'r gorau i ddefnyddio gwerthoedd U ffenestri a drysau wedi'u cyfrifo ar gyfer meintiau a ffurfweddiadau safonol a dechrau defnyddio rhai gwirioneddol. O ystyried yr arloesi sydd eisoes wedi digwydd yn y diwydiant ffenestri a drysau cyn i Safon Cartrefi'r Dyfodol gael ei chyflwyno, mae'r amserlen hon yn realistig, yn gyflawnadwy ac yn synhwyrol.
- **Capasiti a pharodrwydd cadwyni cyflenwi**: Pwysleisiodd dau ymatebydd a oedd o blaid Opsiwn 1 y bydd angen i Lywodraeth Cymru fod yn fodlon bod cadwyni cyflenwi ar gyfer technolegau carbon isel wedi cael eu sefydlu a'u bod yn ddigon cadarn i gyflenwi'r nifer gofynnol o bympiau gwres, paneli

ffotofoltäig ac ati er mwyn i hyn ddigwydd. Hefyd, nododd un ymatebydd bwysigrwydd argaeledd sgiliau/cymhwysedd/adnoddau mewn perthynas â'r gwaith adeiladu cychwynnol a'r gwaith cynnal a chadw parhaus ar systemau pan fydd pobl yn byw yn y cartrefi.

**Rhesymau dros gefnogi Opsiwn 2**

- **Y diwydiant ffenestri**: Dywedodd un ymatebydd mai 12 mis yw'r isafswm. Yn ddelfrydol, bydd angen mwy o amser ar lawer o rannau o'r diwydiant ffenestri i ddatblygu systemau ffenestri a drysau newydd a phecynnau meddalwedd i wneud y gwaith cyfrifo thermol gofynnol.
- **Uchelgais adeiladwaith yn gyntaf / safonau mwy uchelgeisiol**: Dywedodd dau ymatebydd y bydd cyfnod paratoi o 12 mis yn rhoi amser ychwanegol i ddatblygwyr a dylunwyr baratoi ar gyfer gofynion newydd Rhan L 2025. Fodd bynnag, pwysleisiwyd mai os caiff Opsiwn 2 (ar gyfer y codiad i'r safonau effeithlonrwydd ynni) ei fabwysiadu ar yr un pryd y bydd yr amser paratoi estynedig hwn yn fwyaf gwerthfawr, am ei fod yn cynrychioli dull mwy uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar adeiladwaith yn gyntaf ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd ynni a chartrefi sy'n barod ar gyfer sero net.
- **Amser i gynllunio ac addasu**: Dywedodd un ymatebydd ei fod, fel datblygwr, yn gryf o blaid cyfnod pontio 12 mis rhwng cyflwyno'r rheoliadau a'u gorfodi. Mae hyn yn rhoi'r amser angenrheidiol i'r diwydiant addasu dyluniadau, cadwyni cyflenwi a rhaglenni adeiladau er mwyn cyrraedd safon newydd Rhan L 2025 mewn modd ymarferol ac effeithlon.
- **Cyfyngiadau ar gadwyni cyflenwi, sgiliau a hyfforddiant**: Dywedodd un ymatebydd y bydd y safonau newydd yn cael effaith sylweddol ar ddiwydiant, gan bwysleisio y bydd cynnydd yn yr angen am osodwyr technolegau ynni adnewyddadwy ac y bydd angen cryn dipyn o hyfforddiant i aseswyr.
- **Materion fesul plot ac effeithiau ar gwsmeriaid**: Dywedodd un ymatebydd fod y cyfnod trosiannol o 12 mis yn dda heblaw pan fyddwch ond wedi cwblhau tri chwarter y safle mewn 12 mis gan olygu y bydd yn rhaid ailddylunio'r plotiau sy'n weddill, ac awgrymodd yr ymatebydd hwn, os bydd 75% o'r safle wedi'i gwblhau, y dylai'r plotiau sy'n weddill gael eu hadeiladu i'r un safon.
- **Cydbwysedd**: Nododd dau ymatebydd eu bod yn ffafrio'r amserlen chwe mis o ran yr amgylchedd a lleihau allyriadau carbon, ond bod y newidiadau arfaethedig yn sylweddol, ac felly nad oeddent yn siŵr a yw'r diwydiant yn barod amdanynt. Datblygu HEM oedd un o'r enghreifftiau a roddwyd.

**Ymateb y Llywodraeth i gwestiwn 67**

8.5 Roedd cefnogaeth gref o blaid Opsiwn 2, gyda 59% o'r ymatebwyr yn ffafrio cyfnod o 12 mis rhwng cyflwyno’r rheoliadau a chychwyn y safon Rhan L

newydd. Roedd llawer yn teimlo y byddai'r amserlen yn rhoi digon o amser i'r diwydiant baratoi.

8.6 Roedd yn well gan gefnogwyr Opsiwn 1 (41%) gyfnod chwe mis, gan dynnu sylw at y ffaith bod Llywodraeth Cymru eisoes wedi datgan ei bwriad i gyflwyno safon Rhan L fwy uchelgeisiol a symud i systemau gwresogi carbon isel yn ystod yr ymgynghoriad ar godiad 2022 i'r safon, gan roi amser i'r diwydiant baratoi. Nododd rhai y dylai chwe mis fod yn ddigon os caiff SAP ei ddefnyddio ochr yn ochr â HEM. Mae ein hymateb i gwestiynau 15 ac 16 yn amlinellu cynlluniau ar gyfer adnodd asesu anheddau yng Nghymru o dan Ran L.

8.7 Roedd un ymatebydd a oedd yn cefnogi Opsiwn 1 yn cytuno y dylid defnyddio diffiniad cyson o'r term “cychwyn”, ond nododd fod angen eglurder. Ym mis Tachwedd 2025, gwnaethom gyhoeddi ymateb y Llywodraeth i'r Ymgynghoriad ar y gyfundrefn rheolaeth adeiladu newydd ar gyfer adeiladau risg uwch a newidiadau ehangach i'r rheoliadau adeiladu yng Nghymru. Mae ein hymateb yn nodi'r diffiniad o'r term “cychwyn” rydym wedi'i gyflwyno. Mae'r rheoliadau sy'n cynnwys y ddarpariaeth hon bellach wedi cael eu cyflwyno a byddant yn dod i rym ym mis Gorffennaf 2026.[4]

8.8 Dywedodd sawl un o'r ymatebwyr a ddewisodd Opsiwn 2 mai'r disgwyliad y bydd systemau MVHR yn cael eu cynnwys yn y fanyleb annedd dybiannol oedd eu rheswm. Mae ein hymateb i Gwestiwn 1 yn esbonio ein sail resymegol dros fabwysiadu Opsiwn 1 ar gyfer y fanyleb annedd dybiannol.

8.9 Ar ôl ystyried yr holl ymatebion, byddwn yn bwrw ymlaen ag Opsiwn 2, sef cyfnod o 12 mis cyn cychwyn, ac yna gyfnod trosiannol o 12 mis. Mae'r dull hwn yn taro cydbwysedd rhwng yr angen i gyflwyno codiad sylweddol i safon Rhan L sy'n ein helpu i gyflawni ein hymrwymiad i gyrraedd sero net erbyn 2050, a'r angen i roi amser ychwanegol i ddiwydiant addasu, meithrin cymhwysedd, a gorffen datblygu sgiliau, yn enwedig mewn perthynas â thechnolegau carbon isel.

[4] Rheoliadau Adeiladu etc. (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2025

## Cwestiwn 68: A fydd y newidiadau i'r Rheoliadau Adeiladu a gynigir yn yr ymgynghoriad hwn yn arwain at yr angen i ddiwygio caniatadau cynllunio sy'n bodoli eisoes? Os felly, pa ddiwygiadau allai fod eu hangen a sut gall y gyfundrefn gynllunio gefnogi diwygiadau o'r fath yn y ffordd orau?

| Cwestiwn 68: A fydd y newidiadau i'r Rheoliadau Adeiladu a gynigir yn yr ymgynghoriad hwn yn arwain at yr angen i ddiwygio caniatadau cynllunio sy'n bodoli eisoes? Os felly, pa ddiwygiadau allai fod eu hangen a sut gall y gyfundrefn gynllunio gefnogi diwygiadau o'r fath yn y ffordd orau? | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Pawb a ymatebodd | Pensaer | Adeiladwr/Datblygwr | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Gweithiwr Proffesiynol ym maes Adeiladu | Dylunydd/Peiriannydd/Syrfëwr | Asesydd Ynni | Sector ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/cadwyn gyflenwi | Parti Arall â Diddordeb (rhowch fanylion) | Rheolwr Eiddo/Cymdeithas Tai/Landlord | Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu | Adeiladwr bach/canolig | Heb ei nodi | Adeiladwr tai mawr |
| **Cyfanswm** | **43** | **3** | **2** | **1** | **1** | **4** | **1** | **0** | **8** | **6** | **12** | **3** | **1** | **0** | **0** | **1** |
| a. Byddant | 51% | 67% | 50% | 0% | 0% | 50% | 0% | 0% | 75% | 17% | 42% | 100% | 100% | 0% | 0% | 100% |
| b. Na fyddant | 2% | 0% | 0% | 0% | 100% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| c. Ddim yn siŵr | 47% | 33% | 50% | 100% | 0% | 50% | 100% | 0% | 25% | 83% | 58% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |

8.10 Rhoddodd cyfanswm o 43 o ymatebwyr adborth ar y cwestiwn hwn. Roedd 51% yn cytuno y bydd y newidiadau a gynigir yn yr ymgynghoriad yn arwain at yr angen i ddiwygio caniatadau cynllunio sy'n bodoli eisoes, ac roedd 2% yn anghytuno. Roedd 47% o'r ymatebwyr yn ansicr.

**Adborth a roddwyd gan y rhai sy'n credu y bydd y newidiadau'n arwain at yr angen i ddiwygio caniatadau cynllunio sy'n bodoli eisoes**

- **Trefniadau trosiannol a mwy o amser paratoi er mwyn osgoi problemau**: Dywedodd pedwar ymatebydd y byddai cyfnod trosiannol hwy yn lleihau nifer yr achosion lle y byddai angen ailystyried caniatadau cynllunio.
- **Hawliau datblygu a ganiateir**: Cododd sawl ymatebydd bryderon ynglŷn â hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer pympiau gwres yng Nghymru, ac awgrymwyd y dylid cael gwared ar y rheol 3 metr bresennol.
- **Yr angen am hyblygrwydd/llwybr carlam neu ffioedd is ar gyfer mân newidiadau**: Awgrymodd dau ymatebydd y dylai awdurdodau cynllunio gynnig llwybrau diwygio wedi'u symleiddio er mwyn osgoi oedi cyn cyflawni.
- **Canllawiau ac eglurder ynghylch prosesau**: Nododd pedwar ymatebydd hyn. Awgrymodd yr ymatebwyr y dylai awdurdodau cynllunio lleol roi canllawiau clir er mwyn galluogi datblygwyr i wneud addasiadau angenrheidiol yn effeithlon.
- **Ymwybyddiaeth swyddogion cynllunio**: Nododd dau ymatebydd hyn. Awgrymodd un ymatebydd y bydd gwell cydgysylltu rhwng timau cynllunio a rheoli adeiladu'n hanfodol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau heb achosi oedi na chynyddu beichiau gweinyddol. Nododd un ymatebydd

arall ei bod yn aml yn ymddangos nad yw swyddogion cynllunio'n ymwybodol o'r gofynion a all fod yn berthnasol i uwchgynlluniau yn sgil cydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu, gan awgrymu y dylai swyddogion cynllunio gael DPP ar newidiadau i'r Rheoliadau Adeiladu.

- **Ddim yn disgwyl iddynt darfu llawer**: Dywedodd un ymatebydd, er ei bod yn bosibl y bydd y newidiadau arfaethedig yn golygu bod angen mân ddiwygiadau i ganiatadau cynllunio sy'n bodoli eisoes, nad oes disgwyl i'r rhain fod yn helaeth na tharfu llawer.
- **Diwygiadau yn sgil gofyniad i osod paneli solar ffotofoltäig yn effeithio ar ddyluniad toeau**: Nododd sawl ymatebydd y bydd y gofyniad arfaethedig i osod paneli solar ffotofoltäig yn arwain at yr angen i ddiwygio caniatadau cynllunio sy'n bodoli eisoes. Nododd un ymatebydd fod codiad 2022 i Ran L wedi arwain at newidiadau i doeau / strydlun ei ddatblygiadau a oedd yn wahanol i'r rhai a gymeradwywyd o dan y caniatâd cynllunio a oedd yn bodoli eisoes. Dywedodd un ymatebydd arall fod y gofyniad 40% ar gyfer paneli ffotofoltäig yn gwneud toeau dormer yn broblematig, gan nodi bod angen i swyddogion cynllunio gydymdeimlo â cheisiadau diwygio i gael gwared ar doeau dormer.
- **Yn debyg i godiad Rhan L 2022**: Nododd un ymatebydd fod y newidiadau'n debyg i'r rhai a gyflwynwyd gan godiad Rhan L 2022, a arweiniodd at yr angen i ddiwygio caniatadau cynllunio a oedd yn bodoli eisoes. Dywedodd yr ymatebydd fod llawer o awdurdodau cynllunio lleol yn gweithredu'n ofalus o ran y math o gais sy'n angenrheidiol i reoleiddio gofynion dylunio, a rhoddodd enghraifft lle bo cais Adran 73, yn hytrach na chais Adran 96a (o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990), yn ofynnol. Nododd yr ymatebydd mai'r gwahaniaeth allweddol rhwng y ceisiadau hyn yw'r amserlen statudol ar gyfer penderfynu yn eu cylch, sy'n gallu arwain at oedi o fewn prosiectau.
- **Lleoliad pympiau gwres**: Nododd un ymatebydd y gallai'r gofyniad i osod pympiau gwres ddim mwy nag 1M i ffwrdd o'r eiddo hefyd achosi rhwystrau rhag gosod pympiau gwres mewn anheddau presennol lle na chafodd cynllun yr adeilad ei ddylunio â phwmp gwres allanol mewn golwg.
- **HEM:** Nododd un ymatebydd y gall HEM arwain at oblygiadau sylweddol o ran cynlluniau safleoedd presennol gan fod cyfeiriadaeth cartrefi a ffenestri'n effeithio ar gyfrifiadau.

**Ymateb y Llywodraeth i gwestiwn 68**

8.11 Roedd mwyafrif o'r ymatebwyr (51%) yn credu y bydd y newidiadau arfaethedig yn arwain at yr angen i ddiwygio caniatadau cynllunio sy'n bodoli eisoes, ac roedd 2% yn credu na fyddant yn gwneud hynny.

8.12 Cawsom adborth ar y cynnig i wneud paneli ffotofoltäig yn ofynnol ar adeiladau newydd, yn enwedig pryderon y gall y gofyniad olygu y bydd angen diwygio caniatadau cynllunio sy'n bodoli eisoes, gan arwain at oedi o bosibl. Pan gaiff y safon Rhan L newydd ei chyflwyno, cyfrifoldeb pob awdurdod cynllunio lleol unigol fydd penderfynu sut yr ymdrinnir ag unrhyw ddiwygiadau posibl i ganiatadau cynllunio sy'n bodoli eisoes, a hynny fesur achos. Fel yr amlinellwyd yn ein hymateb i Gwestiwn 67, rydym yn bwriadu caniatáu cyfnod

o 12 mis rhwng cyflwyno'r rheoliadau newydd a'r dyddiad y dônt i rym, ac yna gyfnod trosiannol pellach o 12 mis. Mae'r dull hwn yn rhoi amser ychwanegol i ddatblygwyr addasu, ac yn lleihau'r effaith ar brosiectau sydd eisoes wedi cael caniatadau cynllunio.

8.13 Mewn ymateb i'r rhai a gododd bryder ynglŷn â'r gofyniad arfaethedig i osod paneli solar ffotofoltäig ar anheddau newydd ac effaith hynny ar fathau penodol o anheddau megis y rhai â thoeau dormer, rydym wedi ystyried y gofyniad hwn fel yr esbonnir yn ein hymateb i Gwestiwn 12.

8.14 Hefyd, cododd ymatebwyr bryderon ynglŷn â'r canllawiau yn Adran 4 o Ddogfen Gymeradwy L, Cyfrol 1, sy'n ei gwneud yn ofynnol gosod pympiau gwres o fewn 1 metr i'r annedd. Fel y disgrifiwyd yn yr ymateb i gwestiynau 23 a 24 uchod, byddwn yn diwygio'r canllawiau i gael gwared ar y terfyn o 23m o'r annedd a awgrymir ar gyfer y pwmp gwres a chaniatáu rhywfaint o hyblygrwydd/arloesedd drwy gynghori y dylai'r pwmp gwres fod mor agos at yr annedd ag y bo'n ymarferol.

8.15 Tynnodd yr ymatebwyr sylw at faterion yn ymwneud â chaniatâd cynllunio a hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer pympiau gwres o'r aer yng Nghymru. Mae'r hawliau datblygu a ganiateir sy'n bodoli ar hyn o bryd yn mynnu pellter o 3 metr i ffwrdd o ffin eiddo cyfagos. Yn 2025, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar newidiadau arfaethedig i'r hawliau hyn, gan gynnwys cael gwared ar y rheol 3 metr. Cyhoeddwyd ymateb y Llywodraeth ar ddiwedd y llynedd ac mae'n nodi sut rydym yn bwriadu bwrw ymlaen. Gellir gweld ymateb y Llywodraeth drwy ddilyn y ddolen ganlynol: Newidiadau i hawliau datblygu a ganiateir | LLYW.CYMRU

**Cwestiwn 69: A ydych yn cytuno y dylid terfynu trefniadau trosiannol effeithlonrwydd ynni 2010 a 2014, a fydd yn golygu y byddai angen i bob adeilad newydd nad yw'n bodloni gofynion trefniadau trosiannol 2025 gael ei adeiladu yn unol â safon Rhan L 2025?**

| Cwestiwn 69: A ydych yn cytuno y dylid terfynu trefniadau trosiannol effeithlonrwydd ynni 2010 a 2014, a fydd yn golygu y byddai angen i bob adeilad newydd nad yw'n bodloni gofynion trefniadau trosiannol 2025 gael ei adeiladu yn unol â safon Rhan L 2025? | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Pawb a ymatebodd | Pensaer | Adeiladwr/Datblygwr | Meddiannydd Adeilad/Preswylydd | Gweithiwr Proffesiynol ym maes Adeiladu | Dylunydd/Peiriannydd/Syrfëwr | Asesydd Ynni | Sector ynni | Awdurdod Lleol | Gwneuthurwr/cadwyn gyflenwi | Parti Arall â Diddordeb (rhowch fanylion) | Rheolwr Eiddo/Cymdeithas Tai/Landlord | Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu | Adeiladwr bach/canolig | Heb ei nodi | Adeiladwr tai mawr |
| **Cyfanswm** | **66** | **9** | **2** | **1** | **3** | **6** | **2** | **0** | **8** | **7** | **23** | **3** | **1** | **0** | **0** | **1** |
| a. Ydw | 91% | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% | 0% | 63% | 86% | 91% | 100% | 100% | 0% | 0% | 100% |
| b. Nac ydw | 3% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 25% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| c. Ddim yn siŵr | 6% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 13% | 14% | 9% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |

8.16 Cafwyd cyfanswm o 66 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. O blith yr ymatebwyr, roedd mwyafrif (91%) yn cytuno y dylid terfynu'r trefniadau trosiannol ar gyfer 2010 a 2014, roedd 3% yn anghytuno ac roedd 6% yn ansicr.

**Adborth a roddwyd gan y rhai a oedd yn cefnogi'r cynnig**

- **Diogelu adeiladau at y dyfodol**: Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a oedd yn cytuno fod hwn yn newid pwysig er mwyn sicrhau y caiff cynifer â phosibl o adeiladau newydd eu codi yn unol â'r safonau newydd, a'i fod yn allweddol er mwyn cyrraedd targedau sero net.
- **Atal chwarae'r system / mannau gwan**: Dywedodd wyth ymatebydd y bydd terfynu trefniadau trosiannol hanesyddol yn sicrhau cysondeb a thegwch, gan nodi bod cryn dipyn o chwarae'r system wedi digwydd mewn perthynas â'r rheoliadau yn y gorffennol, drwy adeiladu cartrefi/eiddo yn rhannol.
- **Diffiniad o'r term "cychwyn"**: Pwysleisiodd un ymatebydd a oedd o blaid datblygu cartrefi newydd yn unol â'r safonau uchaf fod angen dull cytbwys, gan nodi ei bod yn hollbwysig ystyried goblygiadau cynllunio unrhyw fesurau a gyflwynir a'r effaith y gallai hyn ei chael ar argaeledd tai y gellir eu hadeiladu o dan ganiatadau cynllunio sy'n bodoli eisoes.
- **Cysondeb â Lloegr**: Nododd un ymatebydd fod terfynu rheoliadau hanesyddol yn gyson â deddfwriaeth arall debyg yn Lloegr.
- **Canllawiau clir**: Nododd un ymatebydd fod angen canllawiau clir er mwyn egluro, pan gaiff y trefniadau trosiannol blaenorol eu terfynu, pa

reoliadau fydd yn berthnasol, gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â Dogfen Gymeradwy L a'r rhai nad ydynt yn gysylltiedig â hi mwyach. Er enghraifft, p'un a fydd y gofynion gorgynhesu sydd yn Nogfen Gymeradwy O a Rheoliad 40B o Reoliadau Adeiladu 2010 hefyd yn berthnasol.

- **SAP**: Dywedodd un ymatebydd fod llawer o gartrefi'n dal i gael eu hadeiladu yn unol â Rhan L 2010 a 2014 a bod llawer o ddatblygwyr yn dewis defnyddio cynhyrchion meddalwedd SAP hŷn i lunio adroddiadau cydymffurfiaeth. Oherwydd oedran y cynhyrchion meddalwedd hyn, mae'n mynd yn annichonadwy eu cynnal a'u cadw yn unol â safonau diogelwch modern, a allai arwain at sefyllfa lle nad oes meddalwedd ar gael i wneud cyfrifiadau ar gyfer y fersiynau hŷn hyn o Ran L.
- **Cefnogaeth o blaid mwy o uchelgais**: Awgrymodd tri ymatebydd y dylid symud tuag at darged mwy uchelgeisiol, gan awgrymu tŷ goddefol fel safon adeiladu i Gymru er mwyn targedu newid hinsawdd.

**Adborth gan y rhai nad oeddent yn cefnogi'r cynnig**

- **Oedi mewn gwaith adeiladu**: Cwestiynodd un ymatebydd a fyddai'r cynnig hwn yn arwain at oedi o fewn unrhyw brosiectau sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd.
- **Costau uwch**: Cododd dau ymatebydd bryderon ynglŷn â chostau uwch i ddatblygwyr er mwyn cydymffurfio â manylebau uwch yn sgil newid y disgwyliadau ynghylch gofynion dros dro y cytunwyd arnynt eisoes.

**Ymateb y Llywodraeth i gwestiwn 69**

8.17 Roedd cefnogaeth gref iawn o blaid y cynnig hwn, gyda 91% o'r ymatebwyr yn cytuno y dylid terfynu trefniadau trosiannol effeithlonrwydd ynni 2010 a 2014, a dim ond 3% yn anghytuno. Pwysleisiodd yr ymatebwyr bwysigrwydd sicrhau y caiff datblygiadau newydd eu hadeiladu yn unol â'r safonau presennol er mwyn helpu i gyrraedd ein targed sero net. Yn sgil yr adborth hwn, rydym yn bwriadu bwrw ymlaen â'r cynnig.

# 9. Y Gymraeg

**Cwestiwn 70: Yn eich barn chi, beth fyddai effeithiau tebygol y cynigion ar y Gymraeg? Mae gennym ddiddordeb penodol mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

**A oes unrhyw gyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol, yn eich barn chi?**

**A oes unrhyw gyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol, yn eich barn chi?**

9.1 Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn cytuno na fyddai'r cynigion yn cael llawer o effaith uniongyrchol ar y Gymraeg, os o gwbl, am mai cynigion technegol ydynt yn bennaf. Ni wnaeth llawer o'r ymatebwyr fynegi barn benodol, neu roeddent yn ansicr ynglŷn â'r effeithiau, gan awgrymu nad yw ystyriaethau ynglŷn â'r Gymraeg yn rhan ganolog o'r cynigion. Lle y nodwyd effeithiau, pwysleisiodd yr ymatebwyr y byddai darparu deddfwriaeth, canllawiau a deunyddiau ategol yn ddwyieithog yn cael effaith gadarnhaol drwy sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Tynnodd nifer bach o ymatebwyr sylw at gyfleoedd i safoni'r defnyddio'r Gymraeg mewn dogfennau proffesiynol a thechnegol a gaiff eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru, wedi'u pwysoli yn erbyn pryderon unigol ynglŷn â goblygiadau ymarferol cyfieithu a'i oblygiadau o ran adnoddau.

**Cwestiwn 71: Yn eich barn chi, a allai unrhyw rai o'r cynigion gael eu llunio neu eu newid er mwyn iddynt:**

- **gael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu**

- **liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

9.2 Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr o'r farn y gallai'r cynigion gael eu rhoi ar waith neu eu haddasu mewn ffordd a fyddai'n arwain at effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg ac yn lliniaru unrhyw effeithiau negyddol. Er i lawer o'r ymatebwyr beidio â mynegi barn benodol, neu fod yn ansicr ynglŷn â'r effeithio, roedd y rhai a atebodd yn cytuno y byddai ymgorffori dwyieithrwydd drwy gydol y broses o roi'r cynigion ar waith, gan gynnwys mewn canllawiau, templedi, systemau digidol, allbynnau meddalwedd, a hyfforddiant, yn cefnogi mwy o ddefnydd o'r Gymraeg ac yn sicrhau na châi ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Roedd consensws cyffredinol nad oedd angen newidiadau sylfaenol i'r cynigion, ac y gellid lliniaru unrhyw effeithiau andwyol posibl yn effeithiol drwy ddarpariaeth ddwyieithog glir, gyson a chymesur.

**Ymateb y Llywodraeth i gwestiynau 70 a 71**

9.3 Mae hyrwyddo'r Gymraeg yn parhau i fod yn flaenoriaeth strategol allweddol i Lywodraeth Cymru, gydag ymrwymiad clir i sicrhau ei bod yn ffynnu. Er mwyn helpu i gyflawni'r nod hwn, mae Safonau'r Gymraeg yn nodi dyletswyddau cyfreithiol gyfrwymol sy'n berthnasol i Lywodraeth Cymru. Caiff holl ddogfennau'r Rheoliadau Adeiladu eu hasesu ar sail y Safonau hyn a'u cyhoeddi'n unol â hynny.

# 10.Y Camau Nesaf

10.1 Caiff fersiynau terfynol y Dogfennau Cymeradwy eu llunio a chaiff y rheoliadau eu drafftio yn unol ag ymateb y Llywodraeth i bob un o'r adrannau uchod. Bwriedir gwneud y rheoliadau diwygio yn ystod gwanwyn 2026, ac y byddant yn dod i rym yn ystod gwanwyn 2027. Caiff y dogfennau cymeradwy terfynol (canllawiau statudol) eu cyhoeddi yn ystod Gwanwyn/Haf 2026.

10.2 Caiff yr ymateb y Llywodraeth i gwestiynau 44 i 47 (ym mhennod 3 yr ymgynghoriad) a oedd yn cynnwys cynigion ar gyfer y newidiadau i Ran O (gorgynhesu) er mwyn cwmpasu rhai mathau o waith adeiladu risg uchel ar anheddau presennol eu cyhoeddi ar wahân yn nes ymlaen eleni.